
# Adroddiad Blynyddol 2021/22

Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales

# Neges gan Gomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes MBE



**Fel Comisiynydd Plant newydd Cymru, mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad hwn yn amlinellu gwaith caled a chyflawniadau fy rhagflaenydd a'i thîm yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022. Mae'n drawiadol sut mae'r tîm, er gwaethaf bron dwy flynedd o heriau cysylltiedig â'r pandemig, wedi parhau i gyflawni'n gyflym, yn llawn brwdfrydedd a phenderfyniad i sicrhau'r effeithiau mwyaf cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.**

Eleni gwelwyd y tîm yn cyhoeddi ail argraffiad o'r adroddiad 'Coronafeirws a Ni'. Yn yr adroddiad hwnnw, maen nhw'n amlygu eu cyfraniad sylweddol i ymateb Cymru i'r pandemig byd-eang yn ystod y cyfnod o fis Medi 2020 i fis Medi 2021. Mae'r rhestr yn helaeth ac yn dangos pam mae'r ffaith bod gennym ni bencampwr plant annibynnol yma yng Nghymru yn hollbwysig.

Er eu bod wedi ymgymryd â chryn dipyn o waith ychwanegol, bu'r tîm hefyd yn cyflawni eu holl ymrwymiadau, gan gynnwys: cynllunio ar gyfer comisiynydd newydd, adolygu effaith y cynllun tair blynedd, cynnal etholiad paralel yn ystod yr etholiadau lleol, diweddaru cynnydd ar ddull 'Dim Drws Anghywir' Cymru o ymdrin â iechyd meddwl, gwerthuso a pharhau i gefnogi sefydliadau i gyflwyno 'Y Ffordd Gywir' a chynhyrchu adnodd arall Y Ffordd Gywir ar Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddwch yn gallu darllen am yr holl ddarnau hynny o waith a mwy yn yr adroddiad hwn.

Eleni hefyd gwelwyd y tîm yn llwyddo i drefnu'r broses o adleoli ein swyddfa, o Lansamlet yn Abertawe, i Bort Talbot, symudiad a sbardunwyd gan ein nodau sefydliadol o wella cynaliadwyedd a hygyrchedd ein swyddfeydd. Mae ein swyddfeydd newydd yn agosach at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, ac yn sylweddol lai, gan gydnabod y symudiad at fwy o weithio hyblyg ac ystwyth, datblygiad arall rydyn ni wedi'i groesawu.


Wrth i mi edrych ymlaen at y flwyddyn sy'n dod, ni allaf ond gobeithio parhau â'r un llwyddiant a chefnogaeth gref gan y tîm a oedd yn nodweddu cyfnod fy rhagflaenydd yn y swydd. Efallai ein bod ni'n dod allan o bandemig Covid, ond rydyn ni bron yn sicr yn mynd i ganol argyfwng arall – Argyfwng Costau Byw, sydd yn rhoi pwysau aruthrol ar deuluoedd a phlant a oedd eisoes mewn trafferthion. Allwn ni ddim fforddio gadael i'r bwlch anghydraddoldeb ehangu ymhellach. Os bu i Covid fwrw goleuni ar anghydraddoldeb oedd eisoes yn bodoli, ni allwn edrych y ffordd arall nawr, wrth i fwy o blant nag erioed syrthio o dan y llinell dlodi, a dweud wrthyn ni eu bod nhw'n pryderu am eu dyfodol eu hunain.

Bydd cydraddoldeb yn ein sefydliad ninnau yn ffocws arall, gan adeiladu ar y gwaith a gychwynnwyd gan y swyddfa wedi adfywiad y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys (BLM) yn 2020. Rwyf hefyd yn gobeithio cyrraedd ac ymgysylltu â mwy o blant a phobl ifanc ledled Cymru, a'u gwahodd i gyfrannu eu barn a'u blaenoriaethau eu hunain i lywio fy nghynllun gwaith tair blynedd innau – Gobeithion i Gymru.

A bydda i'n parhau ar fy nhaith fy hun o ran dysgu Cymraeg – dwi newydd ddechrau dysgu Cymraeg, a dwi'n meddwl bod Cymraeg yn bwysig iawn…Dwi'n edrych ymlaen! Mae'r holl staff yma yn ysgrifennu eu haddewidion Cymraeg eu hunain; dyma fy rhai i.

Hoffwn i'r gair olaf gen i fod yn air o ddiolch i'm rhagflaenydd, yr Athro Sally Holland. Rwy'n gwybod y byddai hi eisiau i fi ddiolch i'w thîm am eu hymroddiad a'u hymrwymiad diflino, yr wyf fi wedi bod yn ffodus i'w hetifeddu, a hefyd i'r miloedd o blant a phobl ifanc a fu'n ymddiried ynddi gyda'u profiadau a'u syniadau. Diolch yn fawr iawn, Sally.

Mae pobl yn dweud wrthyf fi y bydd y saith mlynedd nesa yn y swydd yn hedfan heibio. Alla i ddim aros i gychwyn arni a chwarae fy rhan yn y gwaith o adeiladu ar werth mwy nag 20 mlynedd o etifeddiaeth y sefydliad annibynnol hwn.



# Neges gan ein panel ymgynghorol pobl ifanc



**Daliodd ein panel ymgynghorol o bobl ifanc ati i gwrdd ar hyd 2021/22 trwy'r cyfarfodydd ar-lein misol newydd gyda'r Comisiynydd, oedd yn ffynhonnell gyfoethog o adborth i'r Comisiynydd ynghylch barn plant a phobl ifanc o ran ei chynllun gwaith a materion cyfredol. Mae pobl ifanc hefyd wedi cyfrannu eu barn i ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ar y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, y cynigion i gyflwyno terfyn cyflymder 20mya, y Cynllun Gweithredu ynghylch Hil a'r cynllun gweithredu LHDTC+. Mae recriwtio pellach i'r panel wedi cynyddu nifer y bobl ifanc sydd arno i 42.**

Mae pobl ifanc o'r panel ymgynghorol wedi gallu cyfranogi mewn cyfleoedd ychwanegol gyda'r swyddfa, gan gynnwys cynrychioli Cymru yng nghynhadledd Rhwydwaith Ymgynghorwyr Ifanc Ewrop (ENYA). Mae'r bobl ifanc wedi gallu bwydo canlyniadau'r gynhadledd hon yn ôl yn uniongyrchol i Brif Weinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru, wedi cwrdd â'r Gweinidog Addysg a'i holi ynghylch materion Addysg, ac wedi bod yn gyfranogwyr gweithredol yng nghyfweliadau staff Comisiynydd Plant Cymru.

Rydyn ni'n gwerthuso profiadau pan fydd ein haelodau ifanc yn ymadael; dyma beth oedd gan un ohonyn nhw i'w ddweud pan ddaeth eu tymor i ben eleni:

**"Helô! Roeddwn i eisiau diolch o galon i chi am roi cyfle i fi fod yn rhan o'ch panel ieuenctid – fe wnes i fwynhau'r profiad gymaint ac rydw i wir yn teimlo bod hynny wedi rhoi mwy o hyder i fi. Diolch am fy annog i wneud cais am rôl y Cadeirydd hefyd! Dwy ddim yn credu byddwn i wedi bod yn ddigon hyderus i wneud hynny heb eich anogaeth ymlaen llaw, ac roeddwn i wrth fy modd – fe wnes i ddysgu cymaint!**

**Roeddwn i wir yn teimlo bod fy llais yn bwysig a bod pawb yn eich tîm eisiau clywed beth oedd gan y panel i'w ddweud, a bod ein geiriau wir yn cael effaith ar eich gwaith – alla i ddim diolch digon i bawb ohonoch chi am wrando arnon ni. Fe wnaeth hynny flwyddyn anodd yn haws, achos roedd pawb ohonon ni'n gwybod bod gennym ni ffordd i wneud gwahaniaeth, ac y byddech chi'n brwydro yn ein cornel ni.**

**Hoffwn i chi basio fy niolch ymlaen i weddill y tîm hefyd! Fe wnaeth pawb ohonyn nhw y profiad yma'n un gwych!"**

# Beth rydyn ni'n ei wneud

# Mae cyfres o gyfreithiau'n nodi beth dylai Comisiynydd Plant Cymru ei wneud i ddiogelu a hybu hawliau plant. Rydyn ni wedi crynhoi'r cyfreithiau hynny'n bum maes gwaith. Yn syml iawn, dyma beth mae'r Comisiynydd yn ei wneud:

## Cefnogi

plant a phobl ifanc i ddysgu am eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

## Gwrando

ar blant a phobl ifanc i gael gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw

## Cynghori

plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw os byddan nhw'n meddwl eu bod wedi cael eu trin yn annheg

## Dylanwadu

ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan sicrhau eu bod yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc

## Codi llais

dros blant a phobl ifanc yng Nghymru ar faterion pwysig

**Mae gennym ni hawl i weithio gyda phob plentyn yng Nghymru sydd:**

Hyd at 18 oed

Hyd at 21 oed os ydyn nhw wedi bod mewn gofal, neu 25 oed os ydyn nhw wedi bod mewn gofal ac maen nhw'n dal ym myd addysg

**Mae'r adroddiad hwn yn sôn am sut rydyn ni'n gwneud hyn.**

# Y Ffordd Gywir

# Seiliwyd polisïau a deddfwriaeth ynghylch plant yng Nghymru ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cyfreithiau penodol sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i wireddu hawliau plant.

**I gefnogi cyrff cyhoeddus gyda'r dyletswyddau hyn, fe wnaethon ni gyhoeddi 'Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru' yn 2017. Canllaw ymarferol yw hwn, i'w helpu i sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i bob penderfyniad cynllunio a gwasanaeth a gyflwynir.**

Eleni, fe wnaethon ni benderfynu gwerthuso effaith ein gwaith ar y Ffordd Gywir gyda 30 o sefydliadau trwy arolwg a 22 arall trwy grwpiau ffocws.

Dyma grynodeb o'r hyn ddywedodd pobl am Y Ffordd Gywir yn ein gwerthusiad, Troi Uchelgais yn Weithredu:

**"Mae (YFfG] yn ddigon eang, ond yn ddigon ymarferol i droi ein huchelgais o wneud beth sy'n dda ac yn gywir i blant yn weithredu".**

**"Mae YFfG yn gyfle i fod yn gyson; i gymhwyso dull gweithredu unedig a chyson ar draws fy sefydliad, ac ar draws sefydliadau tebyg yng Nghymru"**

**"Mae YFfG wedi'n helpu i roi strwythurau ar waith fydd yn golygu bod gwrando ar blant a phobl ifanc, sy'n un o'n gwerthoedd, yn cael ei drawsffurfio'n weithredu. Fe gynhalion ni grwpiau ffocws gyda [4 tîm cenedlaethol] a'r plant a'r bobl ifanc sy'n ymwneud â nhw, gan ddarganfod bod ystod aruthrol eang o ddulliau gweithredu barnwrol yn ein hardal ninnau'n unig. Trwy wrando ar blant, pobl ifanc a staff, llwyddon ni i drawsffurfio'n gwasanaethau i ymateb i anghenion y rhai oedd yn eu defnyddio. Newidiodd YFfG y lens – nid troseddwyr oedd yn haeddu cael eu cosbi oedd plant, ond pobl yr oedd angen cefnogaeth adferol arnyn nhw. Mae hyn wedi arwain at newid polisïau y bernir eu bod yn cosbi."**

**"Mae canllawiau swyddogol a dogfennau gan Swyddog y Comisiynydd Plant wedi bod yn ddefnyddiol i sicrhau bod ein llunwyr penderfyniadau uwch yn ymrwymo i hyn. Mae cael hyd i ffordd trwy'r holl bwysau a galwadau wrth ddarparu gwasanaeth yn galw am ychydig mwy o anogaeth uniongyrchol, ac mae Sally'n gwneud hynny. Mae pobl yn gweld ei henw ac yn talu sylw. Nid fy llais i yw e bellach, ond strategaeth ac adnoddau a Chomisiynydd. Rydyn ni'n croesawu hynny."**

**Ar sail yr arolwg a'r grwpiau ffocws, ymddengys bod Y Ffordd Gywir yn:**

- Darparu dull gweithredu cyson a chyffredin o ymdrin â hawliau plant
- Caniatáu cyfleoedd i gydweithio, oedd yn cael ei ddathlu
- Darparu cefnogaeth ymarferol i ddeall Y Ffordd Gywir a'i rhoi ar waith
- Galluogi ymrwymiad ar lefel uwch oherwydd 'bathodyn' y Comisiynydd

**Ymhlith yr ychwanegiadau newydd i borth adnoddau'r Ffordd Gywir eleni roedd:**

- diweddaru Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru;
- modiwlau hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol;
- adnoddau darlithio i weithwyr ieuenctid.

Buon ni hefyd yn cefnogi sefydliadau unigol i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, heddluoedd, y sector cyfiawnder ieuenctid a Chwaraeon Cymru.



# Sut rydyn ni'n **cefnogi** plant a phobl ifanc i ddysgu am eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

# Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan ein staff cyfranogiad profiadol. Mae eu gwaith wedi'i seilio ar Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru.



## Dyma rai o uchafbwyntiau gwaith y tîm eleni:

### Gwaith Blynyddoedd Cynnar

Fel rhan o'n gwaith arloesol buon ni'n gweithio gydag ystod o weithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol i archwilio sut gallai dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant edrych mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Lansiwyd ein pecyn gweithgareddau a'n hadnodd hyfforddi yng nghynhadledd y Mudiad Meithrin, ac mae'n cefnogi'r plant ifancaf i fwynhau dysgu am eu hawliau a beth sydd ei angen arnyn nhw i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

### ENYA – Cynhadledd effaith COVID 2021 / Cynhadledd y Newid yn yr Hinsawdd 2022

Buon ni'n gweithio gyda rhai pobl ifanc o'n panel ymgynghorol i baratoi ar gyfer dwy gynhadledd ryngwladol oedd yng ngofal Rhwydwaith Ymgynghorwyr Ifanc Ewrop (ENYA) a Rhwydwaith Ombwdsmyn Plant Ewrop (ENOC), a chyfranogi ynddyn nhw. Roedd y cynadleddau'n ymdrin â materion yr oedd plant a phobl ifanc ar draws Ewrop wedi'u nodi fel rhai oedd yn bwysig iddyn nhw.

Cyflwynodd dau berson ifanc o'n panel ymgynghorol argymhellion i gynhadledd ENYA yn 2021 "Gadewch i ni siarad yn ifanc, gadewch i ni siarad am effaith COVID 19 ar hawliau plant" ac aeth un o'r ymgynghorwyr ifanc ymlaen i gyflwyno yng nghynhadledd gyfatebol ENOC ym mis Medi 2021. Cafodd ymgynghorwyr ifanc eraill o dîm y prosiect gyfle hefyd i gyflwyno'u gwaith i Brif Weinidog Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru.

**"Diolch o galon i Rhian a Sophie am redeg y prosiect – roedd yn brofiad anhygoel lle dysgais i gymaint am brofiad pobl eraill ar hyd y pandemig. Roeddwn i'n teimlo mod i'n cael llawer o wrandawiad ac y byddai'r byd yn esblygu er gwell oherwydd y pandemig yma!"**

(Dyfyniad gan un o gyfranogwyr y prosiect)

## Lleoliadau cronfa cynhwysiad gweithredol EYST

Mewn partneriaeth â'r Tîm Cefnogi Pobl Ifanc Ethnig (EYST), fe wnaethon ni groesawu dau berson ifanc ar leoliad profiad gwaith 16-wythnos eleni. Gyda chyfuniad o weithio o bell a gwaith yn y swyddfa, teithiodd y ddau ychwanegiad newydd ar draws Cymru i weithio gyda phlant a phobl ifanc, a chawson nhw eu cefnogi i ddatblygu sgiliau hanfodol er mwyn sicrhau cyflogaeth.

Dyma flog gan Fatjona, un o'r rhai a fu ar leoliad gyda ni, yn disgrifio'i chyfnod gyda ni a'r profiadau, y rolau a'r cyfrifoldebau gafodd hi.

## Clwb Ieuenctid Cynhwysol Pen-y-bont

Mae aelodau o'r tîm wedi parhau i fynychu cyfarfodydd rheolaidd o Glwb Ieuenctid Cynhwysol Pen-y-bont, ac wedi gweithio gyda'r bobl ifanc yn y clwb i ddatblygu adnoddau a deunyddiau sy'n berthnasol i'w hanghenion ac i anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu. Rydyn ni wedi gweld hyn fel ffordd hollbwysig o sicrhau ein bod ni'n gwella sut rydyn ni'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau ein bod ni mor hygyrch â phosib o ran ein cynnwys a'n deunyddiau.

## Hyfforddiant i Weithwyr Proffesiynol

**Tîm bach o staff ydyn ni, felly rydyn ni'n dibynnu ar weithio gydag eraill i ddiogelu a hybu hawliau plant. Eleni rydyn ni wedi hyfforddi gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu cyfer, gan gynnwys:**

- Darparu hyfforddiant i AEM Estyn ar sut mae trafod pynciau sensitif gyda phobl ifanc mewn lleoliadau grŵp;
- Lledaenu gwybodaeth a dysgu ynghylch gwaith cyfranogiad gyda phlant o dan 7 oed i rwydwaith Swyddogion Cyfranogiad Cenedlaethol y Deyrnas Unedig;
- Cefnogi Gwasanaeth Ambiwlans Cymru gyda'u gwaith ar ddatblygu eu hymateb i blant a phobl ifanc sy'n gwneud galwadau 999 (gan gynnwys yr iaith mae'r rhai sy'n derbyn y galwadau yn ei defnyddio) i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn deall beth oedd yn cael ei ddweud wrthyn nhw;
- Hyfforddiant ar gyfranogiad gyda phlant o dan 5 oed ag ADY ar gyfer seicolegwyr sy'n gweithio gyda phlant yng Nghaerdydd;
- Cynghori sefydliadau ynghylch sefydlu panel ymgynghorol gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys Sustrans, Cymwysterau Cymru a Chomisiynydd Plant Tasmania; a
- Rhoi hyfforddiant ar hawliau plant i aelodau a staff Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru.

## Haf o Hwyl

Buon ni'n gweithio gyda'r Urdd a Chwaraeon Cymru i alw am gynnig cyfleoedd hygyrch, di-dâl i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru chwarae, cymryd rhan mewn chwaraeon, celfyddydau a gweithgareddau eraill awyr agored yn ystod misoedd yr haf.

Mewn ymateb, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £5 miliwn ar gyfer haf 2021, cyllid ychwanegol ar gyfer cynllun tebyg yn ystod y gaeaf – Gaeaf Llawn Lles – ac ymrwymo i gynnal Haf o Hwyl yn 2022.

## Prosiect Pleidlais

Yn dilyn llwyddiant aruthrol yr etholiad Senedd paralel cyntaf erioed yng Nghymru, buon ni'n cefnogi etholiadau paralel mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru i ddigwydd ar yr un pryd ag etholiadau lleol 2022. Ar gyfer yr etholiad hanesyddol hwn, lle gwelson ni bobl ifanc 16 oed yn pleidleisio yn etholiadau'r cyngor am y tro cyntaf, roedden ni eisiau helpu plant iau i ddeall pleidleisio.

I gefnogi ysgolion i gymryd rhan, fe wnaethon ni greu pedair gwers, pecynnau dysgu gartref, cynlluniau dysgu hygyrch a chynlluniau gwersi cyfnod allweddol 2. Arweiniodd hyn at fwrw dros 3000 o bleidleisiau yn ardaloedd 19 o gynghorau. Amlygodd ein gwerthusiad fod 58% o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn dweud eu bod bellach yn fwy tebygol o bleidleisio mewn etholiadau lleol pan fydden nhw'n ddigon hen.

# Sut rydyn ni'n **gwrando** ar blant a phobl ifanc i weld beth sy'n bwysig iddyn nhw

# Rydyn ni'n gwrando ar blant a phobl ifanc mewn cyfarfodydd, ymweliadau ysgol a gweithdai. Rydyn ni hefyd yn gwrando arnyn nhw trwy ein rhaglen llysgenhadon – cynllun a sefydlwyd dros 20 mlynedd yn ôl gan Gomisiynydd Plant cyntaf Cymru.

### Llysgenhadon Cymunedol

Mae ein rhaglen Llysgenhadon Cymunedol wedi parhau eleni er gwaethaf cyfyngiadau a heriau'r cyfnod clo. Llysgenhadon Cymunedol yw plant a phobl ifanc sydd wedi gwirfoddoli fel aelod o'u grŵp cymunedol lleol neu eu grŵp diddordeb arbennig. Eleni, rydyn ni wedi gweithio gyda'r canlynol:

- Mixtup, o Abertawe
- Llysgenhadon Hawliau'r Fro o Fro Morgannwg
- Llysgenhadon Fforwm Ieuenctid Caerfyrddin
- Bwrdd Iechyd Bae Abertawe
- Sipsiwn Roma a Theithwyr (TGP) o bob rhan o Gymru
- Fforwm Ieuenctid Caerffili
- HOPE o Gastell-nedd Port Talbot
- Gofalwyr Ifanc o Ferthyr Tydfil
- Pitchin in the Kitchen, Abertawe
- Llamas, Castell-nedd Port Talbot
- Cwrdd â mamau ifanc gydag NYAS, de Cymru
- Cwrdd yn wythnosol â Chlwb Ieuenctid ADY YMCA Pen-y-bont
- Digwyddiad ar-lein gyda Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych (WCD) yng Ngogledd Cymru

Mae'r grwpiau hyn wedi darparu cefnogaeth wych ar gyfer darnau allweddol o waith eleni, gan gynnwys ein harolygon Coronafeirws a Fi, gwaith llesiant, yr Haf o Hwyl a thasgau arbennig. Mae Llysgenhadon Cymunedol wedi bod yn gefnogaeth wych yn bwydo i mewn i lawer o'n prosiectau eleni. Rydyn ni wedi parhau mewn cysylltiad â grwpiau a'u cynnwys yn y gwaith Coronafeirws a Fi a'n tasgau arbennig: Taith Hawliau'r Gwanwyn; Gwaith Llesiant (ar ôl Covid) a'r Haf o Hwyl.

### Rhaglen Ysgolion Llysgenhadon

Mae'r rhaglen ysgolion Llysgenhadon wedi parhau i ehangu yn ystod 2021 /22 gyda 447 o ysgolion cynradd yn ymuno â'r rhaglen yn 2021/22 o gymharu â 336 y flwyddyn flaenorol a 54 o ysgolion uwchradd yn ymuno o gymharu â 44 y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynrychioli 35% o'r ysgolion cynradd a gynhelir, 26% o'r ysgolion uwchradd a gynhelir, 35% o'r ysgolion arbennig a gynhelir ac 14% o'r Unedau Cyfeirio Disgyblion a gynhelir. Mae ysgolion wedi bod yn cyfranogi'n weithredol yn y tasgau arbennig tymhorol ar bynciau oedd yn cynnwys dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant a thaith hawliau ysgolion yn ystod cyfnod yr Athro Sally Holland fel comisiynydd. Ymunodd 370 o lysgenhadon ifanc hefyd â'n cynhadledd hyfforddi ar-lein yn hydref 2021.

### Gyda'n Gilydd

Yng Nghymru, mae'n rhaid bod gan bob ysgol uwchradd gyngor ysgol. Buon ni'n siarad â bron 7000 o ddisgyblion i weld oedden nhw'n derbyn eu hawliau i gyd. Un o'r pethau ddysgon ni yw bod plant mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn teimlo'n fwy abl i leisio'u barn yn yr ysgol na phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd. Buon ni'n gweithio gyda'n panel ymgynghorol i ddarganfod beth allai wneud i fwy o bobl ifanc deimlo eu bod yn cael lleisio'u barn yn yr ysgol uwchradd. Eleni, fe gyhoeddon ni 'Gyda'n Gilydd!', adroddiad ac adnoddau ar sut i fwyafu lleisiau pobl ifanc trwy gynghorau ysgol uwchradd.

# Sut rydyn ni'n **cynghori** plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw os ydyn nhw'n meddwl eu bod wedi cael eu trin yn annheg

# Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor ar gael am ddim ac yn gyfrinachol. Mae yno i gynghori a chefnogi plant a phobl ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw os byddan nhw'n teimlo bod plentyn wedi cael triniaeth annheg.

Eleni bu'r tîm yn gweithio ar 604 o achosion unigol, gyda mwyafrif y rheiny'n ymwneud ag awdurdod lleol Caerdydd (89 o achosion), Pen-y-bont (55 o achosion) ac Abertawe (46 o achosion).

Lle bynnag y bo modd, rydyn ni'n ceisio defnyddio'r dystiolaeth rydyn ni'n ei chasglu trwy'r gwasanaeth hwn i ddylanwadu ar newid cadarnhaol i fwy o blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan nodi materion ehangach a chyfleoedd dysgu i weithwyr proffesiynol a'r llywodraeth, o fewn yr ardal leol dan sylw ac ymhellach i ffwrdd ar draws Cymru. Mae ein hadran ar sut buon ni'n dylanwadu eleni yn cynnwys mwy o fanylion.

**604**

**Eleni bu'r tîm yn gweithio ar 604 o achosion unigol**

## Y prif faterion a gofnodwyd eleni oedd:

**298**

**Addysg**
(Cwynion 76, Cyngor 54, Darpariaeth 26, Gwaharddiadau 17, Trafnidiaeth 16)

**231**

**Gwasanaethau Cymdeithasol**
(Cwynion 97, Cyngor 30, Darparu Gwasanaethau 28, Diogelu ac Amddiffyn Plant 28, Lleoliadau 20)

**26**

**Cyfreithiol**

**17**

**Tai**

**112**

**Addysg AAA/ADY**
(Lleoliadau 32, Asesu 26, Darpariaeth 24, Datganiad/CDU 21)

**93**

**Lechyd**
(Cwynion 22, Y tîm Niwroddatblygiad 19, CAMHS 15, Darpariaeth 12)

**9**

**CAFCASS**

**Cymuned 43**

**5**

**Yr Heddlu**

**46**

**Cyfiawnder Teulu**

**1**


**Mewnfudo a Cheisio Lloches**

**3**

**Budd-daliadau lles**


# Pwy gysylltodd â ni?

| | |
|---|---|
| 1. Rhiant | 366 |
| 2. Teulu estynedig | 56 |
| 3. Aelod o'r cyhoedd | 36 |
| 4. Plentyn neu berson ifanc | 28 |
| 5. Sefydliad Trydydd Sector | 18 |
| 6. Gofalwr Maeth | 15 |
| 7. Gweithiwr Addysg proffesiynol | 13 |
| 8. Gwasanaeth eiriolaeth | 10 |




# Sut bu pobl yn cysylltu â ni?

| | |
|---|---|
| 1. Ffôn | 376 |
| 2. E-bost | 262 |
| 3. Llythyr | 6 |
| 4. Yn bersonol | 2 |



# Beth mae pobl wedi'i ddweud am y gefnogaeth gawson nhw gan ein tîm

"Diolch i chi gymaint am wrando ar stori fy merch a dangos cymaint o ddealltwriaeth a chefnogaeth. Rwy'n dymuno y gallech chi fod wedi gweld y wên hyfryd ar ei hwyneb pan oedd hi'n sgwrsio â chi. Mae cysylltu â chi yn bendant wedi bod o fudd iddi."

(Rhiant i blentyn trawsrywiol)

"Pan ffoniais i Gomisiynydd Plant Cymru, doeddwn i ddim yn siŵr pa help neu gyngor byddwn i'n eu derbyn, os o gwbl. Ond roedd y fenyw bues i'n siarad â hi mor barod i helpu, ac fe gymerodd amser i wrando ar bopeth oedd gen i i'w ddweud. Ar ben hynny, roeddwn i'n teimlo mod i wedi cael gwybodaeth (gan fod gen i ddim syniad pa ddeddfwriaeth sy'n bodoli, na'r polisi a'r gweithdrefnau) a chymerodd x ei hamser i esbonio a'm pwyntio i'r cyfeiriad cywir, o ran ble gallwn i wneud mwy o ymchwil. Mae'r cyngor a'r wybodaeth y bu x yn ddigon caredig i'w hanfon ata i drwy e-bost wedi bod yn amhrisiadwy – fyddwn i'n sicr ddim wedi cael hyd i hynny drwy 'gwglo' ar fy mhen fy hun. Felly, diolch o galon! Yr unig beth yw mod i'n dymuno bod mwy o rieni/warcheidwaid yn ymwybodol o'r gwasanaeth rhyfeddol yma, achos mae wedi bod yn gymaint o help i fi. Diolch!"

(Rhiant mewn perthynas â mater addysg)

"Diolch am y cyfle i siarad heddiw, er bod hynny'n anodd, roedd yn angenrheidiol ac rwy'n diolch i chi am eich dealltwriaeth a'ch tosturi. Yn dilyn ymlaen o hynny rwyf wedi gofyn am gyfarfod gydag X, mae atodiad ynghlwm i'm diogelu i a'm mab rhag gwirioneddau pellach na sonnir amdanynt, yn y gobaith y bydd hynny'n bodloni gweithdrefnau a chamau gweithredu wrth i mi geisio amddiffyn fy hun, ac yn bwysicach fy mab".

(Rhiant mewn perthynas â phroblem yn yr ysgol)

"Un o'r pethau anoddaf o ran ein profiad yn ceisio sicrhau'r gefnogaeth addysgol gywir i'n merch yw'r teimlad o beidio â chael ein clywed na'n deall. Mae'n deimlad ynysig a rhwystredig iawn. Wrth sgwrsio trwy'r anawsterau gyda CPC, roeddwn i'n teimlo mod i'n cael gwrandawiad ac yn teimlo empathi a dealltwriaeth. Roedd y cyngor a ges i yn ddefnyddiol dros ben gan ei fod yn helpu i dorri trwy gysgodion proses hir ac anodd (brwydr) i sicrhau'r gefnogaeth gywir, ac rwy'n teimlo'n fwy cadarnhaol a hyderus yn fy null gweithredu o hyn ymlaen i sicrhau bod ein merch yn cael y ddarpariaeth angenrheidiol mae hi'n ei haeddu."

(Rhiant mewn perthynas â mater addysg)

Sut rydyn ni'n **codi llais** dros blant a phobl ifanc yng Nghymru ar faterion pwysig a sut rydyn ni'n **dylanwadu** ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod yn mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan wneud yn siŵr eu bod yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc.

## Mae ein cerdyn adroddiad yn cynnwys uchafbwyntiau o ran sut rydyn ni wedi codi llais a cheisio dylanwadu ar Lywodraeth Cymru ac eraill i ddiogelu hawliau plant.


## Dyma rai ffeithiau allweddol am y gwaith hwnnw eleni:

**650**




Sicrhawyd sylw i'r sefydliad 650 o weithiau mewn cyfryngau darlledu a phrintiedig

**31**



Ymatebwyd i 31 o bwyllgorau Llywodraeth Cymru, pwyllgorau'r Senedd ac ymgyngoriadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**148**



Cymerwyd rhan, ar gyfartaledd, mewn 148 o weithgorau

# Ein **Pobl**

# Yn cyflawni'r holl waith yma mae tîm staff o 25.



Bob tair blynedd rydyn ni'n gwahodd pob aelod o staff i gymryd rhan mewn arolwg staff. Mae'n cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd gwaith yn swyddfa'r Comisiynydd, gan gynnwys: llwyth gwaith ac adnoddau, rheolaeth linell, amcanion sefydliadol a phwrpas, cynhwysiad a thriniaeth deg, arweinyddiaeth, gwybodaeth am y staff, cydweithwyr tîm, cydweithwyr yn y tîm ehangach, tâl a buddion, diogelwch ac urddas yn y gwaith, dysgu a datblygiad a chyfathrebu mewnol. Cawson ni gyfradd ymateb o 81% i'n harolwg diweddaraf, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2021, o gymharu â chyfradd ymateb o 82% yn 2018.

Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd:


## Gwelliant

Gwelwyd gwelliant mewn 4 adran arweinyddiaeth, cydbwysedd gwaith a bywyd, amcanion sefydliadol a chyfathrebu – o gymharu â'r arolwg blaenorol.


## Sefydlogrwydd

Mae 6 adran rheolaeth linell, cydweithwyr uniongyrchol, cynhwysiad a thriniaeth deg, staff, tâl a buddion a diogelwch ac urddas – i gyd wedi parhau'n sefydlog o gymharu â'r arolwg blaenorol.


# Am y tro cyntaf ac mewn ymateb i newidiadau pwysig yn ein ffordd o weithio oherwydd lleoliad newydd i'n swyddfa ac effaith pandemig Covid 19, cynhwyswyd adran benodol ar sut yr ymatebodd y sefydliad i newid. Dyma rai uchafbwyntiau:




**Mae 86%**
o'r ymatebwyr yn cytuno bod symud i Dŷ Llewellyn wedi cael ei drefnu'n dda gan y sefydliad ar gyfer dyfodol ein tîm;



**Teimlai 81%**
o'r ymatebwyr eu bod wedi cael eu cefnogi'n briodol gan CPC yn ystod y pandemig;



**Mae 86%**
o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr ymateb i'r pandemig, gan gynnwys gweithio gartref, wedi cael ei reoli'n dda;



**Teimlai 90%**
o'r ymatebwyr yn optimistaidd ynghylch dyfodol ein tîm.



# Dyma ddiweddariad gan ein hyrwyddwyr llesiant, sef aelodau staff ar draws y sefydliad sydd â diddordeb byw mewn llesiant yn y gweithle ac sy'n wirioneddol ofalgar ynghylch eu cydweithwyr:

**Ein ffocws llesiant eleni fu her cynhwysedd, gyda'n hyrwyddwyr llesiant yn dod â diferyn bach o harmoni i'r Tîm mewn cyfnod o newid parhaus.**

Fe symudon ni i'n swyddfeydd newydd hyfryd ym Mhort Talbot ym mis Medi 2021 ond rydyn ni'n dal i gefnogi cydweithwyr i weithio gartref am ran sylweddol o'r wythnos, gan gynnwys nifer cynyddol o weithwyr y mae eu cartrefi'n weithle arferol iddyn nhw.

Gydag amrywiaeth mor eang o batrymau gwaith, lefelau ymgysylltiad a gwahanol anghenion, sut mae llwyddo i gefnogi anghenion llesiant pawb a chynnal cydlyniant y Tîm a brwdfrydedd ynghylch ein cenhadaeth, sydd mor aruthrol bwysig?

Rydyn ni wedi gweithio'n galed eleni i greu swyddfa sy'n llythrennol yn ofod deniadol ac ymarferol. Mae ein gofod yn cael ei ddylunio gan y Tîm ar gyfer y Tîm ac mae'n parhau i ystwytho a newid wrth i ni brofi ffyrdd newydd o weithio. Mae'r cysyniad yma o fod yn ystwyth a newid i ymateb i'n hanghenion newidiol fel Tîm wedi bod yn gwbl allweddol i'n dull o ymdrin â llesiant eleni. Does gennym ni ddim yr holl atebion eto i lesiant yn y byd newydd hwn o weithio hybrid, ond rydyn ni'n hoffi rhoi cynnig ar fentrau a mynd gyda'r rhai sy'n llifo; os nad ydyn nhw'n llwyddo, rydyn ni'n siarad â mwy o bobl, yn addasu, ac yna'n rhoi cynnig arall arni.

Cyn gynted ag y llaciodd cyfyngiadau'r pandemig, fe wnaethon ni fuddsoddi mewn diwrnod cwrdd i ffwrdd haeddiannol i'r Tîm yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, lle bu cydweithwyr yn treulio amser o safon gyda'i gilydd mewn lleoliad hardd, yn cynllunio, yn cymdeithasu, ac yn cofio llawenydd bod gyda'i gilydd.

Rydyn ni hefyd yn ffodus iawn bod gennym ni grŵp dawnus o bobl greadigol yn ein Tîm, sy'n barod i dreulio peth amser yn creu podlediad rheolaidd i CPC. Mae'r darn yma o sain hudol yn peri i bawb wenu a chwerthin, ac mae'n gwbl amhrisiadwy o ran llesiant.

Rydyn ni'n dal i gwrdd yn fisol fel tîm o staff ar blatfform rhithwir, ac yn rhannu llwyddiannau gwaith a hanesion doniol.

Datblygiad arall eleni fu creu cronfa o adnoddau sefydlu newydd a gwybodaeth i staff newydd eu recriwtio sy'n annhebygol o gwrdd â'u holl gydweithwyr wyneb yn wyneb am rai misoedd. Mae'r adnoddau hyn yn canolbwyntio mwy ar ddod â phersonoliaethau'r Tîm yn fyw a chyfleu ein normau diwylliannol, y normau nad oes cyfrifoldeb penodol ar neb i ddweud wrthych chi amdanyn nhw. Bellach mae gennym ni gronfa o adnoddau ar ddiwylliant CPC, acronymau, heriau 'dod i nabod eich llwyth' ac '13 o bethau amdanaf fi' gan bob aelod o staff.

# Ein **Hymrwymiadau**

## Mae rhai safonau a dyletswyddau cenedlaethol y mae'n rhaid i ni eu bodloni fel sefydliad. Yma rydyn ni'n esbonio beth rydyn ni wedi'i wneud mewn perthynas â dau ohonynt:

1. Safonau'r Gymraeg

2. Proffil amrywiaeth ein staff

# 1 Safonau'r Gymraeg

**Mae Comisiynydd Plant Cymru yn mynd ati i hybu'r Gymraeg ac egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae wedi rhoi mesurau strwythurol ar waith i sicrhau bod ei swyddfa'n cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae wedi dynodi aelod o'i thîm rheoli i arwain cydymffurfiaeth â holl ofynion deddfwriaethol cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg.**

**Eleni, rydyn ni wedi:**

- Parhau i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Iaith Gymraeg mewn cyfarfodydd tîm rheoli misol a darparu cyfleoedd dysgu i'r staff ddatblygu eu Cymraeg yn ôl lefel eu sgiliau.
- Cwblhau ymateb ymgynghori i'r Côd Ymarfer ar gyfer Safonau'r Gymraeg;
- Cynnal hunanarchwiliad o gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg mewn ymateb i gais am dystiolaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg;
- Datblygu cynllun gweithredu i roi sylw i faterion a godwyd gan archwiliad Comisiynydd y Gymraeg o gydymffurfiaeth â'r safonau; a
- Chael ein cynnwys gan Gomisiynydd y Gymraeg fel astudiaeth achos arfer da yng nghyswllt ein gwaith ar ein Haddewidion o ran y Gymraeg;
- Dathlu ymgyrch 'Mae gen i hawl' gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (Safon 145)

Ar 31 Mawrth 2022 roedd 25 o bobl yn gweithio yn swyddfa'r Comisiynydd. O'r 25 o bobl oedd yn gweithio gyda ni yn ystod y cyfnod hwnnw:

**10** — **Roedd 10 yn disgrifio'u hunain fel rhai oedd yn rhugl yn Gymraeg.**

**2** — **Roedd 2 yn disgrifio'u hunain fel rhai oedd â sgiliau Cymraeg canolradd.**

**4** — **Roedd 4 yn disgrifio'u hunain fel rhai oedd â sgiliau Cymraeg lefel uwch.**

**9** — **Roedd 8 yn disgrifio'u hunain fel rhai oedd yn methu siarad Cymraeg/oedd â sgiliau Cymraeg lefel mynediad.**

## Nifer y cyflogeion a fu'n mynychu cyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennym yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn – (Safon 146) –

Er mwyn helpu'r staff i wella'u sgiliau Cymraeg comisiynwyd cyrsiau hyfforddi Cymraeg wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr canolradd/uwch yn ystod y cyfnod hwn, a chefnogi dau aelod o staff i ddysgu Cymraeg yn eu hamser eu hunain, tu allan i'r gwaith.

## Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle roedd:

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol** – 1 swydd. 1 swydd ran amser i Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor.
- **Angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth benodi i'r swydd** – Dim
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol** – 1 swydd. 1 swydd Swyddog Polisi rhan amser.
- **Sgiliau Cymraeg yn ddianghenraid** – Dim
- **Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oedd dyletswydd arnon ni i gydymffurfio â nhw** – Daeth un gŵyn i law mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau gweithredu. Roedd hyn yn ymwneud â CPC yn cyflwyno ymateb Cymraeg i ymgynghoriad gan y Senedd ar ôl cyflwyno ymateb Saesneg. Cafodd y gŵyn ei chydnabod a'i derbyn yn gyflym pan ymchwiliwyd iddi, a rhoddwyd newidiadau ymarfer ar waith ers hynny i'w atal rhag digwydd eto. Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau yng nghyswllt y Gymraeg a'r safonau gweithredu.

# 2
# Proffil Amrywiaeth ein staff

**Rydyn ni'n annog aelodau ein Tîm fel mater o drefn i wneud datganiadau amrywiaeth mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf Cydraddoldeb, oherwydd bod yr ystadegau hynny'n ein helpu i ganfod camau cadarnhaol i wella natur gynhwysol ein gweithle. Ar gyfartaledd, mae rhwng 1 a 5 o bobl bob blwyddyn yn dewis yr opsiwn 'dewis peidio datgelu' ar gyfer pob nodwedd cydraddoldeb, felly nid oes gennym ni ddarlun cyflawn.**

Er ein bod ni'n cydnabod pwysigrwydd rhannu ein hystadegau amrywiaeth, mae cyfyngiadau ar faint o fanylion y gallwn ni eu rhannu er mwyn parchu hawliau diogelu data ein cydweithwyr. Serch hynny, mae'n gyffredinol glir bod ein Tîm i raddau helaeth, ar 31 Mawrth 2022, ag ethnigrwydd gwyn, bod y mwyafrif yn disgrifio'u hunain fel benywod, y mwyafrif yn dweud eu bod yn wahanrywiol, 36% yn disgrifio'u hunain fel Cristnogion, 48% ddim yn dilyn crefydd na chred, a 64% yn rhugl neu â sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg. Ceir rhagor o fanylion isod.

Er hwylustod adrodd a chymharu o flwyddyn i flwyddyn, rydyn ni'n adrodd ein hystadegau ar ddyddiad penodol yn y flwyddyn. O ganlyniad, rhaid i ni dderbyn na fydd y dull hwn yn cynnwys proffil amrywiaeth unrhyw gyflogaeth tymor byr neu fyfyrwyr ar leoliad yr ydym wedi'u cefnogi yn ystod y cyfnod dan sylw.

O bersbectif cydraddoldeb mae yna bethau i'w dathlu ynghylch cyfansoddiad ein Tîm presennol o ran rhywedd a grymuso benywod yn y gweithle, diwylliant y Gymraeg a chyflyrau iechyd hirdymor, ond mae'n amlwg bod rhai profiadau bywyd pwysig ar goll o gyfansoddiad presennol ein staff. Gan ein bod yn dîm bach iawn o bobl, mae profiadau bywyd amrywiol aelodau ein paneli ymgynghorol yn gwneud cyfraniad hollbwysig i'n ffordd o weld y byd, ond rydyn ni'n cydnabod bod gennym ragor i'w wneud yn y maes hwn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi blaenoriaethu gweithredu mewn perthynas â sawl nodwedd cydraddoleb trwy ein Grŵp Gweithredu ynghylch Cydraddoldeb a'n Cynllun Gweithredu blynyddol ar Gydraddoldeb. Mae'r camau hyn yn cynnwys dod yn gyflogwr Hyderus ynghylch Anabledd, adolygu ein holl ddeunyddiau recriwtio, gan gynnwys sut rydyn ni'n disgrifio ein rolau, gan gynnwys gwybodaeth sosio-economaidd yn y data cydraddoldeb rydyn ni'n ei gasglu a chyflwyno cynllun gwarantu cyfweliad. Rydyn ni hefyd yn bwriadu parhau â'n polisi o hysbysebu ein holl swyddi parhaol yn allanol, a defnyddio fformatau hygyrch fel clipiau fideo i hysbysebu swyddi gwag ac annog ceisiadau fideo. Byddwn ni'n parhau i sicrhau bod gennym ni baneli cyfweld amrywiol, gyda chynrychiolaeth deg o ran rhywedd, a phlant a phobl ifanc o'n panel ymgynghorol yn cael eu cynnwys. Yn ddiweddar, rydyn ni wedi ehangu ymwneud pobl o rolau iau yn ein Tîm yn ein prosesau dethol. Mae hynny nid yn unig yn gwella tegwch ein prosesau, ond hefyd yn buddsoddi yn natblygiad aelodau iau o'r Tîm, gyda'r posibilrwydd o annog mwy o weithwyr benywaidd i geisio sicrhau dyrchafiad a symud eu gyrfaoedd ymlaen. Byddwn ni hefyd yn defnyddio profion recriwtio fel rhan o'n prosesau recriwtio, i leiafu tueddiadau a sicrhau ein bod yn penodi ar sail rhinwedd.

Eleni rydyn ni wedi gweithredu fel Cyflogwr croesawu mewn cynllun lleoliadau cynhwysol Gweithredol a reolwyr gan y Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (EYST) yn Abertawe. Trwy'r cynllun hwn, rydyn ni wedi croesawu dau oedolyn ifanc o gefndir ethnig lleiafrifol i'n Tîm, gan roi profiad gwaith gwerthfawr iddyn nhw, ac yn sgîl hynny, rydyn ni'n gwella ein cymhwysedd diwylliannol fel Tîm.

Rydyn ni hefyd wedi cytuno, mewn blynyddoedd i ddod, yn ogystal â rhoi sylw gofalus i nodweddion gwarchodedig, y byddwn ni hefyd yn canolbwyntio ar ddeall a dathlu ein hunaniaethau cudd a phrofiadau bywyd cyfoethog ein Tîm yn sgîl hynny.

# Amrywiaeth cyffredinol y gweithlu

**Ar 31 Mawrth 2022, roedd gennym ni 24 o bobl ar y gyflogres (gan gynnwys y Comisiynydd Plant) ac roedden ni'n cynnal un person ar leoliad 16 wythnos wedi'i ariannu.**

**Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, gadawodd dau berson ar gontractau parhaol amser llawn ac un person ar gontract rhan amser dros dro y Tîm, a gwnaed dau benodiad newydd, oedd fel ei gilydd wedi'u cyflogi ar gontractau rhan amser parhaol.**

**Roedd yr aelodau staff a ymddiswyddodd o'r Tîm wedi cael eu cyflogi gan CPC rhwng 2 flynedd a phedair blynedd yn eu tro.**

## Ar 31 Mawrth 2022:

- **Roedd 4%** o'n gweithlu (1 person) wedi'u cyflogi ar sail dros dro, cyfnod penodol neu secondiad uwchrifol. Mae hyn yn llai na'r llynedd, pan oedd 11.6% o'r gweithlu wedi'u cyflogi ar sail dros dro, cyfnod penodol neu uwchrifol.
- **Roedd 56%** o'n cydweithwyr (14 allan o 25 o bobl) yn gweithio oriau llawn amser, a 40% yn gweithio oriau rhan amser, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oedd 69% yn gweithio'n amser llawn. Dim ond 10% o'n gweithwyr rhan amser oedd yn disgrifio'u hunain fel gwrywod (1 allan o 10 o bobl). Mae hyn yn debyg iawn i'r llynedd.
- **Mae 80%** o'n gweithlu yn disgrifio'u hunain fel benywod; mae hynny yr un fath â'r llynedd.
- Ni ddatgelodd neb yn y Tîm gyfeiriadedd lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, a dywedodd 83% o'r ymatebwyr gwirfoddol eu bod yn wahanrywiol.
- Ni ddatgelodd neb yn y Tîm hunaniaeth drawsrywiol, rhywedd deuol na rhywedd hyblyg yn ystod y cyfnod yma.
- **Mae 40%** (10 o bobl) o'n cydweithwyr yn y cyfnod hwn o dan 35 oed; mae hyn rywfaint yn fwy na'r llynedd, pan oedd 36% o'n gweithlu o dan 35 oed. Mae 40% (4 allan o 10 o bobl) o'r grŵp oed yma yn gweithio'n rhan amser.
- **Mae 36%** (9 o bobl) o'n cydweithwyr yn y cyfnod hwn rhwng 36 a 54 oed. Mae 44% (4 o bob naw person) yn y grŵp oed yma yn gweithio'n rhan amser.
- **Mae 16%** o'n cydweithwyr dros 55 oed, y llynedd 19% oedd y ffigur hwn; mae 50% o'r grŵp oed yma yn gweithio'n rhan amser.
- Ar hyn o bryd dydyn ni ddim yn cyflogi neb dros 65 oed.
- **Mae 12%** o'n gweithlu yn byw gyda chyflwr iechyd/anabledd tymor hir; o gymharu â 22.5% o weithlu Cymru gyfan.
- Ar 31 Mawrth 2022 cyhoeddodd 96% o'n gweithlu eu bod ag ethnigrwydd gwyn; gyda 56% yn disgrifio'u hunain fel Cymry Gwyn.
- **Mae 64%** o'n cyflogeion (16 allan o 25 o bobl) yn disgrifio eu sgiliiau yn y Gymraeg fel rhugl, lefel uwch neu lefel ganolradd. Cyhoeddodd 36% o'n gweithlu fod ganddyn nhw sgiliau lefel mynediad yn yr iaith.
- **Cyhoeddodd 36%** o'n gweithlu eu hymrwymiad i grefydd benodol (Cristnogaeth).
- Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydyn ni wedi cefnogi un person trwy feichiogrwydd ac absenoldeb mamolaeth. a cefnogi un aelod o staff i gael mynediad i Absenoldeb Rhiant a Rennir.
- Bu cynrychiolwyr o bob rhywedd, y rhan fwyaf o raddau a mathau o gontractau yn cael mynediad i gyfleoedd dysgu a datblygu eleni, er gwaethaf cyfyngiadau gweithio o bell yn ystod pandemig. Yn ogystal â cheisiadau dysgu unigol, mae ein rhaglen ddatblygu i'r tîm cyfan yn parhau, ac yn galluogi gweithwyr rhan amser, gweithwyr dros dro a gweithwyr â nodweddion gwarchodedig i gael mynediad cyfartal i gyfleoedd dysgu a datblygu.

# Differynnau Rhywedd a Chyflog

**Mae'r System Gwerthuso a Graddio Swyddi sy'n sylfaen ar gyfer ein system gyflogau dyrannu band i swyddi unigol, a hynny ar sail saith ffactor gwaith gwahanol: ymreolaeth, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, effaith, rheoli adnoddau, cysylltiadau a chyfathrebu, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r system hon yn sicrhau bod gwahaniaethau yng nghyflogau swyddi yn cyfeirio at ofynion swyddi penodol ac yn cyfrannu at ein hymrwymiad i ddileu tueddiadau yn y broses recriwtio.**

O'r 20 o staff benyw oedd yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2022, mae 4 cyflogai benyw, neu 20% o'r gweithlu benyw, yn cael eu cyflogi yn y tri band cyflog uchaf; o gyharu â 2 gyflogai gwryw, neu'n hytrach 40% o'r gweithlu gwryw.



Er bod y nifer is o gyflogeion gwryw yn llenwi nifer anghymesur o rolau uwch yn y gweithlu cyfan, mae cydbwysedd rhywedd y Tîm Rheoli yn tueddu at aelodau benyw o staff, gyda 4 cyfranogwr benyw, a 2 gyfranogwr gwryw.

Mae mwyafrif o'n gweithlu yn dal yn staff benywaidd, a benyw sy'n llenwi'r swydd uchaf yn y sefydliad, fodd bynnag, cyflog cyfartalog gweithiwr benyw ar 31 Mawrth 2022 oedd rhyw £35,000, a chyflog cyfartalog gweithiwr gwryw oedd rhyw £41,000.

Dim ond aelodau staff benyw sydd ar y band cyflog isaf yn CPC, ac mae hynny ynghyd â'r ffaith bod 90% o'r gweithwyr rhan amser yn fenywod, yn cyfrannu at y differyn cyflogau cyfartalog.

O'r 20 o aelodau staff benyw oedd yn cael eu cyflogi ar 31 Mawrth 2022, mae hanner y gweithwyr yn llenwi rolau rhan amser, o gymharu ag un cyflogai gwryw yn unig (20% o'r gweithlu gwryw).

# Effaith ein strategaeth tair blynedd

# Bob tair blynedd rydyn ni'n cyhoeddi cynllun tair blynedd, yn amlinellu beth byddwn ni'n gweithio arno er mwyn gwella bywydau plant.



Datblygwyd ein cynllun cyfredol ar sail tystiolaeth oedd eisoes yn bodoli ynghylch mynediad plant at eu hawliau a'n hymgynghoriad ninnau â mwy na 10,000 o blant ac oedolion Cymru.

Rydyn ni eisiau byw mewn Cymru lle mae:

- gwasanaethau'n cydweithio i roi'r gefnogaeth iechyd meddwl angenrheidiol i blant a phobl ifanc, ar yr adeg ac yn y man lle mae angen hynny arnyn nhw
- sefydliadau cyhoeddus o bob sector yn rhoi blaenoriaeth i hawliau plant wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc
- pob plentyn yn dysgu am eu hawliau yn eu hysgolion, ac mae plant yn profi eu hawliau ym mhob lleoliad addysg, gan gynnwys y cartref
- y llywodraeth yn cymryd camau clir i leihau tlodi plant a'i effaith
- gan blant yr un amddiffyniad rhag cosb gorfforol ag oedolion

# Hon oedd ein blwyddyn olaf o gyflawni'r gobeithion hyn. Buon ni'n gwerthuso ein heffaith a dyma ein canfyddiadau:

**20,000**

Gweithio gyda dros 20,000 o blant a phobl ifanc

**51,000**

Clywed gan dros 51,000 o blant a phobl ifanc drwy arolygon

**1,000**

Hyfforddi dros 1,000 o bobl broffesiynol am hawliau plant

**88**

Ymateb i 88 o ymgynghoriadau Llywodraethau Cymru a'r DU a'r Senedd

**1,500**

Sicrhau dros 1,500 o ddarnau yn y cyfryngau

**1,894**

Ymdrin â 1,894 o achosion drwy ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor

**148**

Cymryd rhan, ar gyfartaledd, mewn 148 o weithgorau bob blwyddyn

**553**

Ar gyfartaledd, denu 553 o ysgolion cynradd ac uwchradd i gofrestru am ein cynlluniau llysgenhadon


# Ein ‘Cerdyn Adroddiad’:

## ein hadroddiad ar faterion polisi allweddol, ein gwaith yn y meysydd hynny, a’n hasesiad o gynnydd Llywodraeth Cymru

# Safon Byw sy’n Ddigonol

SAFON BYW SY'N DDIGONOL

# Taclo Tlodi Plant



# Y materion allweddol

**Mae taclo tlodi plant wedi bod yn fater allweddol i'r swyddfa ar hyd cyfnod 7-mlynedd Sally Holland fel Comisiynydd.**

**Roedd ystadegau Llywodraeth Cymru ei hun, a gyhoeddwyd tua diwedd y flwyddyn ariannol hon, yn dangos bod tebygolrwydd o 13%, rhwng 2016 a 2019, y byddai plentyn yng Nghymru mewn tlodi parhaus (ar ôl talu costau tai). Ar ben hynny, roedd 31% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2017 a 2020. Roedd y ffigur hwn wedi codi o'r 28% a adroddwyd y flwyddyn flaenorol, ac mae'n cynrychioli'r ganran uchaf o blith holl wledydd y Deyrnas Unedig.**

**Mae ymchwil academaidd yn ystod y cyfnod hefyd wedi cadarnhau bod cysylltiad achosol rhwng incwm isel a chyfraddau cynyddol o blant yn cael eu cymryd i ofal yr awdurdod lleol.**

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Rydyn ni wedi ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddwywaith eleni, ynghyd â'n cymheiriaid o'r Alban a Gogledd Iwerddon, yn codi pryderon ynghylch effaith niweidiol y terfyn dau blentyn ar gredyd treth plant a chredyd cynhwysol. Mae'r polisi hwn yn achos clir o dorri hawliau dynol plant, gan gynnwys yr hawl i safon byw sy'n ddigonol. Ni ddylid cosbi plant am weithredoedd y tu hwnt i'w rheolaeth. Roedd y llythyr cyntaf, ym mis Mai 2021, yn cyd-ddigwydd â thystiolaeth roeson ni i ymchwiliad gan Dŵ'r Arglwyddi i fudd-daliadau lles. Fe wnaethon ni hefyd amlygu pryderon ynghylch tlodi mewn gwaith yn arbennig, gan annog parhau â'r ychwanegiad o £20 i gredyd cynhwysol oedd yn ei le ar y pryd, a gwneud cais am gwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol i drafod ein pryderon.**

Roedd yr ymateb a gafwyd gan y Gweinidog Cyflawni Lles ym mis Gorffennaf 2021 yn amlinellu nodau polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn fanwl, ond heb gyfeirio at hawliau plant, heb roi sylw i ddim o'r pryderon na'r data roedden ni wedi'u cynnwys yn y llythyr, a heb gydnabod y cais am gyfarfod. Fe ysgrifennon ni at yr Ysgrifennydd Gwladol eto ym mis Medi 2021 i ailadrodd ein pryderon a gofyn am roi sylw priodol i'r rhain trwy gyfarfod â hi. Ni chawson ymateb i'r llythyr hwn erioed, ac ni chynhaliwyd cyfarfod o'r fath. Fe wnaethon ni godi hyn ymhellach gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gynnar yn 2022, ond ni chafwyd ymateb na chynnig cyfarfod. Yn y cyfamser, mae'r ychwanegiad i gredyd cynhwysol wedi cael ei ddileu ac mae'r argyfwng costau byw, ynghyd â'r cynnydd ym mhrisiau ynni a bwyd, yn cael effaith bellach sylweddol ar deuluoedd â phlant.

Rydyn ni wedi parhau i arsylwi gweithgor mwyafu incwm Llywodraeth Cymru, ond gan barhau i godi pryderon gyda Gweinidogion Cymru a swyddogion bod hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar oedolion a'r cenedlaethau hŷn.

Ar ddiwedd ei chyfnod o 7 mlynedd, rhoddodd Sally Holland ddarlith yn y Senedd yn myfyrio ar ddatganoli a'i effaith ar blant a phobl ifanc hyd yma. Roedd tlodi plant yn faes pwysig a amlygwyd oherwydd bod y ffactorau ar gyfer mynd i'r afael â hynny'n croesdorri Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru.

# Cynnydd

Ers etholiad 2021, mae'r cytundeb cydweithio a grewyd gan Lafur a Phlaid Cymru wedi cael ei groesawu'n fawr, yn arbennig gan ei fod yn cynnwys rhai polisïau pwysig ar gyfer plant a theuluoedd, fel estyn prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd, ac ehangu'r Cynnig Gofal Plant.

Mae gwaith mwyafu incwm Llywodraeth Cymru yn parhau, ond heb ffocws penodol na llif gwaith sy'n ymwneud â thaclo tlodi plant.

Nid oes strategaeth na chynllun gweithredu ar gyfer taclo tlodi plant ar hyn o bryd, er gwaethaf ein galwadau droeon am ffocws penodol ar y maes pwysig hwn. Rydyn ni'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno diweddariad ar ei gwaith o dan y strategaeth flaenorol yn ystod 2022, ond ni fydd hynny o reidrwydd yn nodi pa fesurau gaiff eu cyflwyno neu eu datblygu i ymateb i'r cynnydd yng nghyfraddau tlodi plant a'r argyfwng costau byw.

# Argymhelliad

Rhaid i daclo achosion gwaelodol tlodi plant barhau'n ffocws clir a pharhaus i Lywodraeth Cymru, gan fod hynny'n sylfaen ar gyfer cynifer o'u cyfleoedd mewn bywyd a'u canlyniadau a'u rhagolygon i'r dyfodol. Mae angen i'r gwaith eleni'n arbennig ymdrin â theuluoedd ar gyrion gofal, lle mae plant mewn perygl o gael niwed neu gael eu hesgeuluso, a mynd i'r system ofal. Dylai hyn ffurfio rhan o Gynllun Gweithredu Tlodi Plant.

Rhaid i Lywodraeth Cymru osod targedau uchelgeisiol ar gyfer taclo tlodi plant yng Nghymru, gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael iddynt, ochr yn ochr â chynllun gweithredu cyhoeddus cynhwysfawr, ac amserlenni a fydd yn manylu ar sut caiff y bunt gyhoeddus yng Nghymru ei gwario ar liniaru effaith tlodi plant yng Nghymru. Rhaid cyhoeddi'r cynllun hwn ochr yn ochr â'r strategaeth tlodi plant wedi'i diweddaru, sydd i'w chyhoeddi erbyn diwedd 2022.

SAFON BYW SY'N DDIGONOL

# Trafnidiaeth



# Y materion allweddol

**Mae pobl ifanc yn arbennig o ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus oherwydd eu bod yn methu dysgu gyrru na bod yn berchen ar gar eto. Efallai na fydd car gan eu rhieni chwaith, neu efallai na fyddan nhw ar gael i'w gyrru i wahanol leoedd. Mae'n annhebygol iawn y bydd gan bobl ifanc gynilion i ddibynnu arnynt i'w helpu gyda chostau ychwanegol fel trafnidiaeth.**

Mae hyn yn effeithio ar fynediad at addysg (gan gynnwys mynediad at addysg ôl-16 Gymraeg neu seiliedig ar ffydd), yn ogystal â mynediad at gyfleoedd chwarae a hamdden, cymdeithasu gyda ffrindiau, a gallu pobl ifanc hŷn i dderbyn gwaith. Mae hefyd yn fater penodol a godwyd gyda ni ar gyfer pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig.

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Yn ein dogfen yn 2021 'Hapus, Iach a Diogel' – ein maniffesto ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021 – fe wnaethon ni alw am drafnidiaeth gyhoeddus ddi-dâl i bawb o dan 18 oed.**

Fe wnaethon ni gwrdd â'r holl brif bleidiau gwleidyddol i drafod hyn pan oedd y maniffestos yn cael eu llunio, a buon ni'n rhannu'r maniffesto gyda'r holl bleidiau ac aelodau'r Senedd cyn yr etholiadau.

Buon ni hefyd yn trafod y pwynt hwn gyda'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ym mis Ionawr 2022. Rydyn ni'n ymwybodol o gynigion i newid sut mae teithio ar fysus yn gweithredu yng Nghymru, ond mae hyn yn canolbwyntio'n fwy ar y modelau busnes; ni soniwyd o gwbl am deithio di-dâl na hyd yn oed am bris gostyngol i bobl ifanc o dan 18 yn y papurau ymgynghori a gyhoeddwyd hyd yma, gan gynnwys y strategaeth drafnidiaeth newydd yr ydyn ni wedi ymateb iddi a'i thrafod gyda swyddogion a Gweinidogion ar sawl achlysur. Bu ymgysylltiad cyfyngedig â phobl ifanc ar y cynigion ymgynghori hyd yma, ac efallai bod hynny'n egluro pam nad yw'r mater hwn wedi dod i'r amlwg mor gryf; rydyn ni wedi annog y Llywodraeth droeon i wneud mwy i gasglu a gweithredu ar sail barn plant yn y maes hwn.

Nid yw trafnidiaeth am ddim i bobl ifanc o dan 18 yn rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, er eu bod yn ymrwymo i "sail ddeddfwriaethol fodern ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru."

Ni all pwysau costau byw ar blant a phobl ifanc ond gwneud y mater hwn yn waeth, ac mae angen edrych o'r newydd ar yr alwad bolisi hon er mwyn ymateb.

# Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiad i beilot o gynnig trafnidiaeth gyhoeddus ar y bws a'r trên am ddim i bobl ifanc o dan 18 oed yn ei chynlluniau deddfwriaethol sydd i ddod ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad cost-budd ac amserlenni manwl ar gyfer rhychwantu a rhoi ar waith. Bydden ni'n gweld hyn fel elfen hanfodol o daclo tlodi plant yng Nghymru, a bydden ni'n disgwyl gweld hyn yn cael ei gynnwys mewn cynllun tlodi plant cynhwysfawr.

SAFON BYW SY'N DDIGONOL

# Eiriolaeth Iechyd



# Y materion allweddol

**Er bod gan rai plant sy'n bodloni meini prawf penodol i gyrchu cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol hawl i dderbyn cynnig gweithredol o eiriolaeth, yn achos plant eraill sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd, yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, nid oes darpariaeth eiriolaeth ar gael iddyn nhw.**

Dyma sut dylai eiriolaeth gysylltiedig â iechyd edrych yng Nghymru, yn ein barn ni:

- Hawl gyson, weladwy a hygyrch
- Cynnig gweithredol, yn hytrach na disgwyl cais am eiriolaeth
- Esboniad dealladwy i bobl ifanc ar sut mae eiriolaeth yn gweithio
- Staff yn ymwybodol bod hyn ar gael a sut gallai fod yn ddefnyddiol
- Hygyrch a hollgynhwysol – e.e. gwasanaethau eiriolaeth dieiriau neu anghyfathrebol
- Cysondeb trwy ganllawiau statudol a chôd ymddygiad.

Yn 2019, ysgrifennodd Dirprwy Brif Weithredwr y GIG ar y pryd at yr holl Fyrddau Iechyd i ofyn am fanylion y trefniadau eiriolaeth ar gyfer plant mewn gwasanaethau iechyd. Er bod yr holl fyrddau iechyd yn gallu dweud eu bod yn darparu rhywbeth, yn llawer rhy aml nid oedd hynny'n golygu mwy na chyfeirio ymlaen at linell gymorth, yn hytrach na chynnig eiriolaeth go iawn, sy'n bodloni'r egwyddorion uchod.

---

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Mae'r Comisiynydd wedi galw droeon am estyn opsiwn gwasanaethau eiriolaeth, fel ei fod ar gael i bob plentyn sydd angen hynny wrth gyrchu gwasanaethau iechyd, a bod y cynnig eiriolaeth hwn yn cael ei hysbysebu a'i hyrwyddo'n dda. Gwaetha'r modd, bu oedi gyda'r gwaith a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020 i weithio gyda Byrddau Iechyd a darparwyr eiriolaeth, yn sgîl y cyfnod clo cyntaf, ac nid yw wedi ailgydio wedi hynny.**

Rydyn ni wedi galw am sicrhau bod y Cyrff newydd Llais y Dinesydd a sefydlir o dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltiad) yn cynnwys eiriolaeth i blant sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd fel un o'u swyddogaethau. Byddwn ni'n mynd ar ôl hyn gyda'r Corff newydd pan fydd yn cychwyn ei waith.

# Cynnydd

Roedden ni'n falch o weld cyfeirio at eiriolaeth gysylltiedig â iechyd yn y Canllawiau Pontio a Throsglwyddo diweddar i Fyrddau Iechyd, sy'n nodi'n glir:

**Dylai Eiriolaeth Gofal Iechyd Annibynnol a chefnogaeth fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc.**

Mae hyn i'w groesawu, ond dydyn ni ddim wedi'n darbwyllo bod eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys eiriolaeth wyneb yn wyneb, yn cael ei chynnig ledled Cymru. Nid yw Byrddau Iechyd wedi derbyn adnoddau ychwanegol i gyflwyno eiriolaeth gysylltiedig â iechyd.

Gwaetha'r modd, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud fawr ddim cynnydd o ran cefnogi byrddau iechyd i wella'r cynnig eiriolaeth, ac maen nhw wedi dangos yn eglur nad oes ganddyn nhw gynlluniau i wneud unrhyw waith yn y maes hwn eu hunain.

# Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno manylion ynghylch sut mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn cynnig eiriolaeth annibynnol sy'n hygyrch ac yn cynnwys eiriolaeth wyneb yn wyneb yn ôl y gofyn. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynnig eiriolaeth hwn yn cael ei hyrwyddo'n glir mewn lleoliadau iechyd a hefyd, yn bwysig, ar wefannau byrddau iechyd.

Dylid cyflwyno'r cynnig eiriolaeth trwy ganllawiau statudol annibynnol. Yn gam cyntaf at hyn, dylid cyhoeddi cyfres o fanylebau gwasanaeth ar gyfer eiriolaeth i blant ym maes gofal iechyd. Dylai estyn cynnig eiriolaeth gychwyn â hawl i bawb sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl uwchradd.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN

# Llety Diogel i Blant ag Anghenion Cymhleth

# Y materion allweddol

**Dylai plant ag anghenion cymhleth y mae angen iddyn nhw dderbyn gofal mewn amgylchedd preswyl diogel dderbyn cefnogaeth therapiwtig i'w hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol pan fydd angen hynny arnyn nhw. Yn rhy aml, dyw'r ddarpariaeth gywir ar gyfer plant ag anghenion cymhleth ddim ar gael iddyn nhw. Rydyn ni'n pryderu mai opsiynau cyfyngedig sydd ar gael sydd ar gael o ran llety diogel yng Nghymru, ond hefyd ar draws y Deyrnas Unedig gyfan.**

Yn ein hadroddiad Gwneud Cymru'n Genedl Dim Drws Anghywir: i ba raddau rydyn ni'n llwyddo? ein hargymhelliad allweddol oedd y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) droi eu cynlluniau ar gyfer dull 'Dim Drws Anghywir' yn gamau gweithredu gweladwy. Mae hynny'n cynnwys creu llety newydd diogel ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Er bod y cynlluniau strategol a welwyd i'w croesawu, rydyn ni'n dal heb weld llawer o'r cynlluniau Dim Drws Anghywir yn cael eu cyflwyno ar lawr gwlad, er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant.

Rydyn ni hefyd yn pryderu bod yr hyn a gynigir yng Nghymru ar hyn o bryd o ran unedau arbenigol cleifion mewnol iechyd meddwl ac unedau iechyd meddwl diogel yn rhy aml heb fod yn amgylchedd therapiwtig i blant. Amlygwyd hyn gan yr Uned Genedlaethol ar gyfer Comisiynu Cydweithredol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Yn dilyn pwysau gan ein swyddfa ninnau ac eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf am weithredu yn y maes hwn, roedden ni'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid yn benodol er mwyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu darpariaeth breswyl newydd i blant ag anghenion cymhleth, mewn ymateb i'w hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol.**

Fe wnaeth y Comisiynydd a'i thîm gwrdd â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru yn 2021/22 i graffu ar eu cynnydd o ran argymhellion yr adroddiad Dim Drws Anghywir gwreiddiol, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020. Fe wnaethon ni ofyn hefyd am ddiweddariadau ysgrifenedig llawn gan bob Bwrdd ar eu cynnydd cyn adrodd yn ôl ar hynny yn ein hadroddiad Gwneud Cymru'n Genedl Dim Drws Anghywir: i ba raddau rydyn ni'n llwyddo?.

Ar ben hynny fe roeson ni ddadansoddiad manwl i Lywodraeth Cymru o sut roedden ni'n teimlo bod pob Bwrdd yn gwneud cynnydd yn erbyn ein hargymhellion. Wedyn fe lunion ni gyfres bellach o argymhellion i'r BPRhau ac i Lywodraeth Cymru ynghylch pa waith pellach sy'n angenrheidiol.

Buon ni hefyd yn gweithio gyda T4CYP, i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu gofyn cwestiynau'n uniongyrchol i Gadeiryddion y BPRhau, ac wedi hynny i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

# Cynnydd

Mae gan chwech o'r saith rhanbarth yng Nghymru gynlluniau ar gyfer darpariaeth newydd gan ddefnyddio'r cyllid hwn. Mae'r gwelyau newydd ledled Cymru i'w croesawu'n fawr, a byddan nhw'n darparu opsiynau newydd therapiwtig yn nes adre i blant ag anghenion cymhleth. Dylai rhai o'r gwelyau newydd hyn fod ar gael yn 2022. Mae rhagor o fanylion ynghylch y ddarpariaeth hon ar gael yn ein hadroddiad Gwneud Cymru'n Genedl Dim Drws Anghywir: i ba raddau rydyn ni'n llwyddo?

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r llety a gynlluniwyd yn bennaf yn cynnwys unedau asesu sy'n darparu cefnogaeth tymor byr, tra bod lleoliad pellach yn cael ei drefnu. Er y bydd y ddarpariaeth newydd hon yn sicr yn darparu cefnogaeth newydd hollbwysig i blant ag anghenion cymhleth, mae'n debygol y bydd angen darpariaeth fwy hirdymor ar gyfer y bobl ifanc hynny nad oes modd eu cefnogi'n llwyddiannus i ddychwelyd adref neu i ofal maeth.

Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru a'r BPRhau ymateb i'r argymhellion a wnaed yn Gwneud Cymru'n Genedl Dim Drws Anghywir: i ba raddau rydyn ni'n llwyddo? yn haf 2022.


# Argymhellion

Mae angen i gynlluniau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer llety newydd diogel wneud cynnydd yn gyflym er mwyn dod yn weithredol yn 2022/23, gyda gorolwg a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod pob enghraifft yn amgylchedd therapiwtig sy'n cael eu hariannu a'u cyflwyno ar y cyd gan iechyd a gofal cymdeithasol fel partneriaid cyfartal.

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi'n ddi-oed ddatganiad ysgrifenedig yn manylu ar sut mae gwneud gwelliannau a gynhelir i'r Ddarpariaeth Iechyd Meddwl Haen 4 a'r ddarpariaeth Lles Diogel yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc sydd angen gofal yn y lleoliadau hyn yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, therapiwtig.

AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN

# Cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal



# Materion Allweddol

**Ers 2016/17, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi bod yn galw am newid yn y gyfraith i sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael hawl i gefnogaeth Ymgynghorydd Personol (YP) a ddyrannwyd ar eu cyfer nes eu bod yn 25 oed. Er bod cyllid wedi cael ei roi i Awdurdodau Lleol ar y cychwyn i estyn cefnogaeth YPwyr, nid yw'r newid statudol i wreiddio'r ddarpariaeth hon wedi dod i rym. Ochr yn ochr â'r alwad hon cafwyd galwadau eraill i wella mynediad at gefnogaeth ariannol i ymadawyr gofal, i sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl yn gallu cael mynediad at gefnogaeth gyfatebol i'r cynllun 'Pan fydda i'n Barod', ac i wella'r opsiynau llety i ymadawyr gofal. Derbyniwyd pob un o'r rhain gan Lywodraeth Cymru.**

Comisiynwyd y Gwasanaeth Cynghori ar Arian a Phensiynau gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad at gymorth ariannol, ac mae hynny'n gam cadarnhaol. Ond mae angen gwneud mwy i gynyddu hyder y gall pobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl gael mynediad at gymorth cyfatebol i'r rhai sy'n gadael gofal maeth.

Rydyn ni'n pryderu bod rhai pobl ifanc, heb gefnogaeth Ymgynghorydd Personol, a heb lety lled-annibynnol o safon dda, yn gorfod cael hyd i ffordd i bontio i oedolaeth â chymorth ac arweiniad cyfyngedig. Mae Ymgynghorwyr Personol yn chwarae rôl bwysig yn cefnogi pobl ifanc â chyngor ynghylch opsiynau addysg a gwaith, tai, materion ariannol a byw'n annibynnol, a gallant eu cyfeirio ymlaen at wasanaethau eraill pwysig o safbwynt iechyd a llesiant.

## Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Rydyn ni wedi parhau i wthio am yr estyniad hwn mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidogion a Swyddogion Llywodraeth Cymru, a rhoi cyflwyniad ar ein galwadau ar gyfer Ymadawyr Gofal ym Mwrdd Gorolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod gwella'r gefnogaeth i ymadawyr gofal yn dal yn ffocws allweddol i ddiwygiadau Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru. Roedden ni wedi cael ein sicrhau y byddai'r newid deddfwriaethol hwn yn cael ei amserlennu ar gyfer 2022/23, ond cawsom wybod na fydd hyn yn digwydd bellach tan 2024, ar y cynharaf.**

Er bod cyllid i'w groesawu, nid yw'n sicrhau'r hawliau hyn i bob ymadawr gofal, ac rydyn ni'n deall, hyd yma, nad yw'r cyllid o reidrwydd wedi golygu bod pob Awdurdod Lleol yn sicrhau bod pob ymadawr gofal cymwys yn derbyn cefnogaeth gyson Ymgynghorydd Personol a ddyrannwyd.

# Cynnydd

**Er ein bod wedi cael ein sicrhau y bydd y newid deddfwriaethol hwn yn dod i rym, ni chafwyd amserlen bendant eto. Heb gefnogaeth ychwanegol i Awdurdodau Lleol i roi'r newid hwn ar waith, gallai'r newid deddfwriaethol arwain at fwy o straen ar gapasiti'r gwasanaeth. Bydd cyflwyno'r Peilot Incwm Sylfaenol yn dibynnu'n drwm ar Ymgynghorwyr Personol i roi cyngor ac arweiniad ochr yn ochr â'u rolau presennol. Bydd gallu pobl ifanc i dderbyn cyngor ac arweiniad gan eu Hymgynghorwyr Personol yn allweddol i lwyddiant y Peilot hwn.**

### Rhieni sydd â phrofiad o ofal

Ym mis Medi 2021, fe wnaethon ni gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Deisebau'r Senedd ar leoliadau mamau a babanod yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn amlygu gorgynrychiolaeth o rieni â phrofiad o ofal mewn achosion gofal ac amddiffyn plant, ac mae'n rhaid ymdrin â hynny trwy ddarparu cefnogaeth ychwanegol. Ym mis Mawrth 2022, bu'r Comisiynydd a'i thîm yn cwrdd â grŵp o rieni oedd â phrofiad o ofal, yr oedd plant llawer ohonynt wedi cael eu rhoi mewn gofal neu i'w mabwysiadu. Roedd y rhieni wedi bod yn rhan o ddatblygu Siarter ar gyfer Rhieni â Phrofiad o Ofal. Fe wnaethon ni ysgrifennu at holl Awdurdodau Lleol Cymru i'w hannog i ymrwymo i'r Siarter, oedd yn enghraifft gadarnhaol o egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, sef cyfranogiad, grymuso ac atebolrwydd. Rydyn ni'n falch o ddysgu bod rhai Awdurdodau Lleol wrthi'n mabwysiadu'r Siarter.


Fe wnaeth y Mamau ifanc y buon ni'n cwrdd â nhw rannu eu profiadau gyda ni, am y frwydr i oresgyn heriau er mwyn cadw eu plant yn eu gofal. Teimlai llawer ohonynt o dan stigma, fod pobl yn eu barnu ymlaen llaw, a'u bod yn gorfod bodloni safonau oedd yn teimlo'n amhosib. Ers cwrdd â'r Mamau, rydyn ni wedi ysgrifennu at Benaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â chodi'r angen am fwy o gefnogaeth i rieni â phrofiad o ofal mewn gwrandawiad gan Bwyllgor y Senedd ar anghydraddoldebau Iechyd Meddwl. Rydyn ni'n disgwyl gweld Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu mwy â'r grŵp yma o rieni, fel rhan o'u gwaith i Drawsffurfio Gofal Cymdeithasol Plant, gan fod eu profiadau yn allweddol i ddiwygio a gwella cefnogaeth gofal cymdeithasol.

# Argymhelliad

Mae'n rhaid datblygu deddfwriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddi – i ddiogelu a chynnal hawliau plant ym maes gofal cymdeithasol – a'i chyflwyno cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau ei bod yn dod i rym yn gyfforddus o fewn tymor cyfredol y Senedd. Hefyd mae angen darparu cyllid ar gyfer unrhyw hawliau deddfwriaethol newydd.

AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN

# Pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal



# Y materion allweddol

**Un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu yw 'archwilio diwygio pellgyrhaeddol ar y gwasanaethau cyfredol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal'. Rhan allweddol o'r gwaith hwn yw cryfhau rolau cyrff cyhoeddus ac ehangu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol i wasanaethau eraill, fel iechyd, addysg a thai. Gan fod gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn wynebu heriau aruthrol, ni fu cyfle i fyfyrio ar ein cefnogaeth i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'i chryfhau erioed yn bwysicach.**

Mae'r cynnig cyfredol i gryfhau cyfrifoldebau gwasanaethau iechyd, tai ac addysg mewn perthynas â phobl ifanc yn dibynnu ar sefydliadau'n ymrwymo i siarter wirfoddol tra bod canllawiau statudol yn cael eu datblygu. Er bod y Siarter ddrafft, a ddatblygwyd ochr yn ochr â phobl ifanc, yn ceisio hybu hawliau pobl ifanc a gwella mynediad at wasanaethau allweddol, os nad yw'n ofynnol i'r holl wasanaethau perthnasol fabwysiadu hyn yn llawn, gallai pobl ifanc fod mewn perygl o barhau i dderbyn mynediad anghyson at gefnogaeth.

Rhaid i'r gwaith hwn fod yn gyfle i gryfhau hawl pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gyrraedd eu potensial, a dyna pam rydyn ni am weld defnydd cryfach o newid deddfwriaeth a rheoliadau, er mwyn sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn cynnal eu dyletswyddau i blant mewn gofal. Mae gan bob corff cyhoeddus rôl o ran sicrhau bod pobl ifanc yn ffynnu mewn gofal.

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Rydyn ni'n aelodau o Weithgor Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru. Rydyn ni wedi rhannu barn ar y Siarter Ddrafft, ac rydyn ni'n awyddus i weld y Siarter yn hybu ac yn datblygu'r ystod o hawliau sydd gan blant; yn arbennig mynediad at iechyd ac addysg, a'r hawl i adfer wedi trawma a hawliau o ran bywyd teuluol.

# Cynnydd

Mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wedi rhannu eu barn ar Siarter arfaethedig, ac wedi ailadrodd y negeseuon pwysig yr hoffen nhw eu gweld yn y Siarter. Fodd bynnag, mae'r cynnydd o ran y gwaith pwysig hwn wedi bod yn araf yn 2021/22 ac nid ydym eto wedi gweld y cynigion deddfwriaethol a rheoliadol llawn a fydd yn gwreiddio'r uchelgais hon.

# Argymhelliad

Bydd rhoi Siarter Rhianta Corfforaethol newydd ar waith yn llwyddiannus yn galw am newidiadau deddfwriaethol neu reoliadol er mwyn mynnu bod sefydliadau'n cydymffurfio â'r dyletswyddau. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno amserlen ar gyfer symud y newid deddfwriaethol hwn ymlaen erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23.

AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN

# Llety o safon uchel ac opsiynau cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn gofal ac yn gadael gofal

# Y materion sy'n codi

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw'r corff rheoliadol sy'n gyfrifol am sicrhau bod lleoliadau gofal preswyl a maeth i blant yn y sector cyhoeddus ac annibynnol wedi'u cofrestru ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Mae hynny'n golygu bod rhaid i bob plentyn sydd angen gofal a chymorth gael eu lleoli mewn llety sydd wedi'i reoleiddio a'i gofrestru gydag AGC, ac os na ellir dod o hyd i leoliad mewn amgylchiadau eithriadol, rhaid hysbysu AGC. Mae hwn yn fesur diogelu pwysig i blant.**

**Lleoliadau heb eu Cofrestru:**
Weithiau byddwn ni'n clywed am achosion lle mae plant wedi'u gosod mewn lleoliad sy'n 'gweithredu heb gofrestriad'. Lleoliadau yw'r rhain na ddylid eu defnyddio ond pan nad oes dewis arall, a phan fu pob opsiwn arall yn aflwyddiannus, a hynny am gyfnod mor fyr â phosibl. Rydyn ni'n clywed gan y sector bod y lleoliadau hyn yn aml yn cael eu defnyddio wedi i leoliad argyfwng fethu neu oherwydd nad oes modd cael hyd i leoliad addas gerllaw mewn lleoliad maeth, preswyl neu ddiogel. Fodd bynnag, nid oes llawer o wybodaeth am y defnydd ohonynt yn genedlaethol. Gallwch ddarllen mwy am yr hyn rydyn ni wedi bod yn ei wneud i gynyddu'r llety i blant ag anghenion cymhleth yn adran 'llety diogel i blant ag anghenion cymhleth' y cerdyn adroddiad hwn.

**Lleoliadau heb eu Rheoleiddio:**
Rhaid i bob plentyn o dan 16 oed sydd angen gofal fod mewn lleoliad wedi'i reoleiddio a'i gofrestru. Fodd bynnag, nid oes rhaid i rai pobl ifanc 16 ac 17 oed, o reidrwydd, fyw mewn llety wedi'i reoleiddio, gan fod rhai yn gallu dechrau'r broses o adael gofal o 16 oed. Gall pobl ifanc gael eu hasesu fel rhai sydd angen 'cymorth' yn unig, ac nid 'gofal a chymorth'. Mae hynny'n golygu bod pobl ifanc yn gallu byw mewn llety sydd ddim yn darparu gofal, ac felly sydd ddim yn gorfod cofrestru gydag AGC. Gall yr opsiynau llety amrywio'n fawr, o leoliadau 'Pan fydda i'n Barod, lleoliadau llety â chymorth, trefniadau byw lled-annibynnol neu lety cwbl annibynnol, a hyd yn oed lleoedd fel hosteli a Gwely a Brecwast. Mae'r rhain yn dod o dan y term trosfwaol 'lleoliadau heb eu rheoleiddio'.

Rydyn ni'n pryderu bod safonau ac ansawdd llety yn gallu amrywio'n fawr. Er ein bod yn gwybod am rai lleoliadau cefnogol rhagorol, gall rhai pobl ifanc fod yn agored iawn i niwed os ydyn nhw'n byw mewn llety gwael gyda chymorth cyfyngedig.

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Rydyn ni wedi bod yn galw am wella opsiynau llety i ymadawyr gofal trwy wneud y canlynol:**

- Sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl yn gallu cael mynediad i gefnogaeth sy'n cyfateb i'r cynllun Pan fydda i'n Barod;
- Adeiladu darlun o'r defnydd o lety heb ei reoleiddio ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ac ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) i gryfhau'r mesurau diogelu i'r grŵp hwn;
- Mynnu bod safonau cenedlaethol yn cael eu datblygu ar gyfer opsiynau llety, fel bod pobl ifanc yn gallu cael gwybodaeth glir, hygyrch ynghylch ansawdd llety a'r mathau o gefnogaeth gallan nhw ddisgwyl eu derbyn wrth adael gofal.

Rydyn ni wedi bod yn aelodau o Grŵp Llywio Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru, sydd wedi darparu lle gwerthfawr i drafod y pryderon hyn. Cyn hynny, buon ni'n arsylwyr yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyd, oedd yn gyfrifol am edrych ar y profiad o adael gofal, ond caewyd y grŵp hwn yn ystod y flwyddyn, heb ymgynghori ag aelodaeth y grŵp. Fe wnaethon ni gwrdd â Swyddogion Data Llywodraeth Cymru i drafod opsiynau ar gyfer casglu gwybodaeth ynghylch y defnydd o lety heb ei reoleiddio, gan y byddai mwy o wybodaeth thematig yn helpu i lywio ateb ymarferol.

# Cynnydd

Rydyn ni'n dal i bryderu am y diffyg newidiadau cyfreithiol neu reoliadol i gefnogi anghenion ymadawyr gofal. Rydyn ni wedi bod yn pryderu mai ychydig o fannau dynodedig sydd ar gael i drafod anghenion amrywiol ymadawyr gofal yn fanwl, ac archwilio atebion ymarferol i hybu cysondeb o ran mynediad at gefnogaeth a llety o safon uchel.

### Elw mewn gwasanaethau gofal

Yn ogystal â hyn, rydyn ni wedi bod yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau cynyddu'r gwaith cysylltiedig â dileu'r elfen o elw o wasanaethau gofal plant, ar ôl i ni alw mewn adroddiad blynyddol blaenorol am ostyngiad diogel yn yr elw a wneir ym maes gofal plant. O ganlyniad, rydyn ni'n eithriadol gefnogol i'r egwyddor ar sail y safbwyntiau mae pobl ifanc wedi'u cyflwyno i'n swyddfa. Rydyn ni'n awyddus i weld dull pontio pwyllog, a reolir, yn cael ei ddefnyddio i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn profi amharu ar eu lleoliad. Rydyn ni'n mynychu Bwrdd Rhaglen Llywodraeth Cymru ynghylch hyn, ac yn cyfrannu at fonitro'r gofrestr risgiau. Buon ni hefyd yn cyflwyno tystiolaeth i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, a gyhoeddodd ei ganfyddiadau ym mis Mawrth 2022.

---

# Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu gweithgor yn 2022/23 i archwilio Llety heb ei Reoleiddio a Lleoliadau heb eu Cofrestru. Rhaid mai nodau'r gwaith hwn fydd:

Casglu data i ddatblygu dealltwriaeth o'r defnydd ohono yng Nghymru; Ystyried anghenion y bobl ifanc yr effeithir arnyn nhw er mwyn canfod ble mae diffygion yn y llety sydd ar gael; ac Archwilio a oes angen newidiadau yn y system reoleiddio yng Nghymru i ddyfarnu amddiffyniad cryfach i bobl ifanc.

Mae angen cwblhau'r gwaith yn y tymor Senedd hwn, gan gynnwys unrhyw newidiadau rheoliadol sy'n ofynnol.

**Astudiaeth Achos y Tîm Ymchwiliadau a Chyngor**

**Mater**: Cysylltwyd â'r tîm gan uned ddiogel awdurdod lleol, oedd yn codi pryderon nad oedd modd cael hyd i leoliad priodol ar gyfer person ifanc roedden nhw'n gofalu amdanynt oedd â phroblemau iechyd meddwl. Roedd y person ifanc wedi cael asesiad gan weithwyr CAMHS proffesiynol, a ddyfarnodd fod angen gofal mewn lleoliad cleifion mewnol canolig ddiogel, ac roedd wedi bod yn aros am leoliad ers 6 mis. Roedd diffyg gwelyau priodol yn golygu bod y person ifanc yn cael eu cadw mewn darpariaeth amhriodol nad oedd yn gallu diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau.

**Gweithredu**: Cysylltodd ein tîm â'r uned ddiogel a'r awdurdod lleol perthnasol, a chanfod eu bod yn cyfathrebu'n dda ynghylch yr achos hwn, ond bod gan y person ifanc anghenion cymhleth iawn. Darparwyd cefnogaeth ychwanegol briodol o ran iechyd meddwl i'r uned ddiogel wrth i'r chwilio am leoliad addas barhau.

**Canlyniad**: Roedd yr awdurdod lleol a'r uned ddiogel yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau lleoliad addas ar gyfer y person ifanc yma, felly, gwaetha'r modd, doedd dim modd arall i'n swyddfa fod o gymorth yn yr achos hwn. Rydyn ni wedi amlygu'r achos hwn fel rhan o'n hadroddiad blynyddol yn enghraifft o'r diffyg llety priodol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd ag anghenion cymhleth.

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

# Amddiffyn Plant rhag Ecsbloetio a Cham-drin Plant yn Rhywiol

# Materion allweddol

**Mae Erthygl 34 o CCUHP yn nodi bod rhaid i Lywodraethau amddiffyn plant rhag pob math o ecsbloetio a cham-drin rhywiol. Yn 2021/22, bu ffocws sylweddol ar ddeall graddfa'r cam-drin mae plant yn ei wynebu, a pha gamau pellach mae'n rhaid i wasanaethau eu cymryd er mwyn atal ac ymateb yn gadarn i achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Rydyn ni'n gwybod bod plant a phobl ifanc yn wynebu camdriniaeth ar-lein, ac mewn mannau lle dylen nhw fod yn ddiogel. Er bod y lens hon ar y mater wedi cael ei chroesawu, mae angen camau pellach i sicrhau ein bod yn parhau i atal y niwed yma, ac i sicrhau bod plant yn cael eu grymuso i ddatgelu achosion o gam-drin ac yn ceisio cymorth.**

---

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Rydyn ni'n arsylwyr i Fwrdd Llywodraethu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y strategaeth wedi'i hadnewyddu ar Drais yn erbyn Menywod a Merched, ac rydyn ni wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i bwyso am ffocws cryfach ar blant a phobl ifanc ar draws y strategaeth.**

Cynghorodd ein swyddogion ESTYN ar eu gwaith ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc fel rhan o'u hadolygiad thematig ar aflonyddu ymhlith cyfoedion, er mwyn cefnogi arolygwyr i greu lle diogel a chynhwysol i blant rannu eu barn ar aflonyddu rhywiol mewn ysgolion. Bydd gwelliannau arfer o'r darn yma o waith yn cael eu datblygu gan ESTYN fel rhan o'u methodoleg arolygu ehangach, megis caniatáu i bobl ifanc ddod â ffrind i'w trafodaethau gydag arolygwyr fel eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cefnogaeth wrth rannu eu barn.

O'r cychwyn, mae ein swyddfa wedi darparu tystiolaeth i ymchwiliad IICSA, ac mae'n chwarae rôl weithredol yn mynd ar ôl yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau diweddar. Rydyn ni wedi ysgrifennu at yr holl sefydliadau o Gymru a enwir yn argymhellion yr adroddiad, a'n bwriad yw defnyddio ein Bord Gron ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ym mis Ionawr 2023 i holi sefydliadau sut maen nhw wedi rhoi camau gweithredu ar waith ers i'r argymhellion gael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2022.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd hefyd wedi parhau i gynnal Bord Gron ddwywaith y flwyddyn ar Atal Ecsbloetio a Cham-drin Plant yn Rhywiol. Cyfarfod rhwng asiantaethau lluosog yw hwn, gyda chynrychiolwyr uwch yn bresennol o Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, Diogelu, Gwasanaethau Atgyfeirio wedi Ymosodiad Rhywiol, Iechyd, yr Heddlu, Academyddion a chyrff Trydydd Sector. Mae hwn yn lle i fonitro tueddiadau o ran y niwed y mae plant yn ei brofi, rhannu arfer gorau o ran amharu ar aflonyddu, a darparu cefnogaeth i blant a theuluoedd, yn ogystal â galw sefydliadau i gyfrif ynghylch sut maen nhw'n cyflwyno gwasanaethau.

Yn 2021/22, mae'r Ford Gron wedi monitro sut bu Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol a gweithrediad a gwreiddio canllawiau statudol i ddiogelu plant rhag cael eu hecsbloetio'n rhywiol. Rydyn ni hefyd wedi gwahodd sefydliadau fel ESTYN ac IICSA i roi cyflwyniadau yn y Ford Gron i feithrin cysylltiadau ar draws y sectorau.

# Cynnydd

**Mae'r ffocws ar y maes hwn wedi cael ei gynnal. Yn 2021/22 cyhoeddodd ESTYN yr Adroddiad Thematig 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon', oedd yn archwilio profiadau plant o aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion mewn ysgolion. Cyhoeddodd IICSA hefyd eu cyfres o adroddiadau ar brofiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn ysgolion preswyl ac ecsbloetio rhywiol gan rwydwaith trefnedig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi adnewyddu eu strategaeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, ynghyd â  darparu a chyhoeddi hyfforddiant i gefnogi canllawiau newydd statudol ynghylch ecsbloetio plant yn rhywiol.**

**"Mae'r ford gron wedi golygu bod modd cyfnewid gwybodaeth werthfawr gyda chydweithwyr ar draws sefydliadau am heriau allweddol a bylchau wrth gyflawni Cynllun Gweithredu [Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Llywodraeth Cymru]. Rwyf wedi gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i fonitro'n fanwl heriau allweddol y Cynllun Gweithredu. Rwy'n teimlo mai rôl ddefnyddiol i'r ford gron fyddai casglu gwybodaeth am y bylchau y mae angen rhoi sylw iddynt o hyd wrth i'r Cynllun Gweithredu dynnu at y terfyn, fel ein bod ni ddim yn colli momentwm o ran y mater polisi hanfodol hwn, ac yn gallu cyflawni newid parhaol i blant a phobl ifanc ar lawr gwlad."** — Pennaeth Polisi, NSPCC Cymru

Does dim modd i un sefydliad atal ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol trwy weithio'n ynysig. Mae angen sicrhau arferion gwaith cadarn i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu cydweithio'n gyflym ac yn effeithiol.

# Argymhelliad

Yn dilyn cyhoeddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, rhaid i Lywodraeth Cymru gydlynu a chyhoeddi Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru i sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd a'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Dylai pobl ifanc eu hunain fod yn gyfranogwyr yn y gwaith hwn. Bydd angen gwneud hyn mewn modd diogel a sensitif.

**Barn plant a phobl ifanc**

Mae llawer o bobl ifanc, gan gynnwys aelodau o'n Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc, wedi dymuno rhannu eu barn ynghylch diogelu pobl ifanc rhag niwed a chamdriniaeth rhywiol eleni, efallai dan ddylanwad gwefan Everyone's Invited a sylw wedi hynny yn y cyfryngau ac ar y newyddion. Mae llawer o'r bobl ifanc rydyn ni wedi siarad â nhw wedi rhannu barn gref o ran dymuno derbyn addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n briodol ac o safon dda mewn ysgolion. Fe wnaethon ni gefnogi'r panel i ddrafftio'u hymateb eu hunain i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Canllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sydd ar gael yma.

AMDDIFFYN RHAG ECSBLOETIO A THRAIS

# Diwygio Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid



# Materion allweddol

**Yn ystod y 12 mlynedd diwethaf, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sydd yn y ddalfa. Fodd bynnag, mae llawer o'r plant sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn arbennig o agored i niwed. Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn aml yn gweithio gyda phlant sydd eisoes yn hysbys i'r gwasanaethau statudol, ac yn rhy aml maen nhw'n gweithio gyda phlant sydd wedi cael eu gwahardd o ysgolion. Mae plant o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig a phlant sy'n derbyn gofal yn dal i gael eu cynrychioli'n ormodol yn y system.**

Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru wedi cael ei ddatblygu i helpu i roi sylw i lawer o'r pryderon hyn, a'i nod yw sbarduno diwygiad o'r system gyfan, gan geisio dad-droseddoli pobl ifanc. Rydyn ni wedi cefnogi'r cynllun hwn, ac rydyn ni'n awyddus i weithio gyda'r rhai sy'n cyflawni'r diwygiadau hyn i hybu hawliau plant a chyfranogiad ac ymwneud parhaus pobl ifanc. Rydyn ni'n awyddus i weld cynnydd o ran agor y lleoliadau diogel llai o faint, sy'n fwy therapiwtig eu naws, fel mae'r Glasbrint yn cynnig. Byddai hynny'n helpu i gadw plant yn nes adref ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi mewn amgylchedd mwy addas na Sefydliad Troseddwyr Ifanc neu Gartref Plant Diogel. Rydyn ni'n falch bod penderfyniad wedi cael ei wneud fel rhan o'r Glasbrint ar gyfer Prosiect Cartrefi Bach.

Er gwaethaf y bwriadau i ddiwygio, mae'r diffyg llety addas ar gyfer plant sy'n wynebu PACE/Remand yn dal yn destun pryder parhaus yn genedlaethol.

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Rydyn ni wedi parhau i gefnogi'r heddlu a'r sectorau cyfiawnder ieuenctid i ddatblygu a chyflwyno dull seiliedig ar hawliau plant o ymdrin â'u gwaith. Eleni fe gynhalion ni ddau ddigwyddiad; ein Seminar Blynyddol Hawliau Plant ym Maes Cyfiawnder Ieuenctid a Phlismona a darlith ar roi Hawliau Plant ar waith yn y Sector Cyfiawnder Ieuenctid. Rydyn ni wedi cyflwyno hyfforddiant ar hawliau plant i Reolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru, yr Heddlu ac Uned Atal Trais Cymru.**

Rydyn ni hefyd wedi parhau i gysylltu â'r lleoliadau dalfa ddiogel yng Nghymru, Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) Parc a Chartref Plant Diogel (SCH) Hillside. Yn 2021, pan laciwyd cyfyngiadau Covid i ganiatáu hynny, buon ni'n ymweld â Parc YOI i gwrdd â'r bobl ifanc yno. Yn dilyn ein hymweliad, fe ysgrifenon ni at HMPPS i ofyn am gyllid i Parc YOI uwchraddio'r cyfleusterau cawodydd, pwynt roedd y bechgyn yn y lleoliad wedi'i godi. Yn dilyn ein llythyr, cafodd hynny ei gynnwys yng Nghynnig Adolygiad Gwariant HMPPS.

Bu'r Comisiynydd yn ymweld â Hillside SCH ym mis Ionawr 2022 i gwrdd â phobl ifanc yn y lleoliad. Yn dilyn yr ymweliad hwn, fe fuon ni'n cyflwyno hyfforddiant hawliau plant i'r staff yn Hillside fel rhan o'u taith dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Mae Hillside SCH wedi bod yn cyfranogi yn ein Seminarau Hawliau yn ystod y ddwy flynedd pan gawson nhw eu cynnal. Yn y gorffennol cawson nhw hyfforddiant Hawliau Plant ar gyfer eu staff addysg, ac maen nhw'n ymroddedig i gynnwys ymwybyddiaeth o CCUHP yn eu rhaglen sefydlu i'r staff.

# Cynnydd

**Rydyn ni wedi parhau i fonitro estyn cwmpas y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid trwy ein presenoldeb ym Mhanel Ymgynghorol Cymru ar Gyfiawnder Ieuenctid (WYJAP) a chyfarfodydd rheolaidd gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n falch o fod wedi gweld mwy o gynnydd yn y gwaith hwn yn 2021/22.**

Rydyn ni wedi bod yn rhan o'r Gweithgor, dan gadeiryddiaeth y 4C, i ddatblygu Protocol Cymru er mwyn lleihau troseddoli plant mewn gofal ac ymadawyr gofal. Bu hwn yn brosiect ar y cyd, gyda llawer o sefydliadau, megis Timau Troseddau Ieuenctid, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Awdurdodau Lleol, Iechyd a Lleoliadau Preswyl yn cydweithio i ddrafftio protocol effeithiol. Roedden ni wedi galw am roi sylw i fater gor-droseddoli plant sy'n derbyn gofal yn ein hadroddiad Y Gofal Cywir nôl yn 2016. Er bod hyn wedi cymryd peth amser i'w gyflawni, roedden ni'n falch o weld y Protocol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2022, gyda chynlluniau a chyllid i ddatblygu pecyn offer er mwyn sicrhau bod y Protocol yn cael ei wreiddio ar draws gwasanaethau i gyflawni newid i bobl ifanc.

# Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol ar waith y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn 2022/23, i gynorthwyo atebolrwydd. Dylai hyn ymdrin â materion troseddoli pobl ifanc, gorgynrychiolaeth rhai grwpiau ac effaith iechyd meddwl gwael ar y rhai sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cynnydd o ran Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn weithredol ac yn ystyrlon er mwyn datblygu'r Prosiect Cartrefi Bach eleni, er mwyn newid ymhellach sut rydyn ni'n ymateb i anghenion pobl ifanc ac yn ymdrin â nhw trwy wasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

**Barn plant a phobl ifanc**


Mae Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) Parc ac HMP Parc wedi dangos ymrwymiad cryf i wreiddio hawliau plant ar draws yr ystâd. Mae swyddogion yn Parc YOI wedi cyfrannu at ein Seminar Hawliau Plant er mwyn rhannu'r gwaith da sy'n digwydd yno. Mae swyddogion cyfranogiad y Comisiynydd hefyd wedi cefnogi'r staff i addysgu tadau yn HMP Parc ynghylch hawliau plant, gan weithio gyda'r prosiect Parth Ysgol i feithrin perthynas gryfach rhwng tadau sydd yn y carchar a'u plant.

Bu'r Comisiynydd yn ymweld â Chartref Plant Diogel (SCH) Hillside ym mis Ionawr 2022 i gwrdd â phobl ifanc yn y lleoliad. Yn dilyn yr ymweliad hwn fe wnaethon ni gyflwyno hyfforddiant hawliau i'r staff yn Hillside fel rhan o'u taith at ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Mae Hillside SCH wedi cyfranogi yn ein Seminarau Hawliau hefyd, y ddwy flynedd pan gawson nhw eu cynnal, ac yn y gorffennol maen nhw wedi cael hyfforddiant Hawliau Plant ar gyfer eu staff addysg, ac maen nhw'n ymroddedig i gynnwys ymwybyddiaeth o CCUHP yng nghyfnod sefydlu'r staff.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Diwygio Byd Addysg



# Y materion allweddol

**Newidiodd cyfraith addysg yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd ddiwethaf wrth i ddau ddarn allweddol o ddeddfwriaeth ddod i rym:**

- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Bydd rhoi'r diwygiadau addysgol hyn ar waith yn llwyddiannus yn allweddol i wella profiadau plant o fyd addysg yn ystod tymor y Senedd nesaf a'r tu hwnt i hynny, a dechreuodd y Llywodraeth roi hynny ar waith yn ystod blwyddyn 2021/22.

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Fe wnaethon ni gyflwyno ymatebion ymgynghori cynhwysfawr i'r ystod o gynigion ar gyfer y gyfres o ganllawiau eilaidd i'r cwricwlwm, oedd yn cynnwys: rheoliadau a chanllawiau ar asesu a dilyniant; canllawiau ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a chanllawiau ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir. Fel arsylwyr yng ngweithgor Llywodraeth Cymru, rhoddwyd cyngor parhaus hefyd i sicrhau bod dull seiliedig ar hawliau yn ganolog i ddatblygiad y Côd a'r Canllawiau ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a basiwyd gan y Senedd ar ddiwedd y pumed tymor.**

Rydyn ni hefyd wedi datblygu canllawiau i gefnogi elfennau hawliau dynol y ddwy elfen a ddiwygiwyd, gan gynnwys dyletswydd 2021 i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol plant, a dyletswydd 2018 i roi sylw dyledus i hawliau plant wrth gynllunio anghenion dysgu ychwanegol. Mae ein swyddfa wedi diweddaru ein canllawiau Y Ffordd Gywir i addysg yn sylweddol, wedi cyhoeddi astudiaethau achos ymarfer sy'n adlewyrchu gofynion hawliau dynol newydd, ac yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus i ddatblygu offer cyfranogiad yn benodol ar gyfer Deddf 2018.

# Cynnydd

Dechreuwyd rhoi'r ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol ar waith yn raddol yn ystod blwyddyn 2021/22, gyda rhai grwpiau o blant yn symud drosodd i'r system newydd. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, cafwyd oedi gyda'r amserlen weithredu a ragwelir a diffyg gwybodaeth ar gael i deuluoedd, plant a phobl ifanc ynghylch beth dylen nhw ei ddisgwyl, a phryd.

Mewn perthynas â deddfwriaeth y cwricwlwm ac asesu, cyflwynodd y Llywodraeth lu o ganllawiau eilaidd i baratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm o fis Medi 2022. Bu'r Llywodraeth hefyd unwaith yn rhagor yn newid y cynlluniau gweithredu graddol mewn perthynas ag ysgolion uwchradd, er mwyn oedi gweithredu gorfodol yn y lleoliadau hyn tan 2023.

# Argymhelliad

Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull seiliedig ar gydraddoldeb i werthuso gweithrediad diwygiadau addysg. Dylai hynny asesu i ba raddau mae gwahanol grwpiau o blant yn elwa o'r dull newydd o ymdrin â'r cwricwlwm, gan gynnwys plant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig, ac anghenion dysgu ychwanegol. Dylid casglu canfyddiadau cychwynnol ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r cwricwlwm, a dylen nhw lywio'r gefnogaeth barhaus ar gyfer gweithredu.

**Astudiaeth Achos y Tîm Ymchwiliadau a Chyngor**

**Mater**: Cysylltodd rhiant â ni ym mis Mai 2021 ar ôl cael clywed gan awdurdod lleol na fyddai eu cais am asesiad statudol i'w plentyn yn digwydd, ac y byddai'n rhaid iddyn nhw aros tan fis Medi i gael Cynllun Datblygu Unigol yn yr ysgol. Roedd yr Awdurdod Lleol yn achub y blaen ar Weithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac fe ddylen nhw fod wedi ymateb i gais y rhieni am asesiad statudol.


Ni ddylai unrhyw blentyn neu deulu gael eu rhoi o dan anfantais gan y trefniadau pontio ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd, na gorfod aros i'w hanghenion gael eu diwallu. Gall y broses asesu fod yn hirfaith eisoes oherwydd argaeledd cyfyngedig amser seicoleg addysg, felly mae angen osgoi oedi pellach.

Gweithredu: Rhoddwyd cyngor ynghylch apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW) a'r gefnogaeth y gallen nhw ei derbyn gan SNAP- yr elusen genedlaethol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth annibynnol yn ddi-dâl, er mwyn helpu i sicrhau'r addysg gywir i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau. Cynghorwyd y teulu i gynnal y ddeialog â'r awdurdod lleol a rhoi gwybod iddyn nhw eu bod wedi codi eu pryderon gyda'n swyddfa ni, a'n bod ninnau wedi'u hysbysu na ddylai'r Ddeddf newydd gael ei gweithredu cyn y dyddiad cychwyn swyddogol. Cynigiwyd cefnogaeth barhaus i'r rhiant gan ein swyddfa petai angen, ond nawr eu bod wedi derbyn y cyngor priodol, fe ddwedson nhw y bydden nhw'n symud y mater ymlaen eu hunain.

**Canlyniad**: Hysbysodd y rhiant ni y bydden nhw'n apelio i SENTW pe na bai'r awdurdod lleol yn newid eu safbwynt. Ni chysylltodd y rhiant â'r swyddfa wedyn.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Addysgu gartref



# Y materion allweddol

**Canfu ein hadolygiad ffurfiol yn 2021 o sut bu Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r polisi hwn fod diffyg ystyriaeth i hawliau plant a diffyg unrhyw gynnydd ystyrlon.**

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Fe wnaethon ni ailadrodd argymhelliad allweddol yr adolygiad ffurfiol hwn yn Adroddiad Blynyddol y swyddfa hon yn 2020/21, oedd yn argymhell bod angen deddfwriaeth sylfaenol i sicrhau hawliau dynol plant sy'n cael eu haddysgu gartref.**

Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i barhau i adolygu'r maes polisi hwn wrth i ganllawiau newydd gael eu gweithredu, ac y bydd deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei hailystyried os nad yw deddfwriaeth eilaidd yn ddigonol i amddiffyn hawliau plant.

# Cynnydd

**Wrth wrthod hyn, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau statudol newydd o dan y cyfreithiau presennol, er na welwyd gweithredu sylweddol ar hyn yn ystod blwyddyn 2021/22. Mae hynny er gwaethaf cynnydd sylweddol yn nifer y plant oedd yn cael eu haddysgu gartref yn ystod ac ar ôl y pandemig, gydag arwyddion y gallai'r niferoedd wedi cynyddu gan o leiaf draean.**

Yn awr rhagwelir y bydd y canllawiau'n dod gerbron y Senedd yn hydref 2022, a rhagwelir eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2023. Safbwynt fy swyddfa o hyd yw y gallai hyn olygu bod gweld plant a siarad â nhw yn fwy tebygol, ond y bydd y canllawiau'n annigonol o ran y gwarant angenrheidiol i sicrhau hawliau plant, gan gynnwys eu hawliau i gael addysg a diogelwch.

Ochr yn ochr â datblygu canllawiau statudol, mae Llywodraeth Cymru wedi dosbarthu arian grant i awdurdodau lleol er mwyn i awdurdodau gefnogi teuluoedd sy'n addysgu gartref. Mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r cyllid hwn mewn amrywiaeth o ffyrdd: i gyflogi staff a darparu adnoddau a gweithgareddau'n uniongyrchol i deuluoedd. Mae awdurdodau wedi sôn am effaith gadarnhaol mabwysiadu agwedd gefnogol, gan nodi gwell ymgysylltiad a chydberthynas â theuluoedd a phlant yn dod yn fwy gweladwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y bydd cyllid dangosol ar gyfer y pecyn cefnogi hwn yn parhau am y ddwy flynedd nesaf, ac mae swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol i drafod opsiynau ar gyfer pecyn cyson o gefnogaeth ar draws Cymru.

# Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gwerthuso ar gyfer gweithredu'r canllawiau statudol newydd, ochr yn ochr â'r canllawiau hynny. Dylai hyn fesur yn benodol pa ganran o blant a addysgir gartref sy'n cael eu gweld, ac y ceir sgwrs flynyddol â nhw ynghylch eu haddysg.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Ysgolion Annibynnol



# Y materion allweddol

**Canfu ein hadolygiad ffurfiol yn 2021 o sut roedd Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r maes polisi hwn fylchau yn y trefniadau diogelu mewn ysgolion annibynnol.**

Nododd yr adolygiad hwn fod angen rheoliadau newydd i sicrhau bod pob plentyn mewn ysgolion annibynnol yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n dda o ran eu hanghenion addysgol a bugeiliol. Roedd hefyd yn nodi angen am ehangu cofrestriad staff ysgolion annibynnol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Roedd y Llywodraeth wedi bod yn ymwybodol o'r bwlch diogelu hwn, oedd yn fater o frys, ers rhai blynyddoedd.

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion ein hadolygiad statudol i gyflwyno rheoliadau newydd mewn perthynas ag ysgolion annibynnol ac i ehangu categorïau cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i gynnwys staff ysgolion annibynnol.**

Fe gyflwynon ni ymateb llawn i alwad ddilynol Llywodraeth Cymru am dystiolaeth, gan awgrymu ystod eang o newidiadau i'r rheoliadau a chanllawiau a fydd yn sicrhau hawliau dynol plant mewn lleoliadau annibynnol. Rydyn ni hefyd wedi parhau i ymgysylltu â'r sector ysgolion annibynnol, ac fe wnaethon ni gyfrannu sesiwn lawn ryngweithiol ar hawliau dynol plant i gynhadledd flynyddol Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru.

# Cynnydd

Yn ogystal â chyflwyno galwad gyhoeddus am dystiolaeth, ar ddiwedd 2021, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n gyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg; roedd hyn yn cynnwys cynigion i gofrestru staff mewn ysgolion annibynnol.

Ar ddechrau'r flwyddyn, daeth Llywodraeth Cymru â rheoliadau newydd i rym sy'n galluogi Cyngor y Gweithlu Addysg i orfodi gorchmynion ataliaeth interim, cam y bu ein swyddfa ninnau'n ei argymell er mwyn diogelu plant yn well ym mhob lleoliad, gan gynnwys ysgolion annibynnol.

# Argymhelliad

Rwy'n disgwyl gweld y cynnydd ar y gwaith hwn yn parhau, ac rwy'n disgwyl i Lywodraeth Cymru symud y rheoliadau ymlaen yn y Senedd, fel bod gofyn i staff ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Rhaid cadw at yr amserlen o ddod â'r rheoliadau hyn i rym erbyn mis Ebrill 2023.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Cymwysterau

# Y materion allweddol

**Ar gychwyn blwyddyn ariannol 2021/22 roedd y penderfyniad eisoes wedi cael ei wneud i ddyfarnu cymwysterau trwy raddau a bennwyd gan ganolfannau, ac i ganslo cyfres arholiadau haf 2021. Gwnaed y penderfyniad hwn yng ngoleuni cyngor iechyd cyhoeddus parhaus ynghylch dichonoldeb arholiadau'r haf; y cyfnodau estynedig yn ystod 2020 a 2021 pan oedd ysgolion a cholegau ar gau o ran dysgu wyneb yn wyneb; a swm yr amser dysgu ychwanegol a gollwyd gan unigolion yr oedd angen iddyn nhw ynysu.**

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Bu ein swyddfa'n cyfranogi fel arsylwr ar grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid ar gymwysterau a gynullwyd gan Gymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru. Trwy'r ymgysylltiad hwn a thrwy ohebiaeth barhaus a chyfarfodydd ar bob lefel gyda Chymwysterau Cymru a'r Llywodraeth, gan gynnwys mewn cyfarfodydd Gweinidogol, gwnaethon ni nifer o alwadau allweddol mewn perthynas â dyfarnu cymwysterau yn 2021. Roedd y rhain yn cynnwys:**

- yr angen am flaenoriaethu llesiant pobl ifanc wrth ddatblygu dulliau asesu amgen;
- yr angen i ymgeiswyr gadw'r hawl i apelio yn erbyn y radd a bennwyd gan eu canolfan ar sail dyfarniad academaidd;
- yr angen am ganllawiau ynghylch atal ac osgoi tuedd anymwybodol;
- yr angen am sicrhau nad oedd gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp o bobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc a addysgwyd gartref oedd yn sefyll fel ymgeiswyr preifat, ac ymgeiswyr oedd yn sefyll cymwysterau galwedigaethol;
- yr angen i farn a phrofiadau pobl ifanc lywio'r broses ddyfarnu;
- yr angen am wybodaeth glir, hygyrch i bobl ifanc, gan gynnwys ynghylch sut i apelio;
- yr angen i gymwysterau parhaus gadw addasiadau yng ngoleuni amser dysgu a gollwyd.

Buon ni'n adolygu cynigion, canllawiau a chyfathrebu ynghylch cymwysterau ar hyd tymhorau'r gwanwyn a'r haf, a hefyd yn cefnogi cyfranogiad pobl ifanc trwy roi cyngor parhaus i Gymwysterau Cymru ar sefydlu eu paneli ymgynghorol i ddysgwyr. Roedd cymwysterau hefyd yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer ein Panel Ymgynghorol ninnau, ac fe fuon ni'n hwyluso ymgysylltiad uniongyrchol pobl ifanc o'n panel â'r Llywodraeth ar y mater hwn, gan gynnwys gyda'r Gweinidog Addysg ar fwy nag un achlysur.

# Cynnydd

Cadwodd ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn graddau a aseswyd gan ganolfannau, gan gynnwys ar sail dyfarniad academaidd. Darparwyd canllawiau a hyfforddiant ar osgoi tueddiadau anymwybodol i ganolfannau. Galluogwyd ymgeiswyr preifat, er enghraifft pobl ifanc a addysgwyd gartref, i gaffael cymwysterau a benderfynwyd gan ganolfannau, a darparwyd rhestr o ganolfannau yn genedlaethol lle gallai ymgeiswyr preifat sefyll arholiadau. Hwyluswyd ymgysylltiad dysgwyr â'r broses trwom ninnau a thrwy Baneli Ymgynghorol Cymwysterau Cymru. Daliwyd ati i addasu'r gofynion hefyd yn achos cymwysterau oedd i'w sefyll yn 2022.

Fodd bynnag, roedd anghysondebau'n parhau yn achos pobl ifanc oedd yn sefyll cymwysterau galwedigaethol, yn arbennig pan oedd y rhain yn cael eu cynnig gan fyrddau arholi yn Lloegr. Nid oedd yr wybodaeth i bobl ifanc bob amser yn hygyrch, wedi'i hysgrifennu'n syml, nac ar gael pan oedd angen, ac ychwanegodd yr oedi wrth gael gwybod am y trefniadau bryderon y canolfannau a'r bobl ifanc eu hunain. Roedd hyblygrwydd ynghylch sut gallai canolfannau bennu'r graddau, ond roedd pwysau amser ochr yn ochr â phwysau'r pandemig yn golygu bod y rhan fwyaf o ganolfannau wedi pennu graddau trwy gyflawni llawer o asesiadau hen bapurau, weithiau asesiadau lluosog yr un diwrnod dros gyfnod o rai wythnosau, oedd â goblygiadau llesiant i rai pobl ifanc.

# Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymwysterau Cymru i sicrhau bod byrddau arholi yn darparu gwybodaeth lefel uwch mewn modd prydlon a hygyrch ynghylch trefniadau a chynnwys cymwysterau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2023. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth benodol i gymwysterau galwedigaethol. Diben hynny yw sicrhau bod ysgolion a lleoliadau yn gallu addysgu'r cwrs llawn, a'u bod yn cael eu hannog i wneud hynny, a bod modd i'r dysgwyr sicrhau ffocws i'w cyfnod o adolygu.

Dylid cyhoeddi asesiad effaith llawn ar gydraddoldeb ochr yn ochr â'r wybodaeth lefel uwch a gyhoeddir.

**Astudiaeth Achos Ymchwiliadau a Chyngor**

**Mater**: Roedd rhiant yn pryderu bod eu plentyn heb dderbyn y graddau TGAU a ragwelwyd oherwydd effaith y pandemig a gormod o asesiadau. Dywedwyd wrthyn ni fod y person ifanc yn dioddef o orbryder oherwydd pwysau cynifer o asesiadau, a'u bod wedi mewn yn fewnblyg a chael trafferth cwblhau'r asesiadau a roddwyd iddyn nhw. O ganlyniad, cafodd y person ifanc raddau llawer is na'r rhagfynegiad, oedd ddim yn ddigon i sicrhau lle yn y coleg.

**Gweithredu**: Fe wnaethon ni roi cyngor i'r rhiant ynghylch y broses apeliadau, ac anfon gwybodaeth atyn nhw am derfynau amser perthnasol y broses apelio ac esboniad ar y broses apeliadau.

**Canlyniad**: Roedd modd i'r rhiant gyflwyno apêl ynghylch y canlyniadau arholiad ar ôl deall y broses a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno apêl.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Cefnogaeth ysgol gyfan i iechyd meddwl a llesiant



# Y materion allweddol

**O ystyried effaith y pandemig ar lesiant plant a phobl ifanc, mae'n bwysicach nag erioed bod gan bob ysgol yng Nghymru eu dull gweithredu ysgol gyfan eu hunain, sy'n adlewyrchu anghenion eu myfyrwyr trwy gynhyrchu cynlluniau cynhwysfawr ar y cyd â nhw.**

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Mae'r Comisiynydd wedi bod yn galw am ddull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru ers 2015. Bu ein swyddfa'n ymwneud â'r grŵp rhanddeiliaid i ddatblygu'r canllawiau cyn eu cyhoeddi, ac ers hynny buon nhw'n ymwneud â'r grŵp rhanddeiliaid i gefnogi ac adolygu'r gweithredu.**

# Cynnydd

**Roedden ni'n falch o weld canllawiau'r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yn cael eu cyhoeddi yn 2021, ac rydyn ni wedi clywed tystiolaeth anecdotaidd gadarnhaol am ysgolion yn datblygu dull gweithredu ysgol gyfan yn unol â'r canllawiau. Adlewyrchwyd hyn hefyd mewn profiadau cadarnhaol o waith at ddull gweithredu ysgol gyfan, yr adroddwyd amdanynt gan fy llysgenhadon ifanc yn ystod tasg arbennig tymor yr hydref (manylion ar dudalen 76).**

Rydyn ni wedi bod yn falch o weld ymrwymiad ariannol sylweddol Llywodraeth Cymru i weithredu'r canllawiau:

**- 2021/22 - £2 m**
**- 2022/23 - £5.2m**
**- 2023/24 - cyllideb ddangosol o £7.4m**

Cyhoeddwyd dogfen asesu gwerthusadwyedd ym mis Ionawr 2022. Roedd argymhellion yr asesiad gwerthusadwyedd yn cyflwyno llawer o'n blaenoriaethau ynghylch gweithredu'r fframwaith yn effeithiol. Rydyn ni'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu datblygu wrth i Iechyd Cyhoeddus Cymru arwain y gwaith gweithredu.

Rydyn ni am weld yr adnoddau yn y fframwaith yn cael eu trosi'n gefnogaeth strategol amlwg i ysgolion roi'r canllawiau ar waith yn effeithiol. Rydyn ni'n falch o glywed bod cynnydd da wedi digwydd yn achos yr ysgolion hynny a ymrwymodd i'r dull gweithredu ysgol gyfan, ond bydd angen i Lywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn sicrhau bod gan bob ysgol gynllun gweithredu ar gyfer dull ysgol gyfan, a'u bod yn rhoi hynny ar waith yn effeithiol, ac yn bwysig, trwy gynhyrchu'n ystyrlon ar y cyd â'r myfyrwyr.

Rydyn ni hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i gynhyrchu adnoddau hwylus i blant fel bod myfyrwyr yn cael gwybodaeth lawn am yr hyn dylen nhw ei ddisgwyl gan eu hysgol, er mwyn gallu eu galw i gyfrif.

# Argymhelliad

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Fframwaith Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yn cael ei estyn ar draws holl ysgolion Cymru. Dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o'r gwaith hwn trwy eu hysgol, fel y nodir yn fframwaith y dull gweithredu ysgol gyfan, ond hefyd trwy strwythurau cyfranogiad sydd eisoes yn bodoli yn Llywodraeth Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu adnoddau hygyrch, hwylus i blant, ac adnoddau cefnogol i staff ysgolion, fel bod modd rhoi'r polisi hwn ar waith yn llwyddiannus. Dylid cyhoeddi'r adnoddau hyn erbyn mis Medi 2023.


**Barn plant a phobl ifanc:**

**Tasg yr Hydref 2021:** Dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol

Yn Hydref 2021 fe ofynnon ni i'n llysgenhadon ysgol a chymuned adrodd yn ôl ar sut mae eu hysgol yn gofalu am iechyd meddwl a llesiant y myfyrwyr. Mae'r adborth o'r dasg arbennig honno i'w weld yma.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Adolygiad Teithio gan Ddysgwyr



# Y materion allweddol

Rhaid i'r hawliau o ran teithio gan ddysgwyr fod yn deg, amddiffyn diogelwch plant, a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i'w haddysg a chyfranogi fel dinasyddion yn eu cymunedau. Nid yw Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn cyflawni hyn yn ddigonol, ac mae'n hen bryd gweld newidiadau iddo.

Mae materion penodol yn ymwneud â'r canlynol: diffyg hawl statudol i drafnidiaeth ar gyfer lleoliadau addysg ôl-16 ac effaith hynny ar y gallu i barhau ym myd addysg, yn arbennig mewn lleoliadau ôl-16 Cymraeg neu ffydd; addasrwydd y Mesur i ddarparu ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys mewn lleoliadau ôl-16; a diogelwch a phellter llwybrau teithio llesol i leoliadau.

Mae un o fesurau interim yr adolygiad a gyhoeddwyd ar ddiwedd blwyddyn 21/22 yn eglur nad yw 'opsiwn 'gwneud dim byd' yn cael ei ystyried yn briodol', ac mae'n cynnig dau ddewis: symud ymlaen gyda rhai newidiadau cyfyngedig, neu; symud ymlaen gyda rhaglen ehangach o waith sy'n cwmpasu adolygiad llwyr o'r Mesur.

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Fel y nodwyd yn yr adolygiad interim, cynhaliwyd y gwaith hwn yn uniongyrchol mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y swyddfa hon, yn benodol ar ffurf argymhelliad ffurfiol yn adroddiad blynyddol 2018/19. Yn dilyn hynny, argymhellodd adroddiad blynyddol y llynedd hefyd fod yr adolygiad hwn yn cael ei gyhoeddi, er mwyn sicrhau tryloywder, a derbyniwyd hynny gan y Llywodraeth.**

# Cynnydd

Mae cynnydd wedi bod yn araf yn y maes polisi hwn. Roedd gwaith wedi cychwyn ar adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yn 2020, ond ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad interim tan ddiwedd blwyddyn 2021/22. Roedden ni wedi mynd ar ôl hyn gyda swyddogion a Gweinidogion yn ystod y misoedd blaenorol, gan fod gweld cyhoeddi'r gwaith hwn yn bwysig, er mwyn sbarduno'r camau nesaf oedd yn angenrheidiol i ddiwygio'r maes hwn.

Adeg cyhoeddi'r adolygiad interim, ni wnaeth y Llywodraeth unrhyw ymrwymiad na nodi terfynau amser ar gyfer eu bwriadau o ran symud ymlaen gyda'r naill na'r llall o'r opsiynau a amlinellwyd.

# Argymhelliad

Mae adolygiad y Llywodraeth ei hunan wedi dod i'r casgliad nad yw gwneud dim yng nghyswllt y Mesur yn cael ei ystyried yn briodol. O ystyried effaith gynyddol yr argyfwng costau byw ac argyfwng yr hinsawdd, mae rhaid i'r Llywodraeth symud ymlaen ar frys gyda'r gwaith pellach sy'n ofynnol i ddiweddaru'r Mesur a'r canllawiau cysylltiedig, gan fod newid deddfwriaethol yn debygol o fod yn ofynnol i'w sicrhau. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir ac ar frys y terfynau amser ar gyfer cyflawni'r newid deddfwriaethol hwn erbyn diwedd tymor y Senedd, a rhaid i farn pobl ifanc fwydo i gyfnod nesaf y gwaith.

ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

# Gwaharddiadau

# Y materion allweddol

**Dangosodd ymchwil gan ein swyddfa yn 2019-2020 lefelau annisgwyl o uchel o ran gwaharddiadau cyfnod penodol i blant yn y cyfnod sylfaen. Yn 2017-18 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer), collwyd 79,750 diwrnod o ddysgu i waharddiadau yng Nghymru.**

Mae gwaharddiad o addysg yn fwy o gosb nag o ateb sy'n ymdrin ag anghenion plant a phobl ifanc; yn hytrach, dylid cydnabod eu hanghenion a'u cefnogi. Gall gwahardd, ynddo'i hun, niweidio buddiannau uniongyrchol, tymor canolig a thymor hir plant a phobl ifanc.

# Sut rydyn ni wedi dylanwadu

**Rydyn ni wedi galw'n gyhoeddus ar y Llywodraeth i newid y canllawiau statudol ar waharddiadau fel eu bod yn cynnwys ystyriaethau penodol ynghylch oed y plentyn a nodweddion eraill gwarchodedig. Mae angen hefyd i'r canllawiau statudol newydd nodi dewisiadau amgen clir a mecanweithiau cefnogi y dylai ysgolion eu dilyn yn lle gwaharddiadau.**

Rydyn ni hefyd wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac Estyn ynghylch yr angen am graffu ar ddata gwaharddiadau a data ychwanegol ynghylch defnyddio ynysu. Bwriad hynny yw monitro sut mae hyn yn effeithio ar blant, gan gynnwys plant ifanc, i ba raddau mae'r ddarpariaeth yn diwallu'r anghenion, a pha gefnogaeth mae modd ei rhoi ar waith. Dylid gallu dadansoddi'r data ymhellach hefyd er mwyn gweld a oes effaith benodol ar blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim neu'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae Estyn wedi cytuno i adlewyrchu'r ystyriaethau hyn yn eu canllawiau i arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol.

# Cynnydd

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i newid y canllawiau statudol ar waharddiadau ac archwilio dull gwybodus am drawma a seiliedig ar hawliau o wneud y diwygio hwnnw. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn bydd y canllawiau presenoldeb yn cael eu diwygio, gwaith a gynlluniwyd cyn y pandemig, ond yr achoswyd oedi iddo o'r herwydd.

Rhagwelir y bydd y gwaith o ddiwygio'r canllawiau ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2022/3, ond ar hyn o bryd nid oes terfynau amser ar gael o ran pryd bydd dogfennau'n cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori.

# Argymhelliad

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni eu hymrwymiad i newid y canllawiau statudol ynghylch gwaharddiadau. Dylid ymgynghori ar y canllawiau diwygiedig hyn o fewn 2022/23, a chyhoeddi'r canllawiau erbyn mis Medi 2023.

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

**O dan ei Gylch Gorchwyl, mae'n ofynnol bod y pwyllgor yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd Plant (ARAC), felly, yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022.**

## Cyflwyniad

Prif rôl y Pwyllgor yw rhoi cyngor annibynnol i Gomisiynydd Plant Cymru, i'w chynorthwyo i gyflawni ei chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae aelodau'r Pwyllgor yn adrodd yn uniongyrchol i'r Comisiynydd, ac yn adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r systemau sicrwydd a roddwyd ar waith i gyflawni gofynion Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiynydd a pha mor ddibynadwy a diwyro yw'r systemau hynny. Yn ymarferol, mae aelodau'r Pwyllgor yn adolygu ac yn herio'r sicrwydd a roddwyd gan staff y Comisiynydd a'i harchwilwyr mewnol ac allanol, ac yn ei chynghori ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Pwyllgor wrth iddo gyflawni'r swyddogaethau hynny yn y flwyddyn ariannol hon, o 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022.

Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn cydymffurfio â'r egwyddorion Arfer Da a gyflwynwyd yn Llawlyfr Trysorfa Ei Mawrhydi ar gyfer Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg, gwahoddwyd yr aelodau i gwblhau Rhestr Gwirio Effeithiolrwydd Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg, a luniwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a chymerwyd canlyniadau hynny i ystyriaeth wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn.

## Aelodaeth

**Aelodau anweithredol**

- **Jocelyn Davies** (Cadeirydd), cyn-Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- **Margaret Provis**, gynt yn Was Sifil Uwch
- **Arwel Thomas,** gynt yn Was Sifil Uwch
- **Jo Hendy**, Pennaeth Gwelliant yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)
- **Julie Richards**, ymgynghorydd cyfathrebu
- **Bernie Bowen-Thomson**, cynghorydd lleol a chyfarwyddwr ar sefydliad trydydd sector.

Yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus ym mis Ionawr 2022, penodwyd tri aelod anweithredol ychwanegol am gyfnod o dair blynedd. Mae'r aelodau newydd hyn yn cryfhau sgiliau craidd y Pwyllgor, ac yn cyfrannu amrywiaeth o brofiadau ac arbenigedd newydd. Dyma'r aelodau newydd:

- **Suzy Davies**, cyn-Aelod o'r Senedd
- **Alfred Oyekoya**, cyfrifydd siartredig
- **Michaela Leyshon**, darlithydd yn y gyfraith

**Staff y Comisiynydd**

- **Sally Holland,** Comisiynydd Plant Cymru: ar y pryd
- **Tony Evans**, Pennaeth Cyllid a Swyddog Cyfrifyddu dirprwyedig
- **Sara Jermin**, Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad
- **Ceirios Williams,** Swyddog Cymorth Gweithredol sy'n darparu cymorth Ysgrifenyddol i'r Pwyllgor

**Eraill**

Cynrychiolwyr o archwilwyr mewnol y Comisiynydd (TIAA yn y cyfnod hwn), sy'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a chynrychiolwyr o Archwilio Cymru (archwilwyr allanol), sy'n cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y Côd Ymarfer Archwilio.

## Cydnabyddiaeth Ariannol

Nid yw'r aelodau yn derbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol, ond gellir ad-dalu costau a ddaeth i'w rhan. Mae'r aelodau'n cyflwyno hawliadau o'r fath yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd. Ni wnaed hawliadau o'r fath yn ystod y cyfnod hwn, gan fod yr holl gyfarfodydd wedi cael eu cynnal yn rhithwir.

## Gwrthdaro Buddiant

Fel aelodau o ARAC, mae pob aelod o'r Pwyllgor yn cwblhau datganiad blynyddol o fuddiannau, a gedwir yn unol â'r holl reoliadau diogelu data perthnasol. Ar ben hynny, mae'r eitem gyntaf ar agenda unrhyw gyfarfod ARAC yn caniatáu datgan unrhyw fudd sy'n benodol i'r eitemau ar agenda'r cyfarfod hwnnw.

## Hyfforddiant

Gwahoddir yr aelodau i asesu eu hanghenion hyfforddiant yn flynyddol. Eleni, dilynodd yr aelodau, gan gynnwys y rhai newydd, hyfforddiant ar wrthweithio twyll a seiber-ddiogelwch. Hefyd cwblhaodd yr aelodau newydd gyfres o gyfarfodydd sefydlu gyda phob aelod o dîm rheoli'r Comisiynydd.

Mae cynllun hyfforddi 2022/23 yn cynnwys sesiynau ar reoli risg a seiber-ddiogelwch; bydd yr holl aelodau newydd yn derbyn rhaglen sefydlu lawn.

## Cyfarfodydd

Nod y Pwyllgor yw cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cynhaliwyd cyfarfodydd ym mis Ebrill 2021, mis Gorffennaf 2021, mis Hydref 2021 a mis Ionawr 2022. Er mwyn sicrhau bod modd codi materion priodol yn gyfrinachol, mae'r Cadeirydd a'r aelodau anweithredol hefyd yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r Archwilwyr Allanol a Mewnol yn breifat cyn y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Pwyllgor llawn.

## Cofnod Presenoldeb

| Member | Attendance level |
|---|---|
| Jocelyn Davies | 4 of 4 |
| Arwel Thomas | 4 of 4 |
| Margaret Provis | 4 of 4 |
| Jo Hendy | 4 of 4 |
| Julie Richards | 3 of 4 |
| Bernie Bowen-Thomson | 3 of 4 |
| Sally Holland | 4 of 4 |
| Tony Evans | 4 of 4 |
| Sara Jermin | 4 of 4 |
| Ceirios Williams | 4 of 4 |
| Deloitte | Wedi mynychu eu cyfarfod olaf ym mis Ebrill – 1 allan o 1 |
| TIAA | 4 of 4 |
| Audit Wales | 4 of 4 |

## Gwaith y Pwyllgor

Mae'r Cylch Gorchwyl, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol gan yr aelodau, yn nodi manylion cylch gwaith a chynllun gwaith y Pwyllgor. Diweddarwyd y rhain a'u cymeradwyo ddiwethaf ym mis Hydref 2021, ac mae modd eu cyrchu ar wefan y Comisiynydd. Mae'r Cylch Gorchwyl yn cynnwys manylion yr eitemau sefydlog ar agenda'r Pwyllgor, sef:

- Y Gofrestr Risgiau
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad Archwilio Mewnol
- Diweddariad Archwilio Allanol
- Fframwaith llywodraethu/gwerthuso

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adolygu'r agenda cyn ei dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor a'r rhai fydd yn mynychu'r cyfarfod.
Yn ogystal â'r eitemau arferol, bu'r Pwyllgor yn adolygu Polisi Gwrthweithio Twyll a Pholisi Cwynion y sefydliad yn ystod y cyfnod hwn, yn tracio argymhellion yn sgîl cwyn ar Gam 3, ac yn tracio pwyntiau gweithredu o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bu'r aelodau hefyd yn adolygu cynlluniau'r Comisiynydd i symud safle a rheoli'r pontio i gyfnod comisiynydd newydd. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau hefyd ar seiber-wydnwch a chamau gweithredu oedd yn deillio o adolygiad o gyfrif rheoli pensiynau'r sefydliad. Ar ben hynny, cynhaliwyd dau gyfarfod ychwanegol rhwng y Comisiynydd, ei staff, ac aelodau anweithredol o'r Pwyllgor, i drafod amcangyfrif cyllideb y sefydliad i Lywodraeth Cymru.

## Asesiad Cyffredinol

**Archwilio Allanol**

Yn yr Adroddiad a'r Llythyr Rheoli ynghylch Archwilio'r Cyfrifon ar gyfer 2021 I 22, soniodd Archwilio Cymru am fwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyflwyno barn archwilio ddiamod. Roeddent yn fodlon i'r Comisiynydd, fel Swyddog Cyfrifyddu, lofnodi cyfrifon 2021 I 22. Ni welwyd unrhyw ddatganiadau gwallus yn y cyfrifon, sy'n parhau heb eu cywiro. Dylid nodi bod mân ddatganiadau gwallus yn y cyfrifon ar y cychwyn; natur ansoddol a naratif oedd i'r rhain, ac fe'u cywirwyd gan y rheolwyr.

**Archwilio Mewnol**

Mae TIAA, yr archwilwyr mewnol a benodwyd gan y Comisiynydd, yn rhoi sicrwydd annibynnol, gwrthrychol i'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu. Cwblhawyd rhaglen o archwiliadau ganddynt yn ystod 2021/22, fel y cymeradwywyd gan ARAC ac fel y nodir yn yr adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor:

**"Mae TIAA wedi'i fodloni, yn achos y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Gomisiynydd Plant Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol yn eu lle. Mae'r farn hon wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar y materion a ddaeth at sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac nid yw'n farn a fynegir ar bob elfen o'r prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu, na dichonoldeb ariannol parhaus, na chwaith eich gallu i gyflawni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Gomisiynydd Plant Cymru eu caffael o'r amrywiol ffynonellau sicrwydd."**

Isod ceir y datganiad ynghylch lefel y sicrwydd a gyflawnwyd ar gyfer pob maes archwilio:

- Ymateb i bandemig Covid-19: Sylweddol
- Rheoli Risg: Sylweddol
- TGCh-Seiber-ddiogelwch: Rhesymol
- Llywodraethu – Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg: Sylweddol
- Systemau Ariannol – mesurau rheoli cyllidebol, incwm, cyflogres, costau teithio a gweinyddu pensiynau: Sylweddol

## Diweddglo

Fel rhan o adroddiad blynyddol y llynedd fe wnaethon ni bennu meysydd ffocws allweddol i ni'n hunain, gan gynnwys: rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â seiber-ddiogelwch; cynllunio olyniaeth i sicrhau pontio cyflym i Gomisiynydd newydd yn 2022; rhaglen hyfforddi ac arfarnu ar gyfer aelodau anweithredol; dull gweithredu'r Comisiynydd a chydymffurfiaeth â safonau gwrthweithio twyll Swyddfa'r Cabinet; gwerthuso ymateb y Comisiynydd i bandemig Covid-19 a rheoli risgiau ynghylch y newidiadau arfaethedig i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru (Cynigion Cyllideb a Chyrff Dynodedig) 2018.

Mae'n dda gallu adrodd ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol ar bob un o'r rhain eleni, gyda sicrwydd allanol yn cael ei geisio ar lawer o feysydd trwy archwilio mewnol. Bydd llawer o'r elfennau hyn, gan gynnwys effaith Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru (Cynigion Cyllideb a Chyrff Dynodedig) 2018, seiber-ddiogelwch a dull y sefydliad o ymdrin â safonau gwrthweithio twyll, yn parhau'n nodweddion allweddol o'n cynllun gwaith yn y flwyddyn sy'n dod.

Eleni hefyd buom yn ceisio sicrwydd allanol ynghylch effeithiolrwydd y pwyllgor. Bu archwilwyr mewnol yn adolygu penodiad, hyfforddiant a chyfnod sefydlu aelodau newydd ARAC a rôl y pwyllgor o gymharu â chanllawiau arfer gorau. Daeth yr adolygiad i ben trwy gynnig sicrwydd sylweddol i'r comisiynydd, ei thîm a ninnau. Elfen hanfodol o effeithiolrwydd y pwyllgor hwn – sy'n un o brif golofnau fframwaith llywodraethu annibynnol y Comisiynydd – yw parodrwydd y Comisiynydd a'i thîm o staff i fod yn agored gyda'r aelodau a derbyn her. Hoffwn estyn, ar ran y pwyllgor, ddiolch unwaith yn rhagor i'r Comisiynydd a'i staff am eu diweddariadau prydlon, eu gonestrwydd mewn cyfarfodydd a'u parodrwydd i groesawu her. Ffactor hollbwysig arall yw sut mae'r pwyllgor yn gweithio mewn partneriaeth â'r archwilwyr mewnol ac allanol. Hoffwn ddiolch ar ran y pwyllgor i'r archwilwyr mewnol ac allanol am eu cyfraniad a'u cydweithio adeiladol.

Er ein bod yn cydnabod cryfder trefniadau llywodraethu ac ariannol y Comisiynydd eleni, mae tîm y Comisiynydd ac aelodau'r Pwyllgor hwn bob amser yn ymdrechu i wella. Ffocws y pwyllgor eleni, yn ogystal ag ymrwymiadau'r rhaglen waith greiddiol, fydd adeiladu perthynas waith gadarn gyda'r comisiynydd plant newydd, rheoli'r risgiau cysylltiedig â seiber-ddiogelwch, a chymryd diddordeb gweithredol yng ngallu'r sefydliad i gyflawni o fewn ei gyllideb.
O ganlyniad i'w waith a chanfyddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol, gall y Pwyllgor roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu bod y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheoli risg sydd ar waith yn parhau'n gryf, a'u bod wedi cynnal eu cadernid a'u dibynadwyedd yn ystod y flwyddyn ariannol. .

**Paratowyd gan**
Jocelyn Davies, Cadeirydd
Gorffennaf 2022

# Cyfrifon 2021-22

# Adroddiad y Cyfarwyddwr

## Cyflwyniad

Sefydliad annibynnol sy'n ymdrin â hawliau dynol plant yw Comisiynydd Plant Cymru. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Mae dwy gyfraith yn nodi'r rheolau ynghylch sut gall hi wneud ei gwaith, ac yn rhoi pwerau penodol iddi, sef Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (a oedd yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000).

### Dyma grynodeb o bwerau'r Comisiynydd

- Y pŵer i adolygu a monitro'r trefniadau ar gyfer cwynion, datgelu camarfer ac eiriolaeth mewn cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd;
- Y pŵer i adolygu sut mae cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd yn ymarfer eu swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau), gan gynnwys Llywodraeth Cymru;
- Y pŵer i archwilio achosion sy'n ymwneud â phlant unigol;
- Y pŵer i roi cymorth i blant unigol; a hefyd
- Y pŵer i gyflwyno sylwadau i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch unrhyw faterion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant sy'n destun pryder iddi ac nad oes ganddi bŵer i weithredu yn eu cylch.

Nid oes gan y Comisiynydd bŵer i weithredu mewn nifer o amgylchiadau a ddiffiniwyd:

- Materion sydd heb eu datganoli i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys mewnfudo a lloches, budd-daliadau lles, cyfiawnder a phlismona, a phlant yn y lluoedd arfog;
- Lle gall CAFCASS (Gwasanaeth Ymgynghorol Plant a'r Llysoedd) weithredu;
- Lle mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau yng nghyswllt achosion teulu; a
- Rhag gwneud ymholiadau ynghylch neu adrodd ar unrhyw fater sydd neu a fu'n destun achos cyfreithiol.

Cychwynnodd yr Athro Sally Holland yn ei swydd fel Comisiynydd ar 20fed Ebrill 2015 tan 19 Ebrill 2022. Ar 20 Ebrill 2022, daeth Rocio Cifuentes yn Gomisiynydd nesaf, ar ôl cael ei phenodi gan Brif Weinidog Cymru, am gyfnod o saith mlynedd. Cychwynnodd yr uwch swyddogion eraill ar eu penodiadau rhwng mis Mai 2006 a mis Mai 2017, ac fe'u penodwyd gan y Comisiynydd (presennol a'r un blaenorol) o dan Atodlen 2 paragraff 4 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

### Uwch Swyddogion

Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel Tîm Rheoli yn ystod y flwyddyn:

- Yr Athro Sally Holland - Comisiynydd Plant Cymru, tan 19 Ebrill 2022;
- Sara Jermin – Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad;
- Andy Wallsgrove – Pennaeth Ymarfer;
- Rachel Thomas – Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus;
- Amanda Evans – Pennaeth Adnoddau Dynol; a
- Tony Evans - Pennaeth Cyllid.

### Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae manylion pellach am rôl a swyddogaeth y Pwyllgor hwn i'w gweld yn ein datganiad llywodraethu ac yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor. I grynhoi, mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd yn rhoi cyngor a sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli yn swyddfa'r Comisiynydd a digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn o leiaf, ac yn cynnwys swyddogion uwch o Swyddfa'r Comisiynydd ac aelodau Anweithredol. Aelodau Anweithredol y Pwyllgor yw

- Jocelyn Davies – cyn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, tan fis Gorffennaf 2022;
- Margaret Provis – gynt yn Was Sifil, tan fis Gorffennaf 2022;
- Arwel Thomas – gynt yn Was Sifil, tan fis Gorffennaf 2022;
- Julie Richards – Awdur Annibynnol/Ymgynghorydd Cyfathrebu Strategol;
- Bernie Bowen-Thomson – Prif Swyddog Gweithredol Cymru fwy Diogel;
- Jo Hendy – Pennaeth Gwelliant yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)
- Michaela Leyshon – Tiwtor Proffesiynol, Prifysgol Abertawe, a benodwyd o fis Ebrill 2022;
- Alfred Oyekoya – Cyfarwyddwr, Cymorth Iechyd Meddwl BAME (BMHS), a benodwyd o fis Ebrill 2022; a
- Suzy Davies – cyn Aelod o'r Senedd, a benodwyd o fis Ebrill 2022.

Mae cynrychiolwyr Archwilio Cymru a chwmni TIAA Ltd hefyd yn cymryd rhan ym mhob cyfarfod.

## Ariannu

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi. Yn 2021-22 derbyniodd y Comisiynydd £1.580 miliwn (2020-21: £1.580 miliwn) i gyllido gweithgareddau'r Comisiynydd.

Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru grant cyfalaf ychwanegol gwerth £23,000 i ariannu eitemau cyfalaf penodol yn 2021-22, fodd bynnag daeth yr arian hwn i law'r Comisiynydd ar 1 Ebrill 2022 a rhoddir cyfrif amdano yng nghyfnod ariannol 2022-23 yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol rhif 20 (Rhoi Cyfrif am Grantiau gan y Llywodraeth a Datgelu Cymorth gan y Llywodraeth) (IAS20).

## Fformat y Cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru. Mae copi o'r cyfarwyddyd hwnnw ar gael oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru, Tŵ Llewellyn, Parc Busnes Glan yr Harbwr, Heol yr Harbwr, Port Talbot SA13 1SB.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022 ac maent yn adlewyrchu alldro asedau, rhwymedigaethau ac adnoddau'r Comisiynydd Plant. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

## Canlyniadau ar gyfer y Flwyddyn

Dengys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wariant o £1.524 miliwn (2020-21: £1.700 miliwn) ar gyfer y cyfnod. Y gweddill yn y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw £161,000 (2020-21: £51,000).

Yn ystod Pandemig COVID-19, mae'r Comisiynydd a'i staff wedi cydymffurfio â gofynion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru er mwyn delio â'r gofynion. Mae'r Comisiynydd wedi sicrhau bod y sefydliad wedi cynnal trefniadau llywodraethu a rheoli digonol ar hyd y pandemig tra'n sicrhau, ar yr un pryd, bod iechyd a lles y staff yn cael eu cynnal a'u monitro. Mae'r Comisiynydd a'i Thîm Rheoli yn parhau i fonitro'r trefniadau a rhoi ystyriaeth ddyledus i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y pandemig. Yn ystod cyfnod 2021-22, cyflawnodd y tîm nifer o ganlyniadau uchel eu proffil y rhoddir adroddiad manwl arnynt yn Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd.

Yn ystod 2021-22 newidiodd staff y Comisiynydd i 21.27 aelod o staff (cyfwerth ag amser llawn) o 21.26 (cyfwerth ag amser llawn), sy'n cynnwys gweithwyr llawn amser a rhan amser.

## Dysgu a Datblygu

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am ein gwaith dysgu a datblygu yn ein datganiad llywodraethu. Yn gryno, mae'r Comisiynydd yn parhau i fuddsoddi mewn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r staff.

Trwy Fframwaith Datblygu Perfformiad y Comisiynydd, gofynnir i'r holl staff nodi anghenion datblygiad personol a'u cofnodi mewn Cynllun Datblygu Personol. Fel sefydliad, rydym ni'n ymroddedig i fuddsoddi amser ac adnoddau i ddatblygu pawb sy'n gweithio yma, a datblygu systemau a strwythurau clir i gefnogi ein ffordd o weithio. Rydym ni'n gwybod bod sefydlu dealltwriaeth a rennir o'r hyn sydd i'w gyflawni, a bod pawb yn deall eu rôl yn hynny, yn galluogi pobl i gyflawni ar ran y sefydliad, ac ar ran plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Fframwaith Datblygu Perfformiad yn cysylltu perfformiad a datblygiad unigolion ag amcanion strategol y sefydliad. Rydym ni'n gwybod bod pobl yn gwneud eu cyfraniad gorau ac yn darparu gwaith o'r safon uchaf pan fydd ganddyn nhw waith clir, ystyrlon a heriol i'w wneud. Rydym ni hefyd yn gwybod bod cynllunio ein gwaith a myfyrio ar yr hyn fu'n llwyddiannus a'r hyn allai fod yn wahanol yn y dyfodol yn galluogi unigolion i dyfu a gwella yn eu hymarfer. Yn ogystal â datblygiad personol, mae'r sefydliad yn darparu rhaglen dysgu a datblygu ar draws y Swyddfa, i'r holl weithwyr, bob blwyddyn ariannol. Mae'r rhain yn cyflawni ei rhwymedigaethau o ran dysgu a datblygu naill ai yn unol â statud, neu lle bernir bod hynny'n hanfodol i'r holl grwpiau o staff er mwyn bodloni gofynion y cynllun gwaith blynyddol, er enghraifft ar Amddiffyn a Diogelu Plant.

## Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Staff

Mae'r strwythurau atebolrwydd a llywodraethu a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn helpu i sicrhau bod ein gweithle yn lle diogel, cynhyrchiol a braf. Yn ogystal, mae ein diwylliant o gydweithio yn y gweithle yn cyfrannu'n sylweddol at ein llwyddiant fel Tîm llwyddiannus sy'n perfformio ar lefel uchel. Rydym ni'n credu bod ein ffocws parhaus ar ymgysylltu â'n gweithwyr, yn ogystal ag ymgynghori â'r staff, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn elfen allweddol o ddatblygu arferion rheoli pobl mwy blaengar.

Mae'r Comisiynydd a'i Thîm Rheoli yn gweithio ar y cyd â'r staff, lle bynnag y bo modd, ar newidiadau pwysig i'r sefydliad a blaenoriaethau datblygu'r sefydliad. Cyflawnir hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys ein dull rheoli prosiect sefydledig o weithio, cyfarfodydd rheolaidd i'r holl staff (Fika), arolygon, gweithgorau fel y Grŵp Llesiant, ynghyd â diwrnodau datblygu i'r tîm cyfan. Yn ogystal, sefydlwyd arfer o roi cyfleoedd i'r holl staff, yn unigol ac mewn grwpiau, gyfrannu at gynllun strategol tair blynedd y Comisiynydd a'r cynlluniau gwaith blynyddol.

### Absenoldeb Staff

Yn ystod 2021-22 cyfradd absenoldeb salwch swyddfa'r Comisiynydd oedd 1.6 y cant (2020-21: 1.21 y cant), wedi'i seilio ar ganran o gyfanswm y diwrnodau gwaith oedd ar gael.

### Cynaliadwyedd

Fel aelod o Banel Ymgynghorol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac fel corff cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i'r egwyddorion a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru sydd â diwylliant bywiog a iaith Gymraeg lewyrchus; a
- Chymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn ymroddedig i leiafu effaith ei sefydliad ar yr amgylchedd lle bynnag y bo modd, ac mae'n ceisio lleihau'r effaith honno trwy gymryd y camau canlynol:

- Deunydd ysgrifennu ac adnoddau swyddfa: anogir y staff i gyfyngu gymaint â phosib ar eu defnydd o nwyddau traul y swyddfa;
- Teithio: lle bo hynny'n ymarferol, cynhelir cyfarfodydd trwy ddefnyddio fideo-gynadledda pryd bynnag y bo modd.;
- Ynni: mae'r Comisiynydd yn annog pob aelod o staff i fod yn ymwybodol o ynni, ac i ystyried ffyrdd o leihau eu hôl-troed carbon; a
- Gwaredu gwastraff: mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i ailgylchu pob gwastraff lle bydd hynny'n bosibl.

Yn ystod 2020-21 bu'r holl staff yn gweithio gartref, gan leihau'n sylweddol allyriadau carbon cymudo a mynychu cyfarfodydd, oedd yn awr yn digwydd yn rhithwir. Ar ben hynny, daeth y swyddfa bron yn gyfan gwbl ddi-bapur, a gwnaed ein holl systemau cyllid yn electronig ar ddechrau 2020-21. Mae disgwyl i'n symudiad i swyddfa fodern ym mis Gorffennaf 2021, yn ymyl gorsaf reilffordd ar y brif lein, leihau ein hôl-troed carbon yn sylweddol, a byddwn ni'n parhau â llawer o ffyrdd newydd o weithio a ddysgwyd yn gyflym yn ystod y pandemig.

Mae Adran 6 o Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau ar awdurdodau cyhoeddus. Yn 2019-20 aethom ati i ddatblygu cynllun yn unol â phedair colofn ein fframwaith perfformiad (sef plant a phobl ifanc, staff y Comisiynydd, prosesau sefydliadol a sefydlogrwydd ariannol/gwerth am arian) mewn ymateb i'r ddyletswydd honno. Trafodir y cynllun bob chwe mis gan y tîm rheoli, ac mae aelod o'r tîm rheoli yn perchnogi pob tasg o fewn y cynllun hwnnw. Gallwch ddarllen copi o'r cynllun ar ein gwefan, o dan 'cyhoeddiadau'.

### Cyfle Cyfartal

Ystyrir pob cais am gyflogaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal am gyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith. Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr dderbyn triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig na phatrymau gwaith, ac ni ddylai unrhyw unigolyn gael ei roi dan anfantais chwaith gan amodau neu ofynion na ellir dangos bod modd eu cyfiawnhau.

Yn ystod 2020 sefydlodd y Comisiynydd grŵp gweithredu ar gydraddoldeb, gyda ffocws arbennig ar hil, sydd eisoes yn cymryd camau i'n galluogi i sicrhau mwy o amrywiaeth yn ein sefydliad.

### Archwilwyr

Caiff cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae TIAA Ltd yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer y Comisiynydd.

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth i'r archwilwyr am waith heblaw archwilio.

### Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Mor bell ag y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni; ac mae'r Swyddfa wedi cymryd pob cam y dylasai ei gymryd i'w gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

### Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol yn cael eu hadrodd i'r Tîm Rheoli ac i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Rydym ni'n cadw at yr holl ganllawiau a gyflwynir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), gan gynnwys a oes angen symud digwyddiad ymlaen atyn nhw. Yn 2021-22, rhoesom wybod i'r ICO am un digwyddiad. Ar ôl ei adolygu, roedd yr ICO yn fodlon ar ein camau gweithredu cyflym a'n dull o ymdrin â'r digwyddiad a chadarnhawyd nad oedd angen cymryd camau pellach.

### Digwyddiadau ers Diwedd y Flwyddyn Ariannol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

**O dan Atodlen 2 o'r Ddeddf Safonau Gofal, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Gomisiynydd Plant Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf yr hyn a nodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon ac ar y sail honno. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt ddarparu darlun gwir a theg o sefyllfa fusnes Comisiynydd Plant Cymru, yr incwm a'r gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian y flwyddyn ariannol.**

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn bod y Swyddog Cyfrifyddu yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn arbennig â'r canlynol:

- glynu at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifeg a datgelu, a defnyddio polisïau cyfrifeg addas yn gyson;
- dod i benderfyniadau a llunio amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw'r safonau cyfrifo perthnasol, fel y'u cyflwynir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM), wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw achosion pwysig yn y datganiadau ariannol lle na ddilynwyd y safonau hynny;
- cadarnhau bod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a derbyn cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r penderfyniadau sy'n ofynnol i sicrhau eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa yn sgîl paragraff 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Cyflwynir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Comisiynydd Plant Cymru, yn y Memorandwm ar gyfer Swyddogion Cyfrifyddu a luniwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylaswn eu cymryd i'm gwneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod archwilwyr Comisiynydd Plant Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad llywodraethu blynyddol

**Mae'r Datganiad hwn gan Gomisiynydd Plant Cymru yn nodi ar ba sail y sefydlwyd y corff, sut mae'n cael ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.**

### Rôl Comisiynydd Plant Cymru

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac mae'n sefydliad hawliau dynol annibynnol. Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a newidiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Rhaid mai dyma amcan gor-redol y Comisiynydd pan fydd hi'n cyflawni ei swyddogaethau.

Mae crynodeb o bwerau'r Comisiynydd i'w weld yma.

### Deilydd blaenorol a deilydd cyfredol y swydd

Cychwynnodd yr Athro Sally Holland yn swydd y Comisiynydd ar 20 Ebrill 2015, ar ôl cael phenodi gan Brif Weinidog Cymru am gyfnod o saith mlynedd. Daeth ei chyfnod fel Comisiynydd i ben ar 19 Ebrill 2022.

Penodwyd Rocio Cifuentes MBE gan Brif Weinidog Cymru am gyfnod o saith mlynedd yn ystod y cyfnod ariannol hwn a dechreuodd yn y swydd ar 20 Ebrill 2022.

### Strwythur Llywodraethu

Isod ceir disgrifiad o'n strwythur llywodraethu. Mae rhagor o fanylion ynghylch aelodaeth pob grŵp, presenoldeb a'u cylchoedd gorchwyl ar gael ar ein gwefan.

## Comisiynydd Plant Cymru

• Corfforaeth Un Person • Swyddog Cyfrifyddu

### Tîm Rheoli (TRh)

Yn cynnwys: Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad, Pennaeth Ymarfer, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Pennaeth Adnoddau Dynol. Cadeirio gan y Comisiynydd.

Prif ddiben y TRh yw rhoi cymorth a chyngor i'r Comisiynydd ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygu nodau strategol a chynlluniau gwaith blynyddol. Y TRh sydd hefyd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol y sefydliad a rheoli'r gwaith o redeg y swyddfa o ddydd i ddydd yn unol â gwerthoedd y sefydliad.

### Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae'r pwyllgor yma yn cynghori'r Comisiynydd ar y prosesau strategol ar gyfer risgiau, eu rheoli a'u llywodraethu, polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, a gweithgaredd arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol.

### Paneli Ymgynghorol y Comisiynydd Plant (Panel Oedolion a Phanel Plant a Phobl Ifanc)

Prif ddiben y paneli yw i ddarparu cyngor annibynnol, cymorth, craffu a her i'r Comisiynydd a'i staff, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd Plant yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Mae'r paneli hefyd yn gweithredu fel ffrind beirniadol a seinfwrdd i'r Comisiynydd a'i staff ynghylch polisïau a chynigion a blaenoriaethau strategol.

Paneli Ymgynghorol: paneli anstatudol yw'r rhain, a'u prif rôl yw darparu cyngor, cefnogaeth a her annibynnol i'r Comisiynydd a'i staff. Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg: i ddysgu mwy am rôl, cylch gorchwyl a gwaith y Pwyllgor ewch i yma lle cewch hefyd ddarllen adroddiad blynyddol y Pwyllgor.

Gan ein bod mewn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rydym ni'n ymroddedig i weithredu systemau trylwyr a thryloyw o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau.


Mae ein fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r sefydliad. Mae'n ofynnol bod y Comisiynydd yn esbonio'r strwythur llywodraethu yn y sefydliad ac yn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y Côd Llywodraethu Corfforaethol a'r 'Llyfr Oren: Rheoli Risg'.

Yn yr adran hon, manylir ar i ba raddau mae'r sefydliad yn bodloni'r safonau hyn ac yn darparu tystiolaeth bod y trefniadau llywodraethu yn gweithio'n unol â'r bwriad ar draws y sefydliad. I ddarparu sicrwydd pellach, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae ein trefniadau llywodraethu corfforaethol wedi bod yn destun archwilio mewnol gan ein hymgynghorwyr, TIAA. Mae'r farn archwilio mewnol ar 2021-22 fel a ganlyn:

**"Mae TIAA yn fodlon fod prosesau rheoli risg, mesurau rheoli a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith gan Gomisiynydd Plant Cymru, yn y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn. Seilir y farn hon yn gyfan gwbl ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol unigol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n cwmpasu holl elfennau'r prosesau rheoli risg, mesurau rheoli a llywodraethu na hyfywedd ariannol parhaus y sefydliad na'ch gallu i gyflawni'r ymrwymiadau ariannol, a bydd rhaid i Gomisiynydd Plant Cymru sicrhau'r rhain trwy'r gwahanol ffynonellau sicrwydd sydd ar gael iddi."**

# Fframwaith Llywodraethu

**Penderfynwyd mabwysiadu'r 'Safon Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus', sy'n datblygu Egwyddorion Nolan ar gyfer ymddygiad unigolion mewn bywyd cyhoeddus ac yn darparu chwe egwyddor graidd ar gyfer llywodraethu da gan sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar i ba raddau mae'r sefydliad yn cyflawni'r egwyddorion hyn.**




*Oddi mewn i'n fframwaith llywodraethu, diffinnir y Comisiynydd fel y corff llywodraethu – sef y corff sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyfeirio a rheoli'r sefydliad. Yn swyddfa'r Comisiynydd, mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo rhai cyfrifoldebau i aelodau o'i thîm rheoli, ac mae hynny i gyd wedi'i amlinellu yn ein cynllun dirprwyo.

### Bod yn eglur ynghylch diben a chanlyniadau'r sefydliad

Mae bod â diben sefydliadol pendant a set o amcanion clir yn un o nodweddion llywodraethu da. Ein dull cynllunio strategol yw'r dull systemig o bennu ein nodau. Mae'n galluogi'r swyddfa i gadw at ei chylch gorchwyl deddfwriaethol a chyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a gyflwynwyd yn fy nghynlluniau strategol.

Mae'r prosesau cynllunio strategol a blynyddol yn darparu cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer holl swyddogaethau'r swyddfa; ac yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sefydliadol er mwyn mwyafu ein heffaith dros blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yn 2019, cyhoeddwyd ein Cynllun ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc 2019-22 a oedd yn nodi pum dyhead ar gyfer plant a phobl ifanc i'n helpu i lywio ein gwaith. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd gwerthusiad o'r adroddiad hwnnw a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed ac effaith ein gwaith.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwireddu atebolrwydd

Nid ydym yn comisiynu gwasanaethau nac yn darparu gwasanaethau rheng flaen. Yn hytrach, mae ein gwaith yn canolbwyntio ar ddarbwyllo a chefnogi eraill i gyflwyno a gweithredu newid. Profiadau a barn plant a phobl ifanc sy'n sbarduno ein holl waith.

Seiliwyd y cynllun gwaith, sy'n cwmpasu'r cyfnod o 2019 – 2022, ar ein hymgynghoriad mwyaf erioed gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion; bu dros 11000 o bobl yn rhannu eu barn trwy ein gwaith Beth Nesa'. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys ein hamcanion strategol ac mae gwerthusiad o'r cynllun hwnnw, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn amlygu sut rydym ni wedi:

- Ymgysylltu'n uniongyrchol â mwy nag 20,000 o blant a phobl ifanc;
- Clywed gan fwy na 51,000 o blant a phobl ifanc trwy arolygon;
- Cyflwyno hyfforddiant ar hawliau plant i fwy na 1,000 o weithwyr proffesiynol; a
- Sicrhau bod 553 o ysgolion cynradd ac uwchradd, ar gyfartaledd, yn ymuno bob blwyddyn â'n cynlluniau llysgenhadon.

Mae ein gwaith ar weithredu ein dyletswyddau cydraddoldeb hefyd yn ein galluogi i sicrhau bod ein gwaith yn cyrraedd y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r panel ymgynghorol pobl ifanc yn cynnig cyngor a her i'r tîm a buom yn cyfarfod â nhw yn amlach yn ystod pandemig COVID-19 er mwyn galluogi'r tîm i ddal i fyny ag aelodau'r panel yn fisol.

Mae'r gwerthusiad o'n cynllun tair blynedd, y cyfeirir ato uchod, yn nodi manylion effaith ein gwaith a'r hyn a wnaed o ganlyniad i ymgynghoriad Beth Nesa'. Yn y gwerthusiad hwn, ceir crynodeb o ganlyniadau'r arolwg staff diweddaraf sy'n nodi bod 95% o'r ymatebwyr yn cytuno ein bod ni'n gwrando ar wahanol grwpiau o blant a'r oedolion sy'n eu cefnogi a'n bod ni'n gweithio ar y materion sy'n bwysig iddyn nhw.

### Capasiti a gallu i fod yn sefydliad effeithiol

Rydym ni'n cydnabod bod llywodraethu'n cael ei gryfhau gan gyfranogiad pobl sydd â llawer o wahanol fathau o wybodaeth a phrofiad. Rydym yn hyderus, yn sgîl ein Fframwaith Datblygu Perfformiad, fod gan bob aelod o staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r capasiti angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau. Oddi mewn i'r fframwaith hwnnw, amlinellir cyfres o egwyddorion:

Rydym am i'n staff deimlo'n gysylltiedig ac wedi'u gwerthfawrogi; teimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi; bod yn glir eu meddwl ynghylch y gwaith sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw ac wedi'u hysgogi i gyfrannu at ein cynllun strategol; bod yn atebol am eu cyfraniadau a'u heffaith; cynnal trafodaethau effeithiol gyda chydweithwyr a rheolwyr ynghylch eu perfformiad a'u huchelgeisiau personol; a datblygu a chryfhau eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu tîm.

Fel sefydliad, rydym ni'n ymroddedig i fuddsoddi amser ac adnoddau i ddatblygu pawb sy'n gweithio yma, a datblygu systemau a strwythurau clir i gefnogi sut rydym ni'n datblygu. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu ein bod yn:

- trefnu rhaglen sefydlu fanwl ar gyfer pob aelod newydd o staff;
- annog pob aelod o staff yn ystod eu sesiwn oruchwylio fisol i drafod eu hanghenion a'u dymuniadau dysgu a datblygu;
- myfyrio ar gyflawniadau yn ystod ein cyfarfodydd arfarnu blynyddol gyda'r holl staff ac yn defnyddio ein dadansoddiad anghenion hyfforddi wedi'i deilwra yn sail ar gyfer ein trafodaethau ynghylch meysydd datblygu yn y dyfodol;
- cefnogi pynciau datblygu tîm cyfan, y mae rhai ohonynt yn orfodol.

Yn ogystal, rydym yn gwahodd y staff i gymryd rhan mewn arolwg staff bob dwy flynedd. Mae'r arolwg yn cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd gwaith yn y swyddfa gan gynnwys: llwyth gwaith ac adnoddau, rheolaeth linell, amcanion a diben y sefydliad, cynhwysiant a thriniaeth deg, arweinyddiaeth, staff, cydweithwyr tîm, cydweithwyr yn y tîm ehangach, tâl a buddion, diogelwch ac urddas yn y gwaith, dysgu a datblygu a chyfathrebu mewnol.

81% oedd y gyfradd ymateb i'n harolwg diweddaraf a fu ar waith ym mis Rhagfyr 2021; cyfradd ymateb sy'n gyson â rhai'r blynyddoedd blaenorol. Gwelwyd gwelliant ar ganlyniadau'r arolwg blaenorol (2018) mewn pedair adran, gan gynnwys arweinyddiaeth, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, cyfathrebu ac amcanion y sefydliad.

### Hybu Gwerthoedd i'r Sefydliad ac Arddangos Gwerthoedd Llywodraethu Da trwy Gynnal Safonau Uchel o ran Ymddygiad ac Ymarfer

Mae ein gwerthoedd a'n hegwyddorion cyflawni yn sylfaen ar gyfer ein holl bolisïau gweithredol a staff, yn ogystal â'n strategaeth tair blynedd. Fe'u rhennir gydag aelodau newydd o staff yn ystod y cyfnod sefydlu, ac fe'u cyfathrebir yn allanol ar ein gwefan ac mewn cyhoeddiadau allweddol. Rydym ni wedi ymrwymo i adolygu ein gwerthoedd yn ystod 2022|23 i gyd-ddigwydd â chyfnod gwasanaethu'r comisiynydd newydd.

Rydym ni hefyd yn ymroddedig i alluogi a grymuso gweithwyr i gyrraedd nodau unigol, tîm a strategol, ac yn barnu bod y broses arfarnu flynyddol, pennu amcanion a phrosesau cynllunio datblygiad personol yn rhan hanfodol o gyflawni hynny. Yn ein harolwg staff diweddaraf (Rhagfyr 2021), roedd 71% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant ein bod ni'n arddangos gwelliant parhaus yn ein gwaith yn sgîl myfyrio ac adolygu beirniadol rheolaidd.
Mae cyfres o bolisïau cyflogaeth mewnol y mae'n ofynnol i'r holl staff eu dilyn wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y sefydliad, gan gynnwys:

- Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Delio ag Ymddygiad Anfoddhaol
- Polisi Datrys Gwrthdaro yn y Berthynas Weithio
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Egwyddorion a Gweithdrefnau Recriwtio
- Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â Phryderon Achwyniad
- Polisi Datgelu Camarfer
- Fframwaith Datblygu Perfformiad.

Mae gan bob polisi mewnol berchennog ar lefel y Tîm Rheoli, maen nhw'n cael eu trafod gydag aelodau newydd o staff yn ystod y cyfnod sefydlu, ac maen nhw'n cael eu diweddaru'n unol â chylch rheolaidd (gyda'r amserlen yn mynd gerbron y tîm rheoli). Fel cyfres, mae'r polisïau hyn yn ein helpu i feithrin diwylliant sy'n gosod gwerth ar lefel uchel o berfformiad ac yn cryfhau a gwella sut rydym ni'n cyflawni ein rolau.

Mae ein holl bolisïau mewnol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn cylch, ac eleni buom ni'n adolygu ac yn diweddaru polisïau cyflogaeth allweddol ar ôl ymgynghori â'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gweithio'n ystwyth ac yn hyblyg;
- Polisi a Gweithdrefn Ailraddio
- Fframwaith Datblygu Perfformiad;
- Cefnogi pobl yn y gwaith sy'n profi cam-drin domestig (sef polisi newydd sbon);
- Arweiniad ar drefniadau gwyliau blynyddol;
- Ein hymagwedd at gyfnodau prawf;
- Polisi a Gweithdrefn Datgelu Camarfer;
- Ein lwfans llesiant; a
- Datrys gwrthdaro yn y berthynas weithio.

### Gwneud Penderfyniadau Gwybodus a Thryloyw sy'n Destun Craffu Effeithiol a Rheoli Risg

Fel corfforaeth un person, y Comisiynydd sydd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau yn y swyddfa. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo agweddau ar y penderfyniadau gweithredol i'r Tîm Rheoli. Mae rolau a chyfrifoldebau'r holl staff wedi'u diffinio'n glir yn eu disgrifiadau swydd ac yng nghynllun dirprwyo'r Fframwaith Llywodraethu. Mae gan bob gweithiwr amodau cyflogaeth a disgrifiadau swydd clir, sy'n nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Isod ceir crynodeb o sut rydym ni'n sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau cadarn a thryloyw:

• Cylch Gorchwyl y Tîm Rheoli
Mae cylch gorchwyl y Tîm Rheoli yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi agenda a chofnodion pob cyfarfod yn fewnol, fel bod y penderfyniadau a wneir yn dryloyw.

• Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi agenda a chofnodion pob cyfarfod. Maent yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y sefydliad, ac mae'r cadeirydd hefyd yn paratoi datganiad blynyddol i'w gynnwys yn adroddiad blynyddol y sefydliad i Brif Weinidog Cymru.

• Polisi Cynllunio Strategol
Mae ein dull o reoli prosiectau yn sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu diffinio a'u cyflawni. Mae'n cynnig mecanwaith effeithiol i'r sefydliad ddiffinio canlyniadau mesuradwy, ac yn cynnwys mecanweithiau ar gyfer monitro perfformiad ar hyd pob cyfnod, gan gynnwys cynllunio, manylebau, cyflawni a gwerthuso wedi'r prosiect. Mae'r rhan fwyaf o aelodau staff wedi cael hyfforddiant rheoli prosiectau ffurfiol ac mae'r mwyafrif wedi cyflawni cymhwyster sylfaenol.

• Rheoli Risg
Y polisi hwn sy'n diffinio'r fframwaith ar gyfer rheoli risg o fewn y sefydliad. Prif ddiben y polisi yw nodi'r broses o reoli risg fel bod yr holl staff yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw; sicrhau bod proses rheoli risg yn cael ei chyflwyno a'i chynnal mewn modd cyson; sicrhau bod rheoli risg wedi'i wreiddio yng ngweithgareddau'r sefydliad; a hybu diwylliant sy'n ymwybodol o risg.

## Rheoli Risg

Fel y nodwyd uchod, mae ein Polisi Rheoli Risg yn diffinio'r fframwaith ar gyfer rheoli risg yn y sefydliad. Mae'r polisi'n cydymffurfio â phrif egwyddorion Y Llyfr Oren: Rheoli Risg a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi ac yn ceisio nodi'r broses o reoli risg fel bod yr holl staff yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw; sicrhau bod y broses o reoli risg yn cael ei chyflwyno a'i chynnal mewn modd cyson; sicrhau bod rheoli risg wedi'i wreiddio yng ngweithgareddau'r sefydliad; a hyrwyddo diwylliant sydd ag ymwybyddiaeth o risg.

Mae ein system reoli fewnol yng nghyswllt risg yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o safbwynt cyflawni amcanion strategol y sefydliad a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Mae hynny'n cynnwys gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny ac effaith eu gwireddu ar y sefydliad ac ar blant a phobl ifanc, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiwastraff. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu bod pob aelod o staff yn derbyn bod risgiau'n anochel. Mae hefyd yn golygu, yn ymarferol, y dylai pob aelod o staff fod yn rhagweithiol wrth ganfod a rheoli risgiau, er mwyn sicrhau bod ein cynllun strategol tair blynedd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Rydym ni'n rheoli risg ar bedair lefel:

- Ein cofrestr risgiau gorfforaethol, sy'n nodi risgiau sy'n gysylltiedig â'n hamcanion strategol
- Mae cofrestrau risg ein prosiectau a'r logiau materion, ar gyfer pob prosiect sy'n rhan o'n cynllun gwaith blynyddol, yn cael eu rheoli gan ein rheolwyr prosiectau, sy'n adrodd i'r Tîm Rheoli bob mis.
- Mae ein cofrestrau risg thematig yn eu lle ar gyfer meysydd penodol o'n gwaith craidd, e.e. seiber-ddiogelwch. Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan swyddogion sy'n gyfrifol am y maes gwaith hwnnw.
- Mae ein cofrestrau risg tîm yn cael eu datblygu ar gyfer timau unigol yn y sefydliad ac yn cael eu cynnal gan bennaeth y swyddogaeth honno a'u hadolygu'n rheolaidd yn ystod sesiynau goruchwylio gyda'r Comisiynydd.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae ein tîm rheoli a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi parhau i gymryd rhan wrth graffu ar ein cofrestr risgiau corfforaethol. Llwyddwyd i reoli a dileu rhai risgiau o'r gofrestr risgiau corfforaethol eleni, gyda risgiau'n cael eu cau neu eu hisgyfeirio i gofrestrau risg eraill. Yn ogystal, rydym ni wedi canfod a rheoli risgiau corfforaethol newydd yn y meysydd canlynol:

- Gallu i gyflawni swyddogaethau statudol, gan gynnwys ein gallu i weithredu fel sefydliad hawliau dynol annibynnol, yn y byrdymor a'r hirdymor, oherwydd ymarferiad cydweddu Llywodraeth Cymru;
- Gallu i gyflawni swyddogaethau statudol oherwydd adnoddau annigonol;
- Bygythiadau i seiber-ddiogelwch.

Fel y nodwyd, rydym ni'n pennu ac yn asesu'n barhaus natur a chwmpas y prif risgiau mae'r sefydliad yn barod i'w cymryd i gyflawni ein hamcanion. Isod ceir datganiad cyffredinol ynghylch ein parodrwydd i gymryd risg.

"Ein nod yw bod yn ymwybodol o risgiau, heb fod yn rhy awyddus i osgoi risgiau, a rheoli risgiau sefydliadol yn weithredol er mwyn diogelu'r sefydliad a sicrhau ei fod yn tyfu. Er mwyn cyflawni'r nodau strategol, mae'r sefydliad yn cydnabod y bydd yn gorfod cymryd rhai risgiau a'u rheoli. Risgiau na ellir eu goddef yw rhai a allai wneud y canlynol:

1. Cael effaith negyddol ar ddiogelwch gweithwyr neu'r plant a'r bobl ifanc rydym ni'n gweithio drostyn nhw ac ar eu cyfer.
2. Niweidio gallu pobl i ymddiried yn y sefydliad a bwrw amheuaeth ar ein hygrededd.
3. Arwain at dorri cyfreithiau a rheoliadau.
4. Peryglu gweithrediadau'r sefydliad yn y dyfodol."

Mae'r rheolaeth ofalus ar risg wedi bod yn destun Archwilio Mewnol, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Bu TIAA, ein harchwilwyr mewnol, yn ystyried y trefniadau a oedd ar waith yn 2021/22 i ganfod risgiau a'u cysoni ag amcanion strategol y Comisiynydd, amlygu mesurau rheoli a'r modd y ceir sicrwydd bod y rhain yn eu lle. Cawsom ddosbarthiad o sicrwydd sylweddol ganddynt wedi iddyn nhw gwblhau eu hadolygiad.

Bu ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd yn bwrw golwg dros effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg.

- Rheolaeth ariannol

Mae ein rheolaeth ariannol wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reolaidd i reolwyr a chyfres o weithdrefnau ariannol clir, sydd wedi'u hamlinellu yng nghyfres y sefydliad o bolisïau a gweithdrefnau ariannol sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r broses o adolygu gwybodaeth i reolwyr yn cynnwys monitro ac adrodd rheolaidd ar y gyllideb. Bob mis mae'r Tîm Rheoli yn cael eu hysbysu ynghylch sut mae'r gwariant yn cyfateb i'r gyllideb, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael yr wybodaeth honno bob chwarter. Mae ein dull gweithredu seiliedig ar reoli prosiectau hefyd yn gofyn bod pob rheolwr prosiect yn datblygu cyllideb fanwl, a rhoddir adroddiad misol ar y rheiny yn y Tîm Rheoli. Cynhaliodd ein harchwilwyr mewnol, TIAA, adolygiad o'n rheolaeth gyllidebol, incwm, cyflogres, costau teithio a threfniadau gweinyddu pensiynau a chawsom asesiad o sicrwydd sylweddol ganddynt.

Rydym hefyd yn cymryd materion yn ymwneud â thwyll a chamweinyddu o ddifri calon. Mae gennym bolisïau yn eu lle ar gyfer datgelu camarfer, gwrthweithio twyll, a delio â chwynion. Yn ogystal, mae nifer o wahanol bolisïau mewnol yn disgrifio'r ymddygiad sy'n ddisgwyliedig.

### Cyflawni'n effeithiol o ran swyddogaethau a rolau a ddiffiniwyd yn glir

Mae'r sefydliad yn cynnwys pum swyddogaeth ryng-gysylltiedig sy'n cydweithio mewn dull gweithredu tîm cyfan. Rydym ni'n cyflawni rhaglen waith sy'n gwbl ryngddibynnol. Mae'r swyddogion yn cyflawni rolau arbenigol yn ôl eu harbenigedd, ond maent yn dibynnu ar rannau eraill o'r sefydliad i gyflawni'r rhaglen waith.

Mae gan yr holl bwyllgorau a phaneli ymgynghorol sy'n gysylltiedig â'r Comisiynydd Gylch Gorchwyl, a adolygir yn flynyddol, ac a gyhoeddir ar ein gwefan.

Mae'r Tîm Rheoli yn adolygu cynnydd yn erbyn ein holl brosiectau, a amlinellir yn y cynllun gwaith blynyddol, bob mis. Bob blwyddyn, trwy'r Adroddiad Blynyddol, rydym yn rhoi sylw i'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n hamcanion strategol.

Gan ein bod yn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rydym yn ymroddedig i weithredu systemau atebolrwydd a gwneud penderfyniadau sy'n drylwyr ac yn dryloyw. Mae ein fframwaith gwerthuso wedi'i lunio i roi trosolwg o'r gwaith craidd a gyflawnir gennym a phrosesau mewnol y sefydliad. Mae'n canolbwyntio ar bedair elfen: ein pobl, ein prosesau sefydliadol, cynaliadwyedd ariannol y Comisiynydd a gwerth am arian, a phlant a phobl ifanc. Trafodir yr adroddiadau hyn bob mis yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli a phob chwarter yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac mae'r uchafbwyntiau yn cael eu cyhoeddi yn ein hadroddiadau blynyddol (edrychwch ar uchafbwyntiau eleni yma).

Mae cylch gorchwyl fy mhaneli ymgynghorol yn cynnwys gofyniad penodol iddyn nhw gynnig cyngor ystyriol i'r Comisiynydd a'r staff, yn ôl y galw, er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd a chyflawni ein gofynion gwaith.

### Adrodd ar ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol yn cael eu hadrodd i'r Tîm Rheoli ac i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Rydym ni'n cadw at yr holl ganllawiau a gyflwynir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), gan gynnwys a oes angen symud digwyddiad ymlaen atyn nhw. Yn ystod 2021-22, rhoesom wybod i'r ICO am un digwyddiad. Ar ôl ei adolygu, roedd yr ICO yn fodlon ar ein camau gweithredu cyflym a'n dull o ymdrin â'r digwyddiad, a chadarnhawyd nad oedd angen cymryd camau pellach.

Yn ogystal, darparwyd sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth i'r holl staff â changen Cymru Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chyflawnwyd asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yng nghyswllt prosesau newydd a chyfredol ar gyfer casglu a dadansoddi data.

### Adolygu Effeithiolrwydd gan Gomisiynydd Plant Cymru

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system lywodraethu, ac yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus yng Nghymru, a ydwyf i'n cydymffurfio â Chôd Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet. Hysbysir yr adolygiad hwn gan waith yr archwilwyr mewnol a'r Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr at y rheolwyr ac adroddiadau eraill. Rwyf hefyd wedi derbyn cyngor ynghylch effeithiolrwydd y system lywodraethu trwy waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus yn y systemau mewnol ac i ymdrin ag unrhyw wendidau wrth iddynt godi.

Roedd y broses a ddefnyddiwyd wrth gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu fel a ganlyn:

- Bu'r Tîm Rheoli wrthi ar y cyd yn trafod ac yn adolygu gweithrediad y mesurau rheoli ariannol mewnol ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd;
- cwblhaodd archwilio mewnol adolygiad o effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol allweddol; a
- chyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod y flwyddyn a chynghori ar oblygiadau sicrwydd a roddwyd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli, digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol ac ymatebion rheolwyr i'r argymhellion archwilio.

TIAA fu'n darparu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer fy swyddfa yn ystod y cyfnod. Maent yn gweithredu'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Maent yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd fy system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliant.

Ar sail fy adolygiad effeithiolrwydd, nid oes materion rheolaeth fewnol arwyddocaol yn codi a lle bo hynny'n berthnasol, rwy'n cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellwyd yn y Côd Llywodraethu Corfforaethol.

### Rhaglen Welliant ar gyfer Materion Llywodraethu

Gyda'm Tîm Rheoli byddaf yn parhau i fonitro'r amgylchedd rheoli mewnol a sicrhau bod y fframwaith llywodraethu yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

Fel Swyddog Cyfrifyddu mae dyletswydd gyfreithiol arnaf fi i reoli'n briodol yr adnoddau a ddarparwyd ar fy nghyfer er mwyn i'm swyddfa gyflawni ei rhwymedigaethau statudol. Rhaid i mi sicrhau hefyd fod trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod fy swyddfa'n cael ei rheoli a'i llywodraethu'n briodol. Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn wedi darparu disgrifiad manwl o'r trefniadau hyn.

### Ardystiad gan y Swyddog Cyfrifyddu

Rwyf wedi fy sicrhau bod y system lywodraethu a fu'n weithredol yn fy swyddfa yn ystod 2021-22 wedi bod yn un gadarn. Ar sail yr adolygiad o effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol, rwyf wedi fy sicrhau bod y trefniadau presennol yn diwallu anghenion y swyddfa ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer gorau.

**Rocio Cifuentes MBE**

Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2022

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

# Taliadau i Aelodau Uwch o'r Tîm Rheoli

**Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r taliad i Gomisiynydd Plant Cymru, yn unol ag Atodlen 2 paragraff 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.**

**Yn achos aelodau eraill y Tîm Rheoli, pennwyd y taliadau cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru, ar sail cyfarwyddyd gan arbenigwyr recriwtio yn y gwasanaeth sifil.**

**Mae'r adrannau canlynol, a fu'n destun archwilio, yn darparu manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn y swyddogion uchaf sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig yn swyddfa'r Comisiynydd:**

| | Cyflog £000* | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)* | | Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf)* | | Cyfanswm £000* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 |
| **Yr Athro Sally Holland** Comisiynydd Plant Cymru. | 90 - 95 | 90 - 95 | - | - | 37,000 | 36,000 | 127 - 132 | 126 - 131 |
| **Sara Jermin** Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad. | 60 - 65 | 60 - 65 | - | - | 24,000 | 24,000 | 84 - 89 | 84 - 89 |
| **Andy Wallsgrove** Pennaeth Ymarfer. | 60 - 65 | 60 - 65 | - | - | 9,000 | 31,000 | 69 - 74 | 91 - 96 |
| **Rachel Thomas** Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus** | 55 - 60 | 50 - 55 | - | - | 24,000 | - | 79 - 84 | 57 - 62 |

* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.
** Roedd Rachel Thomas yn aelod o'r cynllun Pensiwn Partneriaeth tan 31 Awst 2021 a thalwyd £2,831 o gyfraniadau cyflogwr yn ystod y cyfnod. Ar 1 Medi 2021 daeth hi'n aelod o gynllun pensiwn Alpha.
*** Mae'r golofn Cyflogau yn cynnwys Lwfans Gweithio Gartref o £26 y mis, ac roedd Andy Wallsgrove a Rachel Thomas yn derbyn lwfans llesiant o £250 i'r naill a £208 i'r llall.

# Datgeliad Cyflog Teg

| Taliadau Canolrif | 2021-22 | | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| **Band taliadau'r unigolyn y telir y symiau mwyaf iddo/iddi (£000)** | 90 - 95 | Band taliadau'r unigolyn y telir y symiau mwyaf iddo/iddi (£000) | 90 - 95 |
| **Cyfanswm y canolrif** | 33,697 | - | 34,611* |
| **Cymhareb** | 2.75:1 | Cymhareb | 2.67:1 |

*ailddatganwyd cyfanswm canolrif 2020-21 i adlewyrchu newid yn y cyfrifiad.

| Pay Ratio Information | 2021-22 | 2021-22 Cymhareb | 2020-21 | 2020-21 Cymhareb |
|---|---|---|---|---|
| **Cymhareb Dâl 25 Canradd** | 20,754 | 4.46:1 | 22,446 | 4.12:1 |
| **Cymhareb Dâl Canradd y Canolrif** | 33,697 | 2.75:1 | 34,611 | 2.67:1 |
| **Cymhareb Dâl 75 Canradd** | 38,160 | 2.42:1 | 37,410 | 2.47:1 |

Mae'n ofynnol fy mod yn datgelu'r berthynas rhwng y taliad a wnaed i'r unigolyn a dderbyniodd y cyflog uchaf a chanolrif taliadau'r gweithwyr. Band taliadau'r unigolyn a dderbyniodd y taliad uchaf yn 2020-21 oedd £90,000 - £95,000 (2020-21: £90,000 - £95,000). Rwyf wedi defnyddio pwynt canol yr ystod hon, sef £92,500, i gymharu'r symiau hyn, a chael cymhareb o 2.75 gwaith (2020-21: 2.67) taliad canolrif y gweithwyr. Y rheswm am y symudiad rhwng y cyfnodau yw'r ffaith bod unigolion wedi cyrraedd pwynt uchaf eu bandiau cyflog; a chymhwyso cynnydd costau byw ar gyfer pob gradd yn ystod y cyfnod. Mae cyfanswm y taliadau yn cynnwys y cyflog a'r buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau cyflogwr i bensiwn na gwerth trosglwyddo ariannol cyfatebol pensiynau.

### Iawndal a dalwyd, Dyfarniadau Sylweddol i Uwch Reolwyr Blaenorol

Yn ystod y cyfnod 2021-22 ni wnaed taliadau iawndal na dyfarniadau sylweddol i uwch-reolwyr blaenorol.

| Buddion Pensiwn – Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil | Pensiwn a Gronnwyd £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn* £000 | CETV(i) ar 31.3.22* £000 | CETV(i) ar 31.3.21* £000 | Cynnydd/(gostyngi-ad) gwirioneddol yn CETV(ii)* £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Athro Sally Holland** Comisiynydd Plant Cymru. | 10 – 15 | 0 – 2.5 | 197 | 163 | 22 |
| **Sara Jermin** Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad. | 0 – 5 | 0 – 2.5 | 34 | 21 | 9 |
| **Andy Wallsgrove** Pennaeth Ymarfer. | 45 – 5 | 0 – 2.5 | 766 | 724 | 4 |
| **Rachel Thomas** Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus** | 0 – 5 | 0 – 2.5 | 11 | - | 9 |

* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.
** Roedd Rachel Thomas yn aelod o'r cynllun Pensiwn Partneriaeth tan 31 Awst 2021 a thalwyd £2,831 o gyfraniadau cyflogwr yn ystod y cyfnod. Ar 1 Medi 2021 daeth hi'n aelod o gynllun pensiwn Alpha.

## Y Cynllun Pensiwn

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfartalog, gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 oed os yw hynny'n uwch). Wedi'r dyddiad hwnnw, mae'r holl weision sifil newydd a benodir a'r mwyafrif o'r rhai sydd eisoes yn y gwasanaeth wedi ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, bu gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i PCSPS: mae tair ohonynt yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) lle mae'r oedran pensiwn arferol yn 60; ac mae un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) lle mae'r oedran pensiwn arferol yn 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, a thelir am gost y buddion ag arian sy'n destun pleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Roedd yr aelodau o PCSPS a fyddai'n cyrraedd eu hoedran pensiwn arferol 10 mlynedd neu lai wedi 1 Ebrill 2012 yn cael aros gyda PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Roedd y rhai a fyddai'n cyrraedd eu hoedran pensiwn arferol rywbryd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis wedi 1 Ebrill 2012 yn trosglwyddo i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu'r gwahaniaethu a amlygwyd yn y llysoedd o ran y modd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 i rai aelodau, disgwylir y gallai aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol, maes o law, mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hynnt effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Bydd buddion pob aelod sy'n trosglwyddo i alpha yn cael eu 'bancio', a bydd darpariaeth i'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS gael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer y swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn PCSPS neu alpha – fel sy'n berthnasol. Os bydd gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac yn alpha, gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun yw'r ffigur a ddyfynnir). Caiff aelodau sy'n ymuno wedi Hydref 2002 ddewis, fel sy'n briodol, rhwng y trefniadau buddion diffiniedig neu'r pensiwn cyfraniad diffiniedig (a brynir ag arian) gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio o 4.6% i 8.05% ar gyfer aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae'r buddion classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hynny, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymddeol. Yn achos y premium, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cyfuniad o'r ddau yw classic plus yn y bôn, gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel yn achos y classic a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos y premium. Yn nuvos mae aelod yn crynhoi pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif yr aelod ar gyfer y pensiwn a enillwyd yn cael ei gredydu â 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn a gronnwyd ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ond 2.32% yw'r gyfradd gronni. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn galwedigaethol cyfraniad diffiniedig yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth, sy'n rhan o Mastertrust Legal & General. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle bo'n dewis gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol i'r rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant arall o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn eu gwaith ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronnol a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y gall yr aelod ei hawlio wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydyw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn. Oedran pensiwn yw 60 yn achos aelodau classic, premium a classic plus a 65 yn achos aelodau nuvos a 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag fydd yr uchaf, yn achos aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer y swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn PCSPS neu alpha – fel sy'n berthnasol. Os bydd gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac yn alpha, gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun yw'r ffigur a ddyfynnir, ond sylwch y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w cael ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

### Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol asesedig actiwari y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod amodol o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu'n berthnasol iddi yn unig.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn rhoi sylw i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion yn sgîl Treth Lwfans Oes y gall fod angen ei thalu pan dynnir buddion pensiwn.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV y telir amdano gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgîl chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig

| a) Dyma'r costau staff ar gyfer y flwyddyn: | 2021-22<br>£000 | | | 2020-21<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff a Gyflogir yn Barhaol** | **Arall** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Tâl a Chyflogau | 906 | - | 906 | 956 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 88 | - | 88 | 96 |
| Costau Pensiwn | 228 | - | 228 | 228 |
| **Is-gyfanswm** | **1,222** | - | **1,222** | **1,280** |
| Costau ar gyfer secondiadau i mewn | - | - | - | - |
| Llai adenillion ar gyfer secondi-adau allan | - | - | - | (22) |
| **Cyfanswm Costau Net** | **1,222** | - | **1,222** | **1,258** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu i lawer o gyflogwyr, ond ni all y sefydliadau cyfranogol nodi eu cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Cafodd y cynllun ei brisio ddiwethaf gan actiwari ar 31 Mawrth 2007, ond ers y dyddiad hwnnw, ataliwyd prisiadau actiwaraidd o'r Cynllun gan ddisgwyl gweithrediad argymhellion Adolygiad Hutton. Fodd bynnag, ailbrisiwyd y cynllun yn 2018-19 a chyhoeddwyd cyfraniadau pensiwn diwygiedig i gyflogwyr gan Drysorlys Ei Mawrhydi o 1af Ebrill 2019. Ceir manylion yng Nghyfrifon Adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Budd-dal Ymddeol Sifil - www.civilservice-pensions.gov.uk.

Ar gyfer 2021-22, roedd cyfraniadau cyflogwr o £217,594 yn daladwy i PCSPS (2020-21: £207,236) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 16.7 y cant i 24.3 y cant o'r tâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, fel arfer bob pedair blynedd, yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu am gost y buddion a dalwyd i bensiynwyr cyfredol yn ystod y cyfnod hwn.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, neu bensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr. Roedd cyfraniadau cyflogwr o £10,523 yn daladwy i un darparwr pensiwn rhanddeiliaid (2020-21: £19,445). Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oed, ac yn amrywio o 3 i 12.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy (2020-21: 3 i 12.5 y cant). Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud tâl sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr, hyd at 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy. Ar ben hynny, roedd cyfraniadau cyflogwr o £511 neu 0.8 y cant o'r cyflog pensiynadwy, yn daladwy i PCSPS i dalu am gost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgîl marwolaeth yn ystod gwasanaeth ac ymddeoliad gweithwyr oherwydd afiechyd (2020-21: £1,075 neu 0.8 y cant). Nid oedd symiau'n ddyledus i ddarparwyr pensiwn y bartneriaeth ar 31 Mawrth 2022, (202021: £0). Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi'u cynnwys yn y costau Pensiwn.

| **b) Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch-reolwyr) yn ystod y cyfnod fel a ganlyn:** | **2021-22 £000** | | | **2020-21 £000** |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff a Gyflogir yn Barhaol** | **Arall** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Cyflogeion Uniongyrchol | 21.27 | - | 21.27 | 21.26 |
| **Cyfanswm** | **21.27** | - | **21.27** | **21.26** |

**Paratoi Adroddiadau ar Gynlluniau Iawndal y Gwasanaeth Sifil ac Eraill - Pecynnau Ymadael:**
Yn ystod y cyfnod 2021-22 ni wnaed taliadau iawndal na phecynnau ymadael i gyn-weithwyr.

**Rocio Cifuentes MBE**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2022

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 o dan baragraff 9 (2) o atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Maent yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifo arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifo a gyflwynwyd ynddynt. Y fframwaith adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifo rhyngwladol, fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Comisiynydd Plant Cymru ar 31 Mawrth 2022 a'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifo rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd yn Llawlyfr Adroddiadau Blynyddol Trysorlys Ei Mawrhydi; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a gyflwynwyd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

## Barn ynghylch rheoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr bwysig, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r pwrpasau a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Y sail ar gyfer fy marn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 Audit of Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdom. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail cyfrifo busnes gweithredol yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Ar sail y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd pwysig ynghylch digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg pryd yr awdurdodwyd rhyddhau'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru yng nghyswllt busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad innau arnynt fel archwilydd. Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddwyd i Gomisiynydd Plant Cymru yn pennu cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Comisiynydd Plant Cymru sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, a heblaw am i'r graddau fel arall a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad na sicrwydd yn ei chylch. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondebau pwysig â'r datganiadau ariannol neu â gwybodaeth a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos yn gamddatganiad ffeithiol. Os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol pwysig neu anghysondebau, mae gofyn fy mod yn ystyried a yw hynny'n achosi camddatganiad pwysig yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os deuaf i'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnais, fod camddatganiad pwysig yn yr wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol fy mod yn adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Gan nad yw'r ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Gomisiynydd Plant Cymru yn pennu cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod yr wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol wedi cael ei pharatoi'n unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad, mae'r wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes gofyniad deddfwriaethol i greu Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi paratoi'r cyfryw adroddiad, ac yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae fel arfer yn ofynnol ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt yn ôl eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau pwysig yn yr wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwr neu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, lle byddaf yn adrodd i chi os bydd y canlynol yn wir, yn fy marn i:

- os na chadwyd cofnodion cyfrifo priodol, neu na dderbyniwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na fy fu nhîm yn ymweld â nhw;
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- os na ddatgelwyd yr wybodaeth a bennwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi ynghylch taliadau cydnabyddiaeth; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru am ddatganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, Comisiynydd Plant Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r cyfarwyddyd a wnaed oddi tani gan Weinidogion Cymru, er mwyn cael eu bodloni bod y farn a roddir ynddynt yn wir a theg, ac er mwyn sicrhau'r mesurau rheoli mewnol y mae Comisiynydd Plant Cymru'n barnu bod angen amdanynt, er mwyn medru paratoi datganiadau ariannol sydd heb gamddatganiadau pwysig, p'un ai twyll neu wall sy'n gyfrifol am hynny.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, Comisiynydd Plant Cymru sy'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu yn ôl y galw faterion sy'n ymwneud â gweithrediad y busnes, a defnyddio'r sylfaen busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai bod hynny'n cael ei farnu'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion i yw caffael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu crynswth yn rhydd rhag camddatganiadau pwysig, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad pwysig pan fydd yn codi. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, a bernir eu bod yn bwysig os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Elennau afreolaidd, gan gynnwys twyll, yw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau pwysig yng nghyswllt elfennau afreolaidd, gan gynnwys twyll.

**Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:**

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a'r rhai hynny oedd yn gyfrifol am lywodraethu, ynghylch polisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Plant Cymru oedd yn ymwneud â'r canlynol:
- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll, ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir, neu honedig; a'r
- mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau cysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, fel tîm archwilio, sut a ble gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth, nodais fod potensial o safbwynt twyll yn y meysydd canlynol: postio dyddlyfrau anghyffredin;
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd Plant Cymru, yn ogystal â'r fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill mae Comisiynydd Plant Cymru yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, neu effaith waelodol ar weithrediadau Comisiynydd Plant Cymru.

**Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:**

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiad ariannol a'u profi yn erbyn y dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth roi sylw i risg twyll petai rheolwyr yn trechu'r mesurau rheoli, profi priodoldeb yr hyn a nodwyd mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth greu amcangyfrifon cyfrifo yn arwydd o fias posibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anghyffredin neu y tu allan i'r cylch gwaith arferol.

Bûm hefyd yn trafod y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau twyll posibl gyda holl aelodau'r tîm archwilio, ac yn parhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ar hyd yr archwiliad.

Effeithir ar i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan anhawster cynhenid canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd mesurau rheoli Comisiynydd Plant Cymru, a natur, amseriad a chwmpas y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

**Cyfrifoldebau o ran rheoleidd-dra**

Comisiynydd Plant Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'n ofynnol fy mod innau'n casglu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Ann-Marie Harkin**

Ar Gyfer ac Ar Ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
25 July 2022

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal cywirdeb gwefan Comisiynydd Plant Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021-22 £000 | 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant**<br>Costau gweinyddu: | | | |
| Costau Staff | 2.3 | 1,222 | 1,258 |
| Dibrisiad | 2.2 | 25 | 17 |
| Costau Gweinyddu Eraill | 2.1 | 277 | 425 |
| | | 1,524 | 1,700 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o Weithgareddau | - | - | - |
| Incwm Arall | - | - | - |
| | | - | - |
| Gwariant Net | | 1,524 | 1,700 |
| Llog taladwy/derbyniadwy | - | - | - |
| Gwariant Net ar ôl llog | - | 1,524 | 1,700 |

## Gwariant Arall Cynhwysfawr

| | Nodyn | 2021-22 £000 | 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|
| Enillion/(colled) net o ran ailbrisio Peiriannau a Chyfarpar | - | - | - |
| Cyfanswm y Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 | | 1,524 | 1,700 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes enillion na cholledion ac eithrio'r rhai yr adroddwyd amdanynt yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 109 i 117 yn rhan o'r cyfrifon hyn**

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022

| | | 2022 | | 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | Note | | | | |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 4 | | 42 | - | 14 |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | 5 | 48 | | 32 | - |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 6 | 135 | 183 | 179 | 211 |
| Cyfanswm asedau | | | 225 | | 225 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Elfennau masnach ac eraill taladwy | 7 | (64) | (64) | (52) | (52) |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | 161 | | 173 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 13 | (-) | (-) | (122) | (122) |
| Cyfanswm asedau llai cyfan-swm rhwymedigaethau | | | 161 | | 51 |
| **Ecwiti'r Trethdalwr:** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | | 161 | | 51 |

**Rocio Cifuentes MBE**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2022

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 109 i 117 yn rhan o'r cyfrifon hyn**

## Datganiad o Lifoedd Arian Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021-22<br>£000 | 2020-21<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant Net | 2 | 1,524 | 1,700 |
| Addasu ar gyfer trafodion heblaw rhai ag arian parod | 2 | (25) | (62) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | 5 | 16 | (19) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn elfennau masnach taladwy | 7 | (12) | 39 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 13 | 68 | - |
| Gwyrdroi darpariaeth heb ei defnyddio | 13 | 54 | - |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | | 1,625 | 1,658 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 4 | 53 | 5 |
| All-lif arian net o weithgaredd buddsoddi | | 53 | 5 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cyllido Net gan Lywodraeth Cymru | | (1,580) | (1,580) |
| Darpariaeth heb eu defnyddio | | (54) | - |
| Cyllido Net | | (1,634) | (1,580) |
| Cynnydd/(gostyngiad) net o ran arian a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 6 | (44) | (83) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | | 179 | 262 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod | | 135 | 179 |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 109 i 117 yn rhan o'r cyfrifon hyn**

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol<br>£000 |
|---|---|---|
| Gweddill ar 31 Mawrth 2021 | | 51 |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2021-22** | | |
| Cyllido gan Lywodraeth Cymru | | 1,580 |
| Darpariaeth heb eu defnyddio | | 54 |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | | (1,524) |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2022 | | 161 |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 109 i 117 yn rhan o'r cyfrifon hyn**

# Nodiadau i'r Cyfrifon

# 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifo

**Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.**
**Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiynydd, at ddiben rhoi golwg wir a theg. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau y barnwyd eu bod yn bwysig yng nghyswllt y cyfrifon.**

**Rydym wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau sydd wedi'u cyflwyno ond nad ydynt yn effeithiol hyd yma, ac sydd heb gael eu mabwysiadu'n gynnar gan y Comisiynydd. Ac eithrio Prydlesi IFRS16 y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Adroddiadau Ariannol (IFRS), mae'r Comisiynydd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r dehongliadau hyn mewn cyfnodau yn y dyfodol yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Nid oes modd rhesymol ar hyn o bryd i amcangyfrif effaith IFRS16, a gyflwynwyd gan Fwrdd Rhyngwladol Safonau Cyfrifo (IASB) a fydd yn berthnasol o 2021-22 ymlaen.**

**Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru isod.**

### 1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol gan fod Comisiynydd Plant Cymru yn barnu nad oes pwys i effaith ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r sefydliad trwy gyfeirio at eu cost gyfredol.

### 1.2 Ariannu

Yr unig ffynhonnell o gyllid ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru yw Llywodraeth Cymru trwy grant blynyddol, sy'n cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir y grant. Cydnabyddir y grant yn y cyfnod pryd y darperir y gwasanaethau.

### 1.3 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae'r Comisiynydd wedi prisio'r holl asedau anghyfredol yn ôl eu cost hanesyddol, gan nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn bwysig. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafiad asedau unigol yw £1,000. Grwpiwyd niferoedd mawr o'r un math o asedau gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

### 1.4 Dibrisiad

Depreciation is provided at rates calculated to write off the value of non-current assets by equal instalments over their estimated useful lives, as follows:

| | |
|---|---|
| **Offer TGCh** | **3 blynedd** |
| **Celfi** | **5 mlynedd** |
| **Cyfarpar Swyddfa** | **5 mlynedd** |
| **Gosodiadau a Ffitiadau** | **5 mlynedd** |

Codir am ddibrisiad blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael.

### 1.5 Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr

Incwm a gwariant gweithredu yw'r hyn sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau gweithredu y Comisiynydd. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd ar sail cost lawn. Dosbarthir yr holl wariant fel gwariant gweinyddu.

### 1.6 Treth ar Werth
Nid yw'r Comisiynydd wedi cofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phwrcasau asedau sefydlog gyda TAW wedi'i gynnwys, gan na ellir adennill TAW.

### 1.7 Pensiynau
Mae staff y Comisiynydd wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Cydnabyddir cost elfen buddion diffiniedig y cynllun yn systematig a rhesymegol dros y cyfnod pryd y bydd yn cael mantais o wasanaethau cyflogeion trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnol i'r PCSPS. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb ar y PCSPS. Yng nghyswllt elfennau cyfraniad diffiniedig y cynllun, mae'r Comisiynydd Plant yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu talu.

### 1.8 Prydlesi
Dosbarthir prydlesi asedau lle mae holl risgiau a manteision perchnogaeth ar ased wedi'i phrydlesu i bob pwrpas yn nwylo'r Comisiynydd fel prydlesi cyllidol. Cofnodir yr ased fel ased sefydlog diriaethol a chofnodir dyled i'r prydleswr o isafswm y taliadau prydles. Codir y taliadau ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a chodir tâl cyllid ar sail y gyfradd llog sy'n ddealledig yn y brydles.

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fesul symiau cyfartal ar hyd cyfnod y brydles.

### 1.9 Adroddiadau Segmentol
Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig yn adlewyrchu'r segmentau lle'r adroddir am y canlyniadau gweithredu.

### 1.10 Treuliau Staff
Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor byr adferedig sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn.

### 1.11 Darpariaethau
Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gontractiol y mae eu hamseru neu eu symiau'n ansicr ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen ar gyfer y rhwymedigaeth.

### 1.12 Arian Parod a'r hyn sy'n Cyfateb iddo
Mae'r Comisiynydd yn cadw arian parod, sy'n cael ei adneuo mewn cyfrif banc masnachol wrth ei dderbyn. Hefyd cedwir arian mân yn swyddfa'r Comisiynydd.

# 2. Costau Gweinyddu Eraill

## 2.1 Costau gweinyddu:

| | 2021-22 £000 | 2020-21 £000 |
|---|---|---|
| Safleoedd | 57 | 76 |
| Swyddfa | 67 | 77 |
| Hyfforddiant a llesiant | 11 | 18 |
| Teithio a chynhaliaeth | 4 | 2 |
| Taliadau i archwilio allanol | 18 | 18 |
| Taliadau i'r Archwilydd Mewnol | 13 | 12 |
| Cyfathrebu | 28 | 35 |
| Offer TGCh | 23 | 18 |
| Arall | 56 | 123 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | - | 1 |
| Darpariaeth yn ystod y flwyddyn | - | 45 |
| | 277 | 425 |

## 2.2 Trafodion heb fod mewn arian parod

| | | |
|---|---|---|
| Tâl dibrisiad o fewn y flwyddyn | 25 | 17 |
| | 25 | 17 |

## 2.3 Costau staff:*

| | | |
|---|---|---|
| Tâl a chyflogau | 906 | 956 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 88 | 96 |
| Pensiwn | 228 | 228 |
| Adenillion net ar gyfer secondiadau | (-) | (22) |
| | 1,222 | 1,258 |
| | 1,524 | 1,700 |

* Mae rhagor o wybodaeth ynghylch costau staff i'w gweld yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth.

# 3. Gwybodaeth Segmentol

**Mae swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Barn y Comisiynydd, felly, yw mai mewn un segment yn unig y mae ei swyddfa'n gweithredu, fel yr adroddwyd.**

## 4. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Offer TGCh £000 | Gosodiadau a Ffitiadau £000 | Celfi a Chyfarpar Swyddfa £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 244 | 197 | 211 | 652 |
| Ychwanegiadau | 20 | 11 | 22 | 53 |
| Gwarediadau | (208) | (197) | (198) | (603) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 56 | 11 | 35 | 102 |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 230 | 197 | 211 | 638 |
| Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn | 20 | 2 | 3 | 25 |
| Gwarediadau | (208) | (197) | (198) | (603) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 42 | 2 | 16 | 60 |
| **Llyfrwerth Net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 14 | - | - | 14 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 14 | 9 | 19 | 42 |
| **Cyllido Asedau** | | | | |
| A berchnogir Llyfrwerth Net Ar 31 Mawrth 2021 | 14 | - | - | 14 |
| A berchnogir Llyfrnet Net Ar 31 Mawrth 2022 | 14 | 9 | 19 | 42 |

Mae'r holl asedau yn eiddo i'r Comisiynydd, nid oes dim asedau'n cael eu cyllido trwy brydles ariannol.

## 5. Elfennau Masnach ac Eraill Derbyniadwy

| Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn: | **2021-22 £000** | **2020-21 £000** |
|---|---|---|
| | | |
| Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | - | - |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnol | 48 | 32 |
| | 48 | 32 |

## 6. Arian Parod a'r hyn sy'n Cyfateb iddo

| | 2021-22 £000 | 2020-21 £000 |
|---|---|---|
| | | |
| Gweddill ar 1 Ebrill | 179 | 262 |
| Newid net yn y gweddillion arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | (44) | (83) |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2022 | 135 | 179 |

Roedd yr holl weddillion ar 31 Mawrth 2021 ar ffurf daliadau gyda banc masnachol ac arian mewn llaw

## 7. Elfennau Masnach ac Eraill Taladwy

| Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn: | 2021-22 £000 | 2020-21 £000 |
|---|---|---|
| | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | - | - |
| Elfennau masnach taladwy | 12 | - |
| Croniadau ac Incwm Gohiriedig | 52 | 52 |
| | 64 | 52 |

## 8. Ymrwymiadau o dan brydlesi

**Prydlesi gweithredol**
**Roedd y Comisiynydd yn ymroddedig i wneud y taliadau canlynol yng nghyswllt prydlesi gweithredol oedd yn dod i ben:**

| Rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol | 2021-22 £000 | £000 | 2020-21 £000 | £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn | 40 | 1 | 36 | 1 |
| Ar ôl un flwyddyn a chyn pen pum mlynedd | 132 | - | 158 | 1 |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - | 20 | - |
| | **172** | **1** | **214** | **2** |

Daeth prydles y Comisiynydd ar ei swyddfa yn Nhŵ Ystumllwynarth yn Abertawe yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2021. Yn ystod cyfnod ariannol 2020-21 gwnaeth y Comisiynydd a'i thîm waith manwl i benderfynu ar y lefel fwyaf priodol o lety sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod amcanion ei chynllun strategol yn cael eu cyflawni a bod costau gweithredu'r sefydliad yn cael eu lleihau. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ymgynghori â'r staff a rhanddeiliaid eraill â diddordeb yn ogystal. Yn 2021 llofnodwyd prydles newydd am gyfnod o bum mlynedd ar gyfer safle newydd yn Nhŵ Llewelyn, Port Talbot.

# 9. Offerynnau ariannol

Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn gofyn bod rôl offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod yn cael ei datgelu o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol gweithgareddau'r Comisiynydd, a'r dull o gyllido'i gweithrediadau, nid yw ei swyddfa'n cael ei gadael yn agored i'r lefel o risg ariannol mae endidau busnes yn ei hwynebu. Ymhellach, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl sy'n llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddu'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS7 yn bennaf berthnasol iddynt. Mae gan y Comisiynydd bwerau cyfyngedig iawn i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd sy'n weddill a chynhyrchir asedau ariannol a rhwymedigaethau gan ei gweithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd, yn hytrach na'u dal i newid y risgiau y mae'n eu hwynebu wrth ymgymryd â'i gweithgareddau.

**Risg Hylifedd**
Ariannir gofynion y Comisiynydd o ran refeniw net ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Nid yw ei swyddfa felly yn cael ei gadael yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

**Risg cyfradd Llog**
Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau cyfradd llog.

**Risg Arian Tramor**
Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau arian tramor.

**Gwerthoedd Teg**
Nid oes gwahaniaeth rhwng llyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2022

# 10. Ymrwymiadau Cyfalaf

Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2022.

# 11. Rhwymedigaethau Amodol

Nid oedd dim rhwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2022.

# 12. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, a derbyniodd y Comisiynydd ei hunig ffynhonnell gyllido oddi wrth Lywodraeth Cymru; derbyniodd £1.603 miliwn yn ystod y cyfnod (2020-21 - £1.580 miliwn). Cafodd y Comisiynydd nifer bach o drafodion pwysig yn ystod y cyfnod gyda Chyllid y Wlad (taliadau Treth ac Yswiriant Gwladol), sef £291,946 (2020-21 £305,371); a Swyddfa'r Cabinet (taliadau yng nghyswllt Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil), sef £218,105 (2020-21 £250,770).

Ni chafwyd trafodion o bwys gyda sefydliadau lle roedd gan staff uwch, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, swyddi dylanwadol.

## 13. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | Darpariaeth ar gyfer Dadfeiliadau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| | | |
| Gweddill ar 1 Ebrill 2021 | 122 | 122 |
| Defnydd o'r ddarpariaeth | 68 | 68 |
| Darpariaeth yn ystod y flwyddyn | - | - |
| Rhyddhau darpariaeth | 54 | 54 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2022** | - | - |

**Darpariaeth ar gyfer Dadfeiliadau**
Mae'r Comisiynydd yn talu am gost cyflawni ei rhwymedigaethau o dan delerau prydles ei swyddfa yn Abertawe yn llawn trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau a amcangyfrifir. Daeth y brydles i ben ym mis Gorffennaf 2021 a thalwyd ymrwymiadau'r brydles, gwerth £67,975. Cafodd £54,025 ei gredydu'n ôl i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer darpariaeth heb ei defnyddio.

## 14. Digwyddiadau wedi'r Cyfnod Adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad datganiad y sefyllfa ariannol a dyddiad llofnodi'r cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn. Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w rhyddhau ar 19 Gorffennaf 2022.

Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales